# Cyngor Caerdydd

# Map Rhwydwaith Teithio Llesol

# Adroddiad ar yr Ymgynghoriad

**17 Mai 2022**

# Cynnwys


Cynnwys ..... 2

Cyflwyniad ..... 4

Dull Ymgynghori ..... 4

Crynodeb o'r Ymatebion ..... 5

- Demograffeg yr Ymatebwyr ..... 5

Ymatebion fesul ward ..... 8

- Adamsdown ..... 9
- Butetown ..... 11
- Caerau ..... 14
- Treganna ..... 17
- Cathays ..... 21
- Creigiau a Sain Ffagan ..... 25
- Cyncoed ..... 28
- Trelái ..... 33
- Y Tyllgoed ..... 35
- Gabalfa ..... 37
- Grangetown ..... 40
- Y Mynydd Bychan ..... 45
- Llys-faen ..... 48
- Llandaf ..... 51
- Ystum Taf ..... 54
- Llanisien ..... 58
- Llanrhymni ..... 62
- Pentwyn ..... 65
- Pentyrch ..... 67
- Pen-y-lan ..... 69
- Plasnewydd ..... 73
- Pontprennau a Phentref Llaneirwg ..... 78
- Radur a Phentre-poeth ..... 80
- Rhiwbeina ..... 83
- Glan-yr-afon ..... 86
- Tredelerch ..... 90
- Y Sblot ..... 93

Trowbridge .......... 96
Yr Eglwys Newydd a Thongwynlais .......... 98

# Cyflwyniad

Map sy'n nodi cynlluniau ar gyfer datblygu'r llwybrau teithio llesol dros y 15 mlynedd nesaf yw'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol (MRhTLl). Mae llwybrau teithio llesol yn llwybrau sy'n addas ar gyfer cerdded a/neu feicio i gyrchfannau lleol.

Mae'r map yn dangos:

- Llwybrau teithio llesol presennol sydd wedi'u harchwilio yn unol â Chanllawiau Dylunio Teithio Llesol Llywodraeth Cymru ac sydd wedi cyrraedd y safon briodol
- Llwybrau teithio llesol i'r dyfodol y bydd angen eu gwella i gyrraedd y safon fel llwybrau presennol

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y Map Rhwydwaith Teithio Llesol drafft ar gyfer cyfnod o 12 wythnos rhwng 9 Awst 2021 a 31 Hydref 2021.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r dull ymgynghori a'r canlyniadau.

# Dull Ymgynghori

Cyhoeddwyd deunyddiau ymgynghori ar lwyfan Commonplace a gwahoddwyd yr ymatebwyr i ymateb i'r ymgynghoriad gan ddefnyddio holiaduron trwy'r llwyfan hwn. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad trwy'r canlynol:

- Gwefan Cyngor Caerdydd
- Datganiad i'r Wasg
- Social media
- E-bost at gyflogeion Cyngor Caerdydd
- E-bost at grwpiau rhanddeiliaid, gan gynnwys:
    - cynrychiolwyr lleol o sefydliadau cerdded a beicio
    - gwasanaethau brys
    - gweithredwyr bysus
    - awdurdodau cyfagos
    - sefydliadau anabledd
    - cynghorau cymuned
- E-bost at ysgolion gyda deunyddiau sy'n briodol i oedran er mwyn hwyluso cyfranogiad plant a phobl ifanc gyda'u teuluoedd
- E-bost at ymatebwyr i'r broses ymgysylltu â theithio llesol a wnaed trwy'r llwyfan Commonplace rhwng 25 Tachwedd 2020 a 29 Ionawr 2021
- E-bost at unigolion a sefydliadau a ofynnodd am gael eu hysbysu am yr ymgynghoriad yn unol ag Adran 4(3) y Ddeddf Teithio Llesol

Gan nad yw'r rhyngwyneb map ar Commonplace yn gwbl hygyrch i'r holl ddefnyddwyr, paratowyd deunyddiau ymgynghori a holiaduron a'u darparu mewn fformatau amgen. Trefnwyd cyfarfod â phobl leol â nam ar eu golwg trwy Sight Life Caerdydd er mwyn esbonio'r cynigion a chael adborth.

Oherwydd yr ansicrwydd am raddau'r cyfyngiadau COVID-19 trwy gydol y cyfnod ymgynghori, ni chynhaliwyd unrhyw gyfarfodydd wyneb yn wyneb fel rhan o'r ymgynghoriad. Yn hytrach, cynhaliwyd y cyfarfodydd canlynol ar-lein:

- 28 Medi 2021: Sefydliadau anabledd
- 30 Medi 2021: Dinas Beicio Caerdydd
- 19 Hydref 2021: Sight Life Caerdydd

Cyflwynwyd deunyddiau ymgynghori ar lwyfan Commonplace gyda map a holiadur ar wahân ar gyfer pob ward yn ardal Cyngor Caerdydd. Ffiniau'r wardiau a ddefnyddiwyd ar gyfer yr ymgynghoriad hwn oedd y ffiniau oedd ar waith cyn y newidiadau i ffiniau'r wardiau yn 2022 ac felly mae'r canlyniadau yn yr adroddiad hwn hefyd wedi'u nodi yn unol â ffiniau'r hen wardiau. Nid yw'r newid i ffiniau'r wardiau wedi effeithio ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn.

## Crynodeb o'r Ymatebion

Mae nifer yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad fel a ganlyn:

- Derbyniwyd 1385 o ymatebion trwy lwyfan Commonplace, gan gyflwyno cyfanswm o 1744 o sylwadau (gallai pob ymatebwr adael hyd at 1 sylw fesul ward)
- Derbyniwyd 18 ymateb trwy e-bost

Cafwyd sylwadau mewn perthynas â phob ward yn ardal Cyngor Caerdydd, ond nid yw eu dosbarthiad yn gyfartal. Mae nifer sylweddol o sylwadau'n ymwneud â ward Cyncoed (559 o sylwadau ar lwyfan Commonplace ac 8 sylw trwy e-bost).

### Demograffeg yr Ymatebwyr

Rhoddir dadansoddiad manwl o nodweddion demograffig yr ymatebwyr isod:

Rhyw'r ymatebwr:

- Benyw: 482 (44%)
- Gwryw: 563 (52%)
- Arall: 5 (1%)
- Dewis peidio â dweud: 38 (3%)

Oedran yr ymatebwr:

- 13-15: 12 (1%)
- 16-24: 43 (4%)
- 25-34: 159 (15%)
- 35-44: 319 (29%)
- 45-54: 230 (21%)
- 55-64: 154 (14%)
- 65-74: 121 (11%)
- 70 neu’n hŷn: 33 (3%)
- Dewis peidio â dweud: 17 (2%)

Ethnigrwydd yr ymatebwr:

- Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Asiaidd Prydeinig: 15 (2%)
- Arabaidd: 1 (0%)
- Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Cymreig/Du Prydeinig: 0 (0%)
- Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig: 5 (1%)
- Gwyn Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gogledd Iwerddon/Prydeinig 539 (88%)
- Cefndir Gwyn arall: 49 (8%)
- Unrhyw un arall: 1 (0%)
- Dewis peidio â dweud: 5 (1%)

A yw'r ymatebwr yn nodi ei fod yn berson anabl:

- Ydw: 60 (10%)
- Nac ydw: 560 (89%)
- Dewis peidio â dweud: 7 (1%)

Y ward lle mae’r ymatebwr yn byw, yn ôl cod post y cyfeiriad cartref (lle darperir cod post dilys) a ffiniau’r ward cyn 2022:

- Adamsdown: 10 (1%)
- Butetown: 8 (1%)
- Caerau: 13 (1%)
- Treganna: 55 (6%)
- Cathays: 8 (1%)
- Creigiau a Sain Ffagan: 9 (1%)
- Cyncoed: 200 (22%)
- Trelái: 7 (1%)

- Y Tyllgoed: 9 (1%)
- Gabalfa: 21 (2%)
- Grangetown: 34 (4%)
- Y Mynydd Bychan: 58 (6%)
- Llys-faen: 18 (2%)
- Llandaf: 22 (2%)
- Ystum Taf: 19 (2%)
- Llanisien: 55 (6%)
- Llanrhymni: 4 (0%)
- Pentwyn: 33 (4%)
- Pentyrch: 25 (3%)
- Pen-y-lan: 80 (9%)
- Plasnewydd: 43 (5%)
- Pontprennau a Phentref Llaneirwg: 15 (2%)
- Radur a Phentre-poeth: 17 (2%)
- Rhiwbeina: 18 (2%)
- Glan-yr-afon: 26 (3%)
- Tredelerch: 10 (1%)
- Y Sblot: 28 (3%)
- Trowbridge: 14 (2%)
- Yr Eglwys Newydd a Thongwynlais: 36 (4%)
- Y tu allan i Gaerdydd: 20 (2%)

# Ymatebion fesul ward

Mae dadansoddiad manwl o'r sylwadau a dderbyniwyd wedi'i wneud fesul ward ac mae canlyniadau hyn wedi'u nodi yn yr adran hon o'r adroddiad. Mae hyn yn cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd, ymateb y Cyngor, a chrynodeb o'r newidiadau a wnaed i'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol ar gyfer pob ward.

Yn gyffredinol, nid yw'r categorïau materion canlynol wedi'u cynnwys yn yr adran hon oherwydd na fyddai angen iddynt ystyried unrhyw newidiadau penodol i'r map:

- Materion nad ydynt yn berthnasol i'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol (er enghraifft pryderon am drafnidiaeth gyhoeddus)
- Materion nad ydynt yn ymwneud â lleoliadau penodol (er enghraifft cais cyffredinol am well llwybrau i ysgolion ar draws y ddinas)
- Materion yr ymdrinnir eisoes â nhw o dan gynigion yn y Map Rhwydwaith Teithio Llesol drafft (er enghraifft ceisiadau am seilwaith cerdded neu feicio ar lwybrau teithio llesol sydd eisoes wedi'u cynnig fel llwybrau i'r dyfodol)
- Materion y dylid mynd i'r afael â nhw trwy broses ddylunio'r cynllun (er enghraifft pryderon am yr effaith ar barcio ar lwybrau teithio llesol arfaethedig sydd yng nghamau cynnar eu datblygiad ac felly heb gynigion seilwaith penodol ar y map). Bydd pob cynllun yn destun ymgynghoriad cyhoeddus pellach ar y dyluniad yn unol â phrosesau ymgynghori Cyngor Caerdydd.

## Adamsdown

**Nifer yr ymatebion a gafwyd:** 40 (Commonplace)

Dyma'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiynau ymgynghori ar lwybrau arfaethedig (llwybrau'r dyfodol):

Ydych chi'n cytuno â'r llwybrau newydd arfaethedig ar gyfer cerdded?

- Ydw: 23 (64%)
- Yn rhannol: 8 (22%)
- Nac ydw: 5 (14%)

Ydych chi'n cytuno â'r llwybrau newydd arfaethedig ar gyfer cerdded a beicio?

- Ydw: 18 (49%)
- Yn rhannol: 8 (22%)
- Nac ydw: 11 (30%)

### Materion Penodol

Mae'r ymatebion sy'n codi materion ynglŷn â llwybrau arfaethedig (llwybrau'r dyfodol) y gallai fod angen newidiadau i'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol ar eu cyfer wedi cael eu crynhoi isod gydag ymateb y Cyngor.

- Mater 1: Pont o Kames Place i Adamsdown Place: angen ailadeiladu'r bont, mae'n rhy dywyll, gul ac anniogel (1 sylw a dderbyniwyd).

  Canlyniad: Dim newidiadau. Ychydig iawn o fudd fyddai'n dod o roi llwybr yma o ran cysylltiadau â chyrchfannau lleol neu'r rhwydwaith teithio llesol ehangach.

- Mater 2: Parc y Bragdy: dylid cynnwys llwybr cerdded sy'n gwneud defnydd o lwybrau byr i Stryd Clifton a Heol Lydan (derbyniwyd 2 sylw).

  Canlyniad: Ychwanegwyd y llwybr cerdded at y map.

- Mater 3: Darparu llwybr newydd i gerddwyr trwy bennau'r ffyrdd yn Beresford Road Lane/Spring Gardens Place/Spring Gardens Terrace i'r parc manwerthu (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim newidiadau. Mae angen ymchwilio ymhellach i ddichonoldeb a pherchnogaeth tir.

- Mater 4: Darparu llwybr o'r gogledd i'r de ar Stryd Clifton gyda chysylltiad ag Elm Street (derbyniwyd 7 sylw).

  Canlyniad: Ychwanegwyd llwybr cerdded a beicio at y map.

- Mater 5: Dylai Constellation Street - Tin Street - Pearl Street fod yn llwybr beicio arfaethedig neu'n ddewis arall i'r llwybr arfaethedig trwy Comet Street – Sun Street – Iron Street (derbyniwyd 4 sylw).

  Canlyniad: Mae alinio'r llwybr wedi'i ychwanegu fel opsiwn ar gyfer llwybr eilaidd dwyreiniol/gorllewinol drwy Adamsdown.

- Mater 6: Dylid darparu llwybr cerdded mwy uniongyrchol o Heol Fitzalan i ganol y ddinas (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim newidiadau. Mae angen ymchwilio ymhellach i ddichonoldeb a pherchnogaeth tir.

- Mater 7: Dylai Longcross Street a Gold Street gael eu dangos fel llwybr cerdded arall i Heol Casnewydd (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Ychwanegwyd y llwybr cerdded at y map.

- Mater 8: Moira Terrace - Planet Street - Dylai Star Street fod yn llwybr beicio arfaethedig (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim newidiadau. Mae dau opsiwn ar gyfer llwybr eilaidd o'r dwyrain i'r gorllewin trwy Adamsdown yn cael eu hystyried yn ddigonol ar hyn o bryd.

**Crynodeb o'r newidiadau**

Mae'r newidiadau canlynol wedi cael eu gwneud i lwybrau arfaethedig (llwybrau'r dyfodol) yn sgil yr ymgynghoriad:

- Heol Lydan i Stryd Clifton trwy Barc y Bragdy: Ychwanegwyd llwybr cerdded lleol.
- Stryd Clifton: Llwybr cerdded a beicio eilaidd wedi'i ychwanegu gyda chysylltiadau ymlaen i Elm Street a Heol y Sblot
- Stryd Constellation – Tin Street – Pearl Street: Ychwanegwyd fel opsiwn ar gyfer alinio llwybr cerdded a beicio eilaidd o Moira Place i Pearl Street
- Longcross Street and Gold Street: Ychwanegwyd llwybr cerdded lleol

## Butetown

**Nifer yr ymatebion a gafwyd:** 39 (Commonplace)

**Crynodeb o’r ymatebion**

Dyma'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiynau ymgynghori ar lwybrau'r dyfodol:

Ydych chi'n cytuno â'r llwybrau newydd arfaethedig ar gyfer cerdded?

- Ydw: 21 (64%)
- Yn rhannol: 8 (24%)
- Nac ydw: 4 (12%)

Ydych chi'n cytuno â'r llwybrau newydd arfaethedig ar gyfer cerdded a beicio?

- Ydw: 22 (63%)
- Yn rhannol: 8 (23%)
- Nac ydw: 5 (14%)

Dyma'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiynau ymgynghori ar lwybrau presennol:

Ydych chi'n cytuno bod y llwybrau beicio presennol a ddangosir yn addas ar gyfer beicio ar hyn o bryd?

- Ydw: 11 (31%)
- Yn rhannol: 17 (47%)
- Nac ydw: 8 (22%)

**Materion Penodol**

Mae’r ymatebion sy'n codi materion ynglŷn â llwybrau arfaethedig (llwybrau'r dyfodol) y gallai fod angen newidiadau i'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol ar eu cyfer wedi cael eu crynhoi isod gydag ymateb y Cyngor.

- Mater 1: Sicrhau bod cynigion llwybrau trwy Glanfa'r Iwerydd yn ystyried newidiadau arfaethedig o ganlyniad i ddatblygiad yr arena er mwyn osgoi gwaith ofer (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Mae llwybrau arfaethedig yn cyd-fynd â'r seilwaith presennol a'r llwybrau a ddymunir sy'n cysylltu canol y ddinas â chyrchfannau ym Mae Caerdydd.

- Mater 2: Dylid dangos lleoliad arfaethedig ar gyfer pont newydd yng Ngerddi Merches i gysylltu â datblygiad y Bragdy (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae alinio llwybr teithio llesol arfaethedig trwy Gerddi Merches wedi cael ei estyn i gynnwys cynigion pont.

- Mater 3: Dylid agor y gatiau ym mhen Esplanâd Bute i ddarparu mynediad i Havannah Street trwy'r maes parcio (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Mae llwybrau arfaethedig amgen yn ddigonol ar hyn o bryd.

- Mater 4: Dylid darparu llwybr cerdded a beicio arfaethedig trwy Barc y Gamlas sy'n cysylltu Stryd James â Sgwâr Callaghan (derbyniwyd 3 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map sy'n cysylltu Stryd James â Sgwâr Callaghan trwy Barc y Gamlas.

- Mater 5: Dylai cynigion ar gyfer llwybr cerdded a beicio newydd a phont teithio llesol sy'n gysylltiedig â datblygiad Trem y Môr gael eu cynnwys ar y map (derbyniwyd 2 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map gydag aliniad dangosol ar gyfer y bont newydd a llwybrau cysylltu.

- Mater 6: Dylid cynnwys lleoliad arfaethedig ar gyfer pont teithio llesol newydd sy'n gysylltiedig â’r datblygiad yn Arglawdd Curran ar y map (derbyniwyd 3 sylw).

  Canlyniad: Roedd y llwybr ar draws Afon Taf yn y lleoliad hwn i'w weld ar y map drafft, ond er eglurder mae'r Disgrifiad o’r Gwaith wedi'i ddiweddaru er mwyn cynnwys cynigion ar gyfer pont teithio llesol newydd yma.

- Mater 7: Dylid darparu llwybr cerdded a beicio ar ochr ddwyreiniol Afon Taf yn Arglawdd Curran (derbyniwyd 2 sylw).

  Canlyniad: Dim newidiadau. Mae angen ymchwilio ymhellach i ddichonoldeb a pherchnogaeth tir er mwyn dynodi llwybr teithio llesol yma.

- Mater 8: Dylid darparu llwybr beicio o Heol Hemingway i Stryd Pen y Lanfa i gysylltu Glanfa'r Iwerydd â'r glannau ar draws cylchfan Queens Gate (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map sy'n cysylltu Heol Hemingway â'r llwybr beicio ar Ffordd Ewart Parkinson.

- Mater 9: Dylai'r llwybr teithio llesol arfaethedig o Heol Letton i Ffordd y Sgwner fod ar gyfer beicio yn ogystal â cherdded (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae'r llwybr cerdded lleol arfaethedig o Heol Letton i Ffordd y Sgwner wedi'i ddiwygio i lwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig.

- Mater 10: Dylid darparu llwybr beicio sy'n cysylltu Rhodfa Lloyd George â Llwybr y Bae o flaen neu y tu ôl i Ganolfan Mileniwm Cymru (derbyniwyd 2 sylw).

  Canlyniad: Dim newidiadau. Mae angen ymchwilio ymhellach i ddichonoldeb a pherchnogaeth tir er mwyn dynodi llwybr teithio llesol yma.

Mae’r ymatebion sy'n codi materion ynglŷn â llwybrau presennol y gallai fod angen newidiadau i'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol ar eu cyfer wedi cael eu crynhoi isod gydag ymateb y Cyngor.

- Mater 1: Mae angen gwella arwyneb y llwybr cyd-ddefnyddio ar hyd yr A4232 (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Mae archwiliad y llwybr wedi'i adolygu ac mae'r llwybr wedi pasio'r archwiliad, er gwaethaf problemau ynglŷn â'r arwyneb. Mae gwaith cynnal a chadw wedi’i gynllunio i atgyweirio’r arwyneb yn 2022.

- Mater 2: Mae angen dull ffisegol o wahanu cerddwyr a beicwyr ar y llwybr i’r morglawdd (derbyniwyd 3 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Mae’r archwiliad llwybr ar gyfer Llwybr y Bae yn y lleoliad hwn wedi'i adolygu ac mae'r llwybr yn pasio'r archwiliad.

- Mater 3: Codwyd nifer o faterion ynglŷn â'r trac beicio ar Rhodfa Lloyd George, gan gynnwys ceir wedi'u parcio ar y trac beicio (12 sylw), arwyneb gwael ar y trac beicio (5 sylw), gormod o oedi i feicwyr a cherddwyr ar groesfannau Toucan ar ffyrdd ochr (6 sylw), a diffyg addasrwydd y llwybr presennol yn gyffredinol (2 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Mae’r archwiliad llwybr ar gyfer Rhodfa Lloyd George wedi'i adolygu ac mae'r llwybr yn pasio'r archwiliad.

**Crynodeb o’r newidiadau**

Mae'r newidiadau canlynol wedi cael eu gwneud i lwybrau arfaethedig (llwybrau'r dyfodol) yn sgil yr ymgynghoriad:

- Gerddi Merches i'r Orsaf Ganolog: Mae alinio llwybr teithio llesol arfaethedig trwy Gerddi Merches wedi cael ei estyn i gynnwys cynigion pont i gysylltu â datblygiad y Bragdy.
- Parc y Gamlas: Ychwanegwyd llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig sy’n cysylltu Stryd James â Sgwâr Callaghan trwy Barc y Gamlas.
- Trem y Môr: Ychwanegwyd llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig gydag aliniad dangosol ar gyfer y bont newydd a llwybrau cysylltu i gysylltu â datblygiad Trem y Môr.
- Arglawdd Curran: Mae’r Disgrifiad o'r Gwaith ar gyfer llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig a fyddai’n croesi Afon Taf wedi cael ei ddiweddaru i gynnwys cynigion am bont teithio llesol newydd i gysylltu â’r datblygiad newydd.
- Heol Hemingway i Ffordd Ewart Parkinson: Ychwanegwyd llwybr cerdded a beicio eilaidd at y map.
- Heol Letton i Ffordd y Sgwner: Mae'r llwybr cerdded lleol arfaethedig o Heol Letton i Ffordd y Sgwner wedi'i ddiwygio i lwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig.

## Caerau

**Nifer yr ymatebion a gafwyd:** 26 (Commonplace) 1 (e-bost)

**Crynodeb o'r ymatebion**

Dyma'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiynau ymgynghori ar lwybrau'r dyfodol:

Ydych chi'n cytuno â'r llwybrau newydd arfaethedig ar gyfer cerdded?

- Ydw: 9 (45%)
- Yn rhannol: 9 (45%)
- Nac ydw: 2 (10%)

Ydych chi'n cytuno â'r llwybrau newydd arfaethedig ar gyfer cerdded a beicio?

- Ydw: 11 (48%)
- Yn rhannol: 8 (35%)
- Nac ydw: 4 (17%)

Dyma'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiynau ymgynghori ar lwybrau presennol:

Ydych chi'n cytuno bod y llwybrau cerdded presennol a ddangosir yn addas ar gyfer cerdded ar hyn o bryd?

- Ydw: 11 (46%)
- Yn rhannol: 8 (33%)
- Nac ydw: 5 (21%)

**Materion Penodol**

Mae'r ymatebion sy'n codi materion ynglŷn â llwybrau arfaethedig (llwybrau'r dyfodol) y gallai fod angen newidiadau i'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol ar eu cyfer wedi cael eu crynhoi isod gydag ymateb y Cyngor.

- Mater 1: Dylid creu llwybr teithio llesol ar hyd yr A4232 i gysylltu Cwrt yr Ala â bryngaer Caerau a Llwybr Elái (derbyniwyd 4 sylw).

  Canlyniad: Dim newidiadau. Bydd y llwybr teithio llesol trwy Heol Trelái yn darparu gwell cysylltedd trwy Gaerau ar gyfer teithiau o'r dwyrain i'r gorllewin.

- Mater 2: Dylid gwella llwybrau trwy Goed Lecwydd i wella cysylltiadau â Llwybr Elái (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim newidiadau. Bydd y pontydd teithio llesol newydd arfaethedig i'r gogledd o'r A4232 yn cynnig gwell mynediad i Lwybr Elái.

- Mater 3: Codwyd nifer o faterion mewn perthynas â Lôn Caerau, gan gynnwys yr angen cyffredinol am lwybr cerdded a beicio (derbyniwyd 1 sylw), yr angen am lwybr

beicio i Ysgol Mair Ddihalog (derbyniwyd 3 sylw), yr angen i ailagor y bont droed ar draws yr A4232 i ddarparu gwell mynediad i Ysgol Mair Ddihalog oherwydd darpariaeth wael ar gyfer teithio llesol ar Lôn Caerau (derbyniwyd 4 sylw), anhawster cerdded ar Lôn Caerau gyda chymhorthyn symudedd oherwydd diffyg cyrbau isel a pharcio ar hyd y ffordd (derbyniwyd 1 sylw) a'r angen am lwybr cerdded a beicio ar Lôn Caerau i Ganolfan Hamdden y Gorllewin (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig wedi cael ei ychwanegu i Lôn Caerau.

- Mater 4: Mae angen llwybr beicio ar Heol Orllewinol y Bont-faen (derbyniwyd 5 sylw) a gwell mynediad i gerddwyr i siopau ar Heol Orllewinol y Bont-faen (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig wedi'i ychwanegu at Heol Orllewinol y Bont-faen o'r gyffordd â’r Rhodfa Fawr i'r gyffordd â Heol Llanfihangel. Mae hyn yn disodli'r llwybr cerdded arfaethedig rhwng Green Farm Road a Parker Road ar y map drafft a bydd yn darparu llwybr cerdded a beicio parhaus ar hyd cyfan Heol Orllewinol y Bont-faen.

- Mater 5: Mae angen llwybr cerdded hygyrch i Ganolfan Dreftadaeth y Fryngaer (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded lleol arfaethedig wedi cael ei ychwanegu at y map ar Heol yr Eglwys i ddarparu llwybr i'r fryngaer.

- Mater 6: Mae angen llwybr cerdded a beicio i Ganolfan Hamdden y Gorllewin o Narberth Road (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim newidiadau.  Mae angen ymchwilio ymhellach i ddichonoldeb darparu llwybr uniongyrchol.

- Mater 7: Mae angen llwybr cerdded a beicio o'r gyffordd â’r Rhodfa Fawr heibio'r orsaf dân i greu llwybr i Ysgol Uwchradd y Gorllewin (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae'r llwybr cerdded a beicio arfaethedig ar Ffordd Treseder wedi cael ei estyn i ddarparu llwybr cerdded a beicio arfaethedig ar hyd yr Hyb i gysylltu â Heol Orllewinol y Bont-faen.

Mae’r ymatebion sy'n codi materion ynglŷn â llwybrau presennol y gallai fod angen newidiadau i'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol ar eu cyfer wedi cael eu crynhoi isod gydag ymateb y Cyngor.

- Mater 1: Mae parcio ar droedffyrdd a diffyg cyrbau isel yn achosi trafferth i gerdded gyda chymhorthyn symudedd ar Cyntwell Crescent, Cyntwell Place a Heol y Gaer (derbyniwyd 1 sylw).

Canlyniad: Mae'r archwiliad ar gyfer y llwybr teithio llesol hwn wedi'i adolygu ac nid yw bellach yn pasio o ganlyniad i'r diffyg cyrbau isel. Mae'r llwybr wedi cael ei dynnu oddi ar fap y llwybrau presennol a'i ychwanegu fel llwybr cerdded i'r dyfodol.

**Crynodeb o'r newidiadau**

Mae'r newidiadau canlynol wedi cael eu gwneud i lwybrau arfaethedig (llwybrau'r dyfodol) yn sgil yr ymgynghoriad:

- Lôn Caerau: Mae llwybr cerdded a beicio eilaidd wedi'i ychwanegu at y map.
- Heol Orllewinol y Bont-faen: Mae llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map rhwng y cyffordd â'r Rhodfa Fawr a'r gyffordd â Heol Llanfihangel.
- Heol yr Eglwys: Mae llwybr cerdded lleol arfaethedig wedi cael ei ychwanegu i ddarparu llwybr i'r fryngaer.
- Treseder Way i Heol Orllewinol y Bont-faen Ychwanegwyd llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig at y map trwy'r parc ar hyd yr Hyb..

Mae'r newidiadau canlynol wedi cael eu gwneud i lwybrau presennol yn sgil yr ymgynghoriad:

- Cyntwell Crescent, Cyntwell Place a Heol y Gaer: Mae'r llwybr wedi cael ei dynnu oddi ar fap y llwybrau presennol a'i ychwanegu fel llwybr cerdded i'r dyfodol oherwydd diffyg cyrbau isel

## Treganna

**Nifer yr ymatebion a gafwyd:** 102 (Commonplace), 1 (e-bost)

**Crynodeb o'r ymatebion**

Dyma'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiynau ymgynghori ar lwybrau'r dyfodol:

Ydych chi'n cytuno â'r llwybrau newydd arfaethedig ar gyfer cerdded?

- Ydw: 56 (58%)
- Yn rhannol: 26 (27%)
- Nac ydw: 15 (15%)

Ydych chi'n cytuno â'r llwybrau newydd arfaethedig ar gyfer cerdded a beicio?

- Ydw: 66 (67%)
- Yn rhannol: 18 (18%)
- Nac ydw: 15 (15%)

Dyma'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiynau ymgynghori ar lwybrau presennol:

Ydych chi'n cytuno bod y llwybrau beicio presennol a ddangosir yn addas ar gyfer beicio ar hyn o bryd?

- Ydw: 33 (33%)
- Yn rhannol: 24 (24%)
- Nac ydw: 42 (42%)

**Materion Penodol**

Mae'r ymatebion sy'n codi materion ynglŷn â llwybrau arfaethedig (llwybrau'r dyfodol) y gallai fod angen newidiadau i'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol ar eu cyfer wedi cael eu crynhoi isod gydag ymateb y Cyngor.

- Mater 1: Codwyd nifer o faterion mewn perthynas â Heol Llandaf, gan gynnwys yr angen am groesfan i gerddwyr rhwng Glynne Street a Carmarthen Street (derbyniwyd 2 sylw), yr angen am lwybr beicio (derbyniwyd 2 sylw), yr angen am lwybr cerdded (derbyniwyd 1 sylw), yr angen i gyflwyno'r groesfan sebra bresennol ger Market Street oherwydd bod cerbydau'n methu â stopio (derbyniwyd 1 sylw) a'r awgrym i ddarparu llwybr beicio ar aliniad arall trwy Market Road, Rectory Road a Llanfair Road i gysylltu Heol Ddwyreiniol y Bont-faen â Heol Penhill (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded lleol arfaethedig wedi'i ychwanegu at hyd cyfan Heol Llandaf. Oherwydd cyfyngiadau ffisegol ar rannau o Heol Llandaf ac argaeledd aliniad arall ar strydoedd cyfochrog, ychwanegwyd llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig at Market Road, Rectory Road a Llanfair Road.

- Mater 2: Mae angen llwybrau cerdded a beicio i Ysgol Gynradd Lansdowne (derbyniwyd 1 sylw) a dylai Norfolk Street fod yn llwybr cerdded a beicio (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae'r llwybr cerdded arfaethedig ar Norfolk Street wedi'i ddiwygio i lwybr cerdded a beicio arfaethedig.

- Mater 3: Codwyd nifer o faterion mewn perthynas â Heol Lansdowne, gan gynnwys yr angen am lwybr beicio yma (derbyniwyd 7 sylw) ac ar Heol Atlas (derbyniwyd 1 sylw), yr angen i estyn trac beicio Stryd Wellington i Heol Lansdowne (derbyniwyd 2 sylw), yr angen i wella'r gyffordd yn Stryd Wellington/Heol Atlas  i wella cysylltedd â thrac beicio Stryd Wellington (derbyniwyd 4 sylw), anhawster beicio a defnyddio cadeiriau gwthio ar Heol Lansdowne (derbyniwyd 2 sylw), palmentydd anwastad ar Heol Lansdowne (derbyniwyd 1 sylw) a bod cerdded ar Heol Lansdowne yn teimlo'n fwy diogel na Heol y Felin Bapur yn ystod misoedd y gaeaf (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig wedi'i ychwanegu at Heol Lansdowne a Heol Atlas.

- Mater 4: Dylai'r rhan o Heol Lecwydd rhwng Heol Atlas a Heol Ddwyreiniol y Bont-faen fod yn llwybr beicio yn ogystal â llwybr cerdded (derbyniwyd 3 sylw). Byddai llwybr beicio ar hyd Heol yr Eglwys, St Johns Crescent a Denton Road yn darparu cyswllt rhwng Heol Atlas a Heol Ddwyreiniol y Bont-faen (derbyniwyd 2 sylw).

  Canlyniad: Oherwydd cyfyngiadau ffisegol ar ran ogleddol Heol Lecwydd ac argaeledd llwybr amgen posibl ar strydoedd cyfochrog, nid oes unrhyw newidiadau wedi'u gwneud i Heol Lecwydd ac mae llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig wedi'i ychwanegu at Heol yr Eglwys, St Johns Crescent a Denton Road.

- Mater 5: Dylid adolygu llwybrau i Ysgol Radnor i sicrhau eu bod yn y lle cywir (derbyniwyd 1 sylw), mae angen llwybrau cerdded gwell i Ysgol Radnor (derbyniwyd 1 sylw), dylid cynnwys Pembroke Road fel llwybr i Ysgol Radnor gyda chroesfan sebra ar y gyffordd â Radnor Road (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae'r llwybr cerdded arfaethedig o amgylch Ysgol Radnor wedi cael ei estyn i gwmpasu hyd cyfan Pembroke Road.

- Mater 6: Mae angen llwybr i gysylltu Heol Romilly â Heol Pensisli i gynnig llwybr trwodd i Landaf (derbyniwyd 5 sylw), dylai Clive Road fod yn llwybr cerdded am yr hyd cyfan (derbyniwyd 2 sylw) a dylai Clive Road fod yn llwybr beicio am yr hyd cyfan (derbyniwyd 3 sylw).

  Canlyniad: Mae'r llwybr cerdded a beicio arfaethedig ar Clive Road wedi cael ei estyn i'r gyffordd â Heol Pensisli. Mae llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig wedi'i ychwanegu at Chargot Road.

- Mater 7: Dylid darparu llwybr beicio ar Brunswick Street.

Canlyniad: Dim angen newidiadau. Mae Brunswick Street yn agos iawn at y llwybr cerdded a beicio arfaethedig ar Heol Ddwyreiniol y Bont-faen ac felly nid oes angen llwybr beicio ychwanegol yma.

Mae'r ymatebion sy'n codi materion ynglŷn â llwybrau presennol y gallai fod angen newidiadau i'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol ar eu cyfer wedi cael eu crynhoi isod gydag ymateb y Cyngor.

- Mater 1: Mae angen llwybr cerdded i ffwrdd o draffig ar Heol Lecwydd (derbyniwyd 1 sylw), nid yw'r llwybr cyd-ddefnyddio presennol yn addas fel llwybr presennol (derbyniwyd 3 sylw) ac mae'r gylchfan ar gyffordd Heol Lecwydd a'r A4232 yn anodd ei chroesi i gyrraedd Llwybr Elái, gyda gweledd gwael (derbyniwyd 5 sylw).

  Canlyniad: Cafodd yr archwiliadau llwybr eu hadolygu ar gyfer Heol Lecwydd. Mae'r archwiliad beicio yn pasio, ond mae'r archwiliad cerdded yn methu oherwydd diffyg cyrbau isel lle mae Llwybr Elái yn cwrdd â Heol Lecwydd. Felly, mae'r llwybr presennol wedi'i rannu'n ddau, gyda llwybr beicio yn unig o Lwybr Elái i'r gogledd o'r gyfnewidfa, a llwybr cerdded a beicio o ogledd y gyfnewidfa i Barc y Jiwbilî. Mae llwybr cerdded a beicio cynradd i'r dyfodol hefyd wedi'i ychwanegu trwy'r gyfnewidfa, gydag angen gwelliannau i gyrbau isel ac ymchwiliad ychwanegol i wella'r llwybr cerdded a beicio trwy'r gyfnewidfa.

- Mater 2: Mae angen gwaith cynnal a chadw ar Lwybr Elái (derbyniwyd 2 sylw), mae angen gwelliannau i'r arwyneb oherwydd pyllau ar yr rhannau graean (derbyniwyd 2 sylw), byddai llwybr cerrig yn well na tharmac oherwydd iâ a gwreiddiau coed (derbyniwyd 2 sylw) ac nid yw pen deheuol y llwybr yn bodloni safonau dylunio ar gyfer llwybr presennol (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Adolygwyd archwiliadau'r llwybrau ar gyfer y rhan hon o Lwybr Elái ac mae'r llwybr wedi pasio'r archwiliad. Felly nid oes unrhyw newidiadau wedi'u gwneud i fap y llwybrau presennol.

**Crynodeb o'r newidiadau**

Mae'r newidiadau canlynol wedi cael eu gwneud i lwybrau arfaethedig (llwybrau'r dyfodol) yn sgil yr ymgynghoriad:

- Heol Llandaf: Mae llwybr cerdded lleol arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map
- Market Road, Rectory Road a Llanfair Road: Ychwanegwyd llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig at y map
- Norfolk Street: Mae llwybr cerdded lleol arfaethedig wedi'i ddiwygio i lwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig
- Heol Lansdowne a Heol Atlas: Ychwanegwyd llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig at y map

- Heol yr Eglwys, St Johns Crescent a Heol Denton: Mae’r llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig wedi’i ychwanegu at y map
- Pembroke Road Mae’r llwybr cerdded lleol arfaethedig wedi’i estyn i hyd cyfan y ffordd
- Clive Road: Mae'r llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig wedi cael ei estyn i'r gyffordd â Heol Pensisli.
- Chargot Road: Mae’r llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig wedi’i ychwanegu at y map

Mae'r newidiadau canlynol wedi cael eu gwneud i’r llwybrau presennol yn sgil yr ymgynghoriad:

- Llwybr Ffordd Lecwydd o Lwybr Elái drwodd i'r gogledd o'r gyfnewidfa gyda'r A4232: newidiodd y llwybr presennol i lwybr beicio yn unig ac ychwanegwyd y llwybr cerdded a beicio cynradd arfaethedig at y map.

## Cathays

**Nifer yr ymatebion a gafwyd:** 86 (Commonplace)

**Crynodeb o'r ymatebion**

Dyma'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiynau ymgynghori ar lwybrau'r dyfodol:

Ydych chi'n cytuno â'r llwybrau newydd arfaethedig ar gyfer cerdded?

- Ydw: 35 (48%)
- Yn rhannol: 15 (21%)
- Nac ydw: 23 (32%)

Ydych chi'n cytuno â'r llwybrau newydd arfaethedig ar gyfer cerdded a beicio?

- Ydw: 35 (47%)
- Yn rhannol: 12 (16%)
- Nac ydw: 27 (36%)

Dyma'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiynau ymgynghori ar lwybrau presennol:

Ydych chi'n cytuno bod y llwybrau beicio presennol a ddangosir yn addas ar gyfer beicio ar hyn o bryd?

- Ydw: 39 (48%)
- Yn rhannol: 28 (34%)
- Nac ydw: 15 (18%)

**Materion Penodol**

Mae'r ymatebion sy'n codi materion ynglŷn â llwybrau arfaethedig (llwybrau'r dyfodol) y gallai fod angen newidiadau i'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol ar eu cyfer wedi cael eu crynhoi isod gydag ymateb y Cyngor.

- Mater 1: Dylai fod llwybr beicio drwy Fynwent Cathays (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim newidiadau. Nid yw llwybr beicio trwy'r fynwent yn ymarferol oherwydd cyfyngiadau ar oriau agor.

- Mater 2: Dylid dangos llwybr cerdded ar draws y bont yng Ngorsaf Cathays (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim newidiadau. Mae angen ymchwilio ymhellach i ddichonoldeb a pherchnogaeth tir er mwyn dynodi llwybr teithio llesol yma.

- Mater 3: Mae Dalton Street a Monthermer Road yn rhy gul ar gyfer lôn feicio ac mae gormod o gyffyrdd (derbyniwyd 1 sylw). Nid yw Dalton Street a Monthermer Road yn

addas oherwydd traffig drwodd a byddai llwybr mwy priodol yn mynd ar hyd Stryd Gwennyth a Stryd Gŵyr neu Stryd Fanny (derbyniwyd 1 sylw).

Canlyniad: Dim newidiadau. Mae Dalton Street a Monthermer Road yn darparu'r llwybr mwyaf uniongyrchol ar draws y rheilffordd i Ffordd Pen y Wain. Fodd bynnag, gellir ymchwilio ymhellach i addasrwydd yr aliniad hwn fel rhan o broses ddylunio'r cynllun ar gyfer y llwybr hwn.

- Mater 4: Mae angen llwybr beicio ar Gelligaer Street (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig ar Gelligaer Street wedi cael ei ychwanegu at Lôn Caerau.

- Mater 5: Mae angen llwybr beicio ar Heol Maendy (derbyniodd 6 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig wedi cael ei ychwanegu at y map.

- Mater 6: Mae Fitzroy Street yn llwybr cerdded defnyddiol i Heol Richmond (derbyniwyd 1 sylw). Mae angen llwybr cerdded o Heol y Maendy i Heol Richmond trwy Fitzroy Street (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded lleol arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map o Heol Woodville i Heol Richmond ar hyd Wyeverne Road a Fitzroy Street.

- Mater 7: Dylai Wyeverne Road fod yn llwybr beicio (derbyniwyd 1 sylw). Mae angen gwella cyffordd Heol Salisbury a Wyeverne Road ar gyfer beicio (derbynwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae'r llwybr cerdded a beicio arfaethedig o Heol Salisbury i Heol Lowther wedi cael ei estyn gyda changen ar Wyeverne Road i'r gyffordd â Fitzroy Street.

- Mater 8: Dylai Heol y Frenhines gynnwys llwybr beicio ar wahân (derbyniwyd 5 sylw).

  Canlyniad: Dim newidiadau. Mae'r llwybr arfaethedig ar Boulevard de Nantes yn cynnig dewis arall addas ar gyfer teithiau o'r dwyrain i'r gorllewin.

- Mater 9: Mae angen llwybr oddi ar y ffordd sy'n cysylltu Cilgant Eglwys Andreas â Ffordd Churchill (derbyniodd 2 sylw).

  Canlyniad: Dim newidiadau. Mae'r llwybr arfaethedig ar Plas Dumfries a Rhodfa'r Orsaf yn llwybr addas ar gyfer teithiau rhwng y gogledd a'r de.

- Mater 10: Dylid estyn y llwybr beicio ar Plas Eglwys Andreas i Plas y Parc (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig wedi'i ychwanegu at Plas Eglwys Andreas rhwng y cyffyrdd â Cilgant Eglwys Andreas a Plas y Parc.

- Mater 11: Mae angen llwybr beicio ar Heol Woodville (derbyniwyd 2 sylw).

  Canlyniad: Mae'r llwybr cerdded lleol arfaethedig ar Heol Woodville wedi'i ddiwygio i lwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig.

Mae’r ymatebion sy'n codi materion ynglŷn â llwybrau presennol y gallai fod angen newidiadau i'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol ar eu cyfer wedi cael eu crynhoi isod gydag ymateb y Cyngor.

- Mater 1: Mae angen llwybr ar wahân a therfynau cyflymder ym Mharc Bute (derbyniwyd 1 sylw). Nid yw'r mynediad i Barc Bute yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yn addas ar gyfer beicio oherwydd y troeon a'r graddiant (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae'r archwiliadau llwybrau wedi’u hadolygu ac yn pasio ar gyfer cerdded a beicio, felly nid oes angen unrhyw newidiadau i'r map.

- Mater 2: Nid yw'r lonydd beicio ar Heol Colum yn addas fel llwybr presennol (derbyniwyd 8 sylw). Nid yw Rhodfa'r Amgueddfa yn addas oherwydd gwrthdaro â cherbydau modur (derbyniwyd 3 sylw) ac mae angen cysylltiadau gwell ar Rodfa'r Amgueddfa â gweddill y rhwydwaith beicio (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae'r archwiliadau llwybr ar gyfer Heol Colum a Rhodfa'r Amgueddfa wedi'u hadolygu ac nid ydynt yn pasio ar gyfer beicio na cherdded, gyda methiant difrifol o ran cerdded oherwydd bod rhai cyrbau isel ar goll. Mae'r llwybr wedi cael ei dynnu oddi ar fap y llwybrau presennol a'i ychwanegu fel llwybr cerdded a beicio arfaethedig i'r dyfodol.

- Mater 3: Mae'n anodd cael mynediad i'r trac beicio ar Plas Eglwys Andreas o Heol Salisbury (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Mae'r trac beicio ar Plas Eglwys Andreas a Heol Senghennydd yn pasio archwiliad y llwybr. Mae Heol Salisbury yn llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig. Gellir ystyried gwell cysylltedd â'r llwybr presennol pan fydd dyluniadau'n cael eu datblygu ar gyfer Heol Salisbury.

- Mater 4: Mae angen i fap y llwybrau presennol ddangos y llwybr unffordd cyflawn o amgylch Cilgant Eglwys Andreas (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae'r map wedi'i gywiro i ddangos y llwybr cyflawn o amgylch Cilgant Eglwys Andreas.

- Mater 5: Mae'n anodd beicio ar Yr Ais ar adegau prysur (derbyniwyd 3 sylw).

  Canlyniad: Mae'r archwiliadau llwybr ar gyfer Yr Ais wedi cael eu hadolygu ac mae'r archwiliad beicio yn pasio gyda datganiad. Mae'r datganiad yn cynnwys gwybodaeth am dagfeydd ar y llwybr ar adegau prysur.

**Crynodeb o’r newidiadau**

Mae'r newidiadau canlynol wedi cael eu gwneud i lwybrau arfaethedig (llwybrau'r dyfodol) yn sgil yr ymgynghoriad:

- Gelligaer Street:  Mae'r llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map
- Heol y Maendy  Mae'r llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map
- Wyeverne Road a Fitzroy Street: Mae llwybr cerdded lleol arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map
- Wyeverne Road (i'r de o Fitzroy Street: Mae'r llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map
- Plas Eglwys Andreas o Plas y Parc i Cilgant Eglwys Andreas: Mae'r llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map
- Heol Woodville Mae llwybr cerdded lleol arfaethedig wedi'i newid i lwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig

Mae'r newidiadau canlynol wedi cael eu gwneud i'r llwybrau presennol yn sgil yr ymgynghoriad:

- Heol Colum a Rhodfa'r Amgueddfa: Mae'r llwybr wedi cael ei dynnu oddi ar fap y llwybrau presennol a'i ychwanegu at lwybrau'r dyfodol fel llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig
- Cilgant Eglwys Andreas Mae'r map wedi'i gywiro i ddangos y llwybr cyflawn ar Cilgant Eglwys Andreas.
- Yr Ais: Mae'r llwybr wedi'i ddiwygio i basio gyda datganiad ar gyfer beicio

## Creigiau a Sain Ffagan

**Nifer yr ymatebion a gafwyd:** 41 (Commonplace), 2 (e-bost)

**Crynodeb o'r ymatebion**

Dyma'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiynau ymgynghori ar lwybrau'r dyfodol:

Ydych chi'n cytuno â'r llwybrau newydd arfaethedig ar gyfer cerdded?

- Ydw: 20 (59%)
- Yn rhannol: 11 (32%)
- Nac ydw: 3 (9%)

Ydych chi'n cytuno â'r llwybrau newydd arfaethedig ar gyfer cerdded a beicio?

- Ydw: 24 (63%)
- Yn rhannol: 10 (26%)
- Nac ydw: 4 (11%)

**Materion Penodol**

Mae'r ymatebion sy'n codi materion ynglŷn â llwybrau arfaethedig (llwybrau'r dyfodol) y gallai fod angen newidiadau i'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol ar eu cyfer wedi cael eu crynhoi isod gydag ymateb y Cyngor.

- Mater 1: Mae angen llwybr cerdded o Gapel Llanilltern i Lynnoedd Canada (derbyniwyd 4 sylw).

  Canlyniad: Dim newidiadau. Mae'n debygol y caiff y llwybr ei ystyried yn llwybr hamdden ac felly y tu hwnt i gwmpas y Map Rhwydwaith Teithio Llesol.

- Mater 2: Mae angen llwybr cerdded a beicio ar Heol Caerdydd (derbyniwyd 1 sylw) ac mae angen croesfan i gerddwyr ger Parc y Coed (derbyniwyd 1 sylw). Dylai llwybr cerdded a beicio ar Heol Caerdydd ymestyn i'r safleoedd bysus ar yr A4119 (derbyniwyd 3 sylw). Dylai'r ddau lwybr arfaethedig yng Nghreigiau ymuno â'i gilydd (derbyniwyd 2 sylw). Mae angen llwybr beicio o Greigiau i Rydlafar (derbyniwyd 2 sylw). Dylai'r llwybr arfaethedig ar lwybr Llantrisant ymestyn i'r gyffordd ar Heol Caerdydd (derbyniwyd 4 sylw). Mae angen llwybr beicio i Ysgol Creigiau (derbyniwyd 1 sylw) ac mae angen gwella ar Tŷ Nant Road ar gyfer beicio (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae'r llwybr cerdded a beicio arfaethedig ar Heol Llantrisant wedi cael ei estyn i'r gyffordd â Heol Caerdydd. Mae llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig wedi cael ei ychwanegu at Heol Caerdydd, Heol Creigiau a Heol Tŷ Nant cyn belled â'r fynedfa i Ysgol Creigiau.

- Mater 3: Mae angen llwybr beicio o Greigiau i Sain Ffagan (derbyniwyd 3 sylw) ac mae angen llwybr beicio ar Heol Crofft y Genau (derbyniwyd 2 sylw).

Canlyniad: Mae llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig wedi cael ei ychwanegu at y map ar Heol Crofft y Genau i gysylltu Creigiau â Sain Ffagan. Bydd angen ymchwilio ymhellach i gadarnhau aliniad mwyaf addas y llwybr fel rhan o broses ddylunio'r cynllun.

- Mater 4: Mae angen llwybr cerdded o Greigiau i Bentyrch (derbyniwyd 5 sylw), mae angen llwybr beicio o Greigiau i Bentyrch (derbyniwyd 3 sylw), mae angen llwybr teithio llesol o bentref Creigiau i'r cae hamdden ar Heol Pant y Gored (derbyniwyd 2 sylw) a llwybr o Greigiau i Lwybr Taf (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig wedi cael ei ychwanegu at y map ar Heol yr Orsaf a Heol Pant y Gored. Bydd angen ymchwilio ymhellach i gadarnhau aliniad mwyaf addas y llwybr fel rhan o broses ddylunio'r cynllun.

- Mater 5: Mae angen llwybrau teithio llesol i gysylltu â chyrchfannau yn Rhondda Cynon Taf (derbyniwyd 1 sylw), gan gynnwys Efail Isaf (derbyniwyd 5 sylw), Y Groes-faen (derbyniwyd 3 sylw), Rhiwsaeson (derbyniwyd 1 sylw) a llwybr rheilffordd Llantrisant (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim newidiadau.  Mae angen ymchwilio ymhellach a chydgysylltu â Rhondda Cynon Taf er mwyn sefydlu aliniadau priodol ar gyfer llwybrau teithio llesol dros y ffin yma.

- Mater 6: Dylai'r llwybr troed o Lôn Pant Tawel i Rydlafar fod yn llwybr cerdded (derbyniwyd 2 sylw).

  Canlyniad: Dim newidiadau.  Mae'n debygol y caiff y llwybr ei ystyried yn llwybr hamdden ac felly y tu hwnt i gwmpas y Map Rhwydwaith Teithio Llesol.

- Mater 7: Dylai fod llwybr cerdded trwy Goed Plymouth (derbyniwyd 3 sylw) a llwybr beicio (derbyniwyd 1 sylw). Mae angen llwybr trwy Goed Plymouth i gysylltu Trelái a Sain Ffagan fel dewis amgen i'r llwybr arfaethedig ar Heol Llanfihangel (derbyniwyd 1 sylw). Byddai'r tir rhwng Trem y Coed a Fferm Llamaes yn cynnig llwybr mwy addas ar gyfer llwybr cerdded a beicio na Heol Llanfihangel (derbyniwyd 2 sylw).

  Canlyniad: Dim newidiadau.  Mae'r angen am lwybr teithio llesol i gysylltu Trelái a Sain Ffagan wedi'i nodi wrth gynllunio'r Rhwydwaith Teithio Llesol a'r llwybr ar Heol Llanfihangel yw'r un mwyaf uniongyrchol gan ddefnyddio'r briffordd fabwysiedig. Fodd bynnag, bydd angen rhagor o waith dylunio i sefydlu'r aliniad a'r driniaeth fwyaf addas a fydd yn angenrheidiol i sicrhau bod y llwybr yn cyrraedd safonau teithio llesol.

- Mater 8: Dylai'r llwybr cyhoeddus o Radur i Sain Ffagan fod yn llwybr cerdded (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim newidiadau.  Mae'n debygol y caiff y llwybr ei ystyried yn llwybr hamdden ac felly y tu hwnt i gwmpas y Map Rhwydwaith Teithio Llesol.

- Mater 9: Mae angen gwella'r llwybr troed rhwng Sain Ffagan a'r Tyllgoed (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim newidiadau.  Mae llwybr teithio llesol arfaethedig o Sain Ffagan a'r Tyllgoed eisoes ar y map yn dilyn aliniad Heol Caerdydd.

**Crynodeb o'r newidiadau**

Mae'r newidiadau canlynol wedi cael eu gwneud i lwybrau arfaethedig (llwybrau'r dyfodol) yn sgil yr ymgynghoriad:

- Heol Llantrisant: Mae'r llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig wedi cael ei estyn i'r gyffordd â Heol Caerdydd.
- Heol Caerdydd, Heol Creigiau a Heol Tŷ Nant: Mae'r llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map
- Heol Crofft-y-genau: Ychwanegwyd llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig at y map
- Heol yr Orsaf a Heol Pant y Gored: Mae'r llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map

## Cyncoed

**Nifer yr ymatebion a gafwyd:** 559 (Commonplace), 8 (e-bost)

**Crynodeb o'r ymatebion**

Dyma'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiynau ymgynghori ar lwybrau'r dyfodol:

Ydych chi'n cytuno â'r llwybrau newydd arfaethedig ar gyfer cerdded?

- Ydw: 237 (48%)
- Yn rhannol: 83 (17%)
- Nac ydw: 172 (35%)

Ydych chi'n cytuno â'r llwybrau newydd arfaethedig ar gyfer cerdded a beicio?

- Ydw: 64 (12%)
- Yn rhannol: 66 (12%)
- Nac ydw: 401 (76%)

**Materion Penodol**

Mae'r ymatebion sy'n codi materion ynglŷn â llwybrau arfaethedig (llwybrau'r dyfodol) y gallai fod angen newidiadau i'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol ar eu cyfer wedi cael eu crynhoi isod gydag ymateb y Cyngor.

- Mater 1: Nid oes angen llwybr ar Heol Betws y Coed yn ogystal â Heol Dan y Coed (derbyniwyd 1 sylw). Nid oes angen gwelliannau i Heol Betws-y-Coed gan ei bod eisoes yn stryd dawel a ddefnyddir gan feicwyr (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim newidiadau. Mae'r llwybr yn cyfrannu at ddwysedd rhwyll rhwydwaith o 250m yn unol â Chanllawiau Teithio Llesol. Mae ymchwiliadau hyd yn hyn yn nodi na fydd angen newidiadau sylweddol ar Heol Betws y Coed i hwyluso llwybr beicio ar y ffordd (heb ei gwahanu), sy'n cael ei adlewyrchu yn y disgrifiad o'r gwaith ar yr MRhTLl.

- Mater 2: Dylid dangos y ddolen o Black Oak Road i Goed Rhydypenau fel llwybr cerdded (derbyniwyd 1 sylw) a llwybr beicio (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim newidiadau. Mae angen cynnal rhagor o ymchwil i ddichonoldeb a pherchnogaeth tir.

- Mater 3: Dylai Cefn Coed Road fod yn llwybr cerdded a beicio (derbyniwyd 6 sylw). Nid yw Cefn Coed Road yn hygyrch i gadeiriau olwyn oherwydd diffyg cyrbau isel (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig wedi cael ei ychwanegu at y map ar Cefn Coed Road.

- Mater 4: Dylai Rhodfa Celyn, Winnipeg Drive, Ontario Way, Woolaston Avenue a Lakeside Drive fod yn llwybr cerdded a beicio (derbyniwyd 2 sylw). Dylai Lakeside Drive fod yn llwybr cerdded a beicio i gynnig llwybr i Ysgol Uwchradd Caerdydd (derbyniwyd 1 sylw). Dylai Lakeside Drive fod yn llwybr cerdded a beicio i gynnig llwybr i Ysgol Uwchradd Caerdydd (derbyniwyd 1 sylw). Dylai Winnipeg Drive fod yn llwybr cerdded (derbyniwyd 1 sylw). Dylai Winnipeg Drive a Cefn Coed Avenue fod yn llwybrau cerdded i Ysgol Gynradd Lakeside; mae problemau yma ar hyn o bryd gyda pharcio ar y palmant (derbyniwyd 3 sylw).

  Canlyniad: Mae'r llwybr cerdded lleol arfaethedig ar Lakeside Drive, Woolaston Avenue ac Ontario Way wedi cael ei newid i lwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig ac wedi'i estyn i gynnwys Cefn Coed Avenue a Winnipeg Drive.

- Mater 5: Dylid ystyried rhan uchaf Lakeside Drive ar gyfer llwybr cerdded sy'n cysylltu â Rhodfa Celyn (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Mae'r rhan hon o Lakeside Drive yn agos iawn at y llwybr arfaethedig ar Heol Ddwyreiniol y Llyn ac nid yw'n cysylltu'n uniongyrchol â chyrchfannau lleol.

- Mater 6: Mae angen llwybr cerdded i'r siopau ar Clear Water Way o Barc y Rhath a Duffryn Avenue (derbyniwyd 2 sylw). Dylai Duffryn Avenue fod yn llwybr cerdded (derbyniwyd 3 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded lleol arfaethedig wedi'i ychwanegu at Clear Water Way a Duffryn Avenue.

- Mater 7: Dylai'r llwybr cerdded ar Fidlas Avenue ymestyn ar hyd cyfan y ffordd (derbyniwyd 2 sylw). Mae angen mwy o lwybrau cerdded i ysgol Gynradd Rhydypenau (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae'r llwybr cerdded ar Fidlas Avenue wedi cael ei estyn i gwmpasu hyd cyfan y ffordd.

- Mater 8: Byddai Heol y Deri Duon a Hackerford Road yn aliniad mwy addas ar gyfer llwybr beicio na Gwern Rhuddi Road oherwydd y cyfyngiadau ar Gwern Rhuddi Road (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim newidiadau. Gwern Rhuddi Road yw’r llwybr mwyaf uniongyrchol, ond bydd y llwybr mwyaf addas ar gyfer y rhan hon o'r llwybr yn cael ei bennu trwy broses ddylunio'r cynllun.

- Mater 9: Dylai Heath Halt Road fod yn llwybr beicio (derbyniwyd 1 sylw). Nid yw'r gylchfan ar Heath Halt Road yn ddiogel i gerddwyr groesi (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig wedi'i ychwanegu at Heath Halt Road rhwng Heol Heathwood a Heol Ogleddol y Llyn.

- Mater 10: Dylid darparu llwybr beicio ar hyd y rheilffordd o Heath High Level i Cathays (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim newidiadau. Mae angen cynnal rhagor o ymchwil i ddichonoldeb a pherchnogaeth tir.

- Mater 11: Dylid dangos llwybr cerdded o Heol Esgyn drwodd i Llandennis Avenue (derbyniwyd 3 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded lleol arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map o Heol Esgyn i Llandennis Avenue.

- Mater 12: Mae Highfield Road yn llwybr cerdded a beicio defnyddiol (derbyniwyd 1 sylw). Dylid dangos Highfield Road fel llwybr cerdded i'r parc (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim newidiadau. Mae angen ymchwiliad pellach i benderfynu ar addasrwydd cysylltiadau ymlaen yn Heol Allensbank a Rhodfa Parc y Mynydd Bychan.

- Mater 13: Mae St Edeyrns Road yn fwy addas fel llwybr cerdded na Hollybush Road gan fod llai o draffig (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim newid. Hollybush Road yw'r llwybr mwyaf uniongyrchol, ond bydd y llwybr mwyaf addas ar gyfer y rhan hon o'r llwybr yn cael ei bennu trwy broses ddylunio'r cynllun.

- Mater 14: Dylid darparu llwybr cerdded trwy Goed Darganfod (derbyniwyd 2 sylw).

  Canlyniad: Dim newid. Mae angen ymchwiliad pellach i asesu dichonoldeb llwybr teithio llesol ar gyfer cerdded drwy Goed Darganfod.

- Mater 15: Dylai'r llwybr presennol sy'n cysylltu Lakeside Drive â Heol Ddwyreiniol y Llyn fod yn llwybr cerdded (derbyniwyd 2 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded lleol arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map i uno Lakeside Drive â Heol Ddwyreiniol y Lly ar lwybrau presennol.

- Mater 16: Dylid darparu llwybr beicio am hyd cyfan Heol Llandennis (derbyniwyd 7 sylw).

  Canlyniad: Mae'r llwybr cerdded a beicio arfaethedig ar Clive Road wedi cael ei estyn i'r gyffordd â Heol Rhydypennau.

- Mater 17: Gwrthwynebiadau neu bryderon am y llwybr cerdded a beicio arfaethedig trwy goridor Nant Fawr, gan gynnwys pryder am effaith ar fioamrywiaeth, colli coed posibl, goleuadau, a phryder am effaith ar gerddwyr a'r rhai sy'n mynd â chŵn am dro (derbyniwyd 381 o sylwadau). Dylai'r llwybr arfaethedig ddefnyddio'r llwybr presennol (derbyniwyd 1 sylw). Mae angen i ddyluniad y llwybr osgoi gwrthdaro rhwng beiciau a phobl sy'n mynd â chŵn am dro (derbyniwyd 2 sylw). Cefnogaeth i'r llwybr beicio trwy Nant Fawr (derbyniwyd 6 sylw). Mae angen i'r llwybr o gwmpas y

gronfa ddŵr fod yn hygyrch i feicwyr anabl (derbyniwyd 1 sylw). Dylai fod llwybr cerdded trwy Goed Nant Fawr i Ysgol Uwchradd Caerdydd (derbyniwyd 1 sylw). Mae pryder am yr effaith ar fannau gwyrdd trwy Barc Rhydypenau (derbyniwyd 1 sylw). Mae pryder am effaith llygredd golau o lwybr Nant Fawr ar Dan yr Heol (derbyniwyd 1 sylw). Mae angen gwelliannau i'r droedffordd ar Dan yr Heol (derbyniwyd 1 sylw). Mae angen system wrthlif i feicwyr ar Park End Lane (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae'r aliniad llwybr arfaethedig ar gyfer y llwybr oddi ar y ffordd trwy Goridor Nant Fawr wedi'i ddiwygio yn unol â chanlyniad astudiaeth ddiweddaraf WelTAG. Mae hwn yn dangos y llwybr cerdded a beicio arfaethedig sy'n dilyn aliniad y llwybr beicio presennol i orllewin Nant Fawr a llwybrau presennol i'r gogledd o Heol Rhydypennau, a fydd yn lleihau'r effaith ar fannau gwyrdd a choed. Mae'r aliniad arfaethedig ar gyfer opsiwn llwybr ar y ffordd a nodwyd hefyd yn astudiaeth WelTAG wedi'i ychwanegu at y map ar Park End Lane a Dan yr Heol.

- Mater 18: Mae angen llwybr beicio o amgylch y cronfeydd dŵr (derbyniwyd 2 sylw). Mae angen llwybr cerdded o amgylch y cronfeydd dŵr (derbyniwyd 3 sylw).

  Canlyniad: Dim newidiadau.  Mae llwybrau i'r de o'r gronfa ddŵr eisoes yn cael eu darparu ar yr MRhTLl. Mae angen ymchwilio ymhellach i ddichonoldeb ar gyfer llwybrau i'r gogledd o'r gronfa ddŵr.

- Mater 19: Mae angen llwybr cerdded ar Three Arches Avenue (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim newidiadau.  Mae'r llwybr a ddymunir yma eisoes wedi'i darparu ar gyfer y llwybr arfaethedig ar Heol y Fid-las.

- Mater 20: Byddai Beatty Avenue yn llwybr beicio ar y ffordd defnyddiol i gysylltu â Heol Ogleddol y Llyn (derbyniwyd 1 sylw)

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded a beicio arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map i gysylltu â Heol Ogleddol y Llyn, gan ddarparu cysylltiadau ymlaen i orsafoedd rheilffordd.

**Crynodeb o'r newidiadau**

Mae'r newidiadau canlynol wedi cael eu gwneud i lwybrau arfaethedig (llwybrau'r dyfodol) yn sgil yr ymgynghoriad:

- Cefn Coed Road Mae'r llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map
- Lakeside Drive, Woolaston Avenue ac Ontario Way: Mae llwybr cerdded lleol arfaethedig wedi'i ddiwygio i lwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig
- Cefn Coed Avenue a Winnipeg Drive: Ychwanegwyd y llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig at y map
- Clearwater Way: Mae llwybr cerdded lleol arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map
- Duffryn Avenue: Mae llwybr cerdded lleol arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map

- Fidlas Avenue: Mae’r llwybr cerdded lleol arfaethedig wedi’i estyn i hyd cyfan y ffordd
- Heath Halt Road:  Mae llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map rhwng  Heol Heathwood a Heol Ogleddol y Llyn.
- Heol Esgyn i Landennis Avenue: Mae’r llwybr cerdded lleol arfaethedig wedi’i ychwanegu at y map
- Llwybrau oddi ar y ffordd rhwng Lakeside Drive a Heol Ddwyreiniol y Llyn: Mae’r llwybr cerdded lleol arfaethedig wedi’i ychwanegu at y map
- Heol Llandennis: Mae'r llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig wedi cael ei estyn i'r gyffordd â Heol Rhydypennau.
- Coed Nant Fawr: Mae aliniad y llwybr cerdded a beicio wedi'i diwygio i ddilyn aliniad y llwybr beicio presennol i'r gorllewin o Nant Fawr.
- Park End Lane a Dan yr Heol: Ychwanegwyd y llwybr cerdded a beicio cynradd arfaethedig at y map
- Beatty Avenue: Mae’r llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig wedi’i ychwanegu at y map

## Trelái

**Nifer yr ymatebion a gafwyd:** 14 (Commonplace)

**Crynodeb o'r ymatebion**

Dyma'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiynau ymgynghori ar lwybrau'r dyfodol:

Ydych chi'n cytuno â'r llwybrau newydd arfaethedig ar gyfer cerdded?

- Ydw: 5 (45%)
- Yn rhannol: 5 (45%)
- Nac ydw: 1 (9%)

Ydych chi'n cytuno â'r llwybrau newydd arfaethedig ar gyfer cerdded a beicio?

- Ydw: 5 (42%)
- Yn rhannol: 6 (50%)
- Nac ydw: 1 (8%)

Dyma'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiynau ymgynghori ar lwybrau presennol:

Ydych chi'n cytuno bod y llwybrau cerdded presennol a ddangosir yn addas ar gyfer cerdded ar hyn o bryd?

- Ydw: 1 (8%)
- Yn rhannol: 7 (58%)
- Nac ydw: 4 (33%)

**Materion Penodol**

Mae'r ymatebion sy'n codi materion ynglŷn â llwybrau arfaethedig (llwybrau'r dyfodol) y gallai fod angen newidiadau i'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol ar eu cyfer wedi cael eu crynhoi isod gydag ymateb y Cyngor.

- Mater 1: Dylai Heol Orllewinol y Bont-faen fod yn llwybr cerdded a beicio (derbyniwyd 2 sylw). Mae angen llwybr i Groes Cwrlwys o Heol Trelai (derbyniwyd 1 sylw). Mae angen llwybr i Groes Cwrlwys o Heol Trelai (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig wedi'i ychwanegu at Heol Orllewinol y Bont-faen o'r gyffordd â'r Rhodfa Fawr i'r gyffordd â Heol Llanfihangel. Mae hyn yn disodli'r llwybr cerdded arfaethedig rhwng Green Farm Road a Parker Road ar y map drafft a bydd yn darparu llwybr cerdded a beicio parhaus ar hyd cyfan Heol Orllewinol y Bont-faen.

**Crynodeb o'r newidiadau**

Mae'r newidiadau canlynol wedi cael eu gwneud i lwybrau arfaethedig (llwybrau'r dyfodol) yn sgil yr ymgynghoriad:

- Heol Orllewinol y Bont-faen: Mae llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map rhwng y gyffordd â'r Rhodfa Fawr a'r gyffordd â Heol Llanfihangel

## Y Tyllgoed

**Nifer yr ymatebion a gafwyd:** 17 (Commonplace), 1 (e-bost)

**Crynodeb o'r ymatebion**

Dyma'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiynau ymgynghori ar lwybrau'r dyfodol:

Ydych chi'n cytuno â'r llwybrau newydd arfaethedig ar gyfer cerdded?

- Ydw: 10 (71%)
- Yn rhannol: 2 (14%)
- Nac ydw: 2 (14%)

Ydych chi'n cytuno â'r llwybrau newydd arfaethedig ar gyfer cerdded a beicio?

- Ydw: 12 (75%)
- Yn rhannol: 3 (19%)
- Nac ydw: 1 (6%)

**Materion Penodol**

Mae'r ymatebion sy'n codi materion ynglŷn â llwybrau arfaethedig (llwybrau'r dyfodol) y gallai fod angen newidiadau i'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol ar eu cyfer wedi cael eu crynhoi isod gydag ymateb y Cyngor.

- Mater 1: Dylai Fairways Crescent ac Everswell Road fod yn llwybrau cerdded (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae Fairways Crescent wedi'i ychwanegu at y map fel llwybr cerdded lleol arfaethedig. Nid yw Everswell Road wedi'i ychwanegu at y map fel llwybr cerdded, gan y dylai'r llwybr cerdded arfaethedig ar Wellwright Road ddarparu'n ddigonol ar gyfer y llwybr a ddymunir hwn.

- Mater 2: Mae angen llwybr cerdded a beicio i Bentre-baen o Gorse Place (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae'r llwybr cerdded arfaethedig ar Rhodfa Beechley wedi'i ddiwygio i lwybr cerdded a beicio. Mae llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig wedi cael ei ychwanegu at Gorse Place.

- Mater 3: Mae angen gwelliannau ar Heol Sain Ffagan a Heol Caerdydd ar gyfer beicio oherwydd lefel y traffig a cheir yn rhwystro'r lonydd beicio presennol (derbyniwyd 3 sylw). Mae angen trac beicio ar Heol Sain Ffagan (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae'r llwybr cerdded arfaethedig ar Heol Sain Ffagan a Heol Caerdydd wedi'i newid i lwybr cerdded a beicio ac wedi'i estyn i Heol Waun-gron.

- Mater 4: Byddai llwybr trwy Birdies Lane trwy'r coed i Sain Ffagan yn well na'r aliniad arfaethedig ar Bwlch Road (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Mae'r llwybr arfaethedig ar Bwlch Road yn uniongyrchol ac yn llai ynysig na llwybr trwy Birdies Lane a Choed Plymouth.

**Crynodeb o'r newidiadau**

Mae'r newidiadau canlynol wedi cael eu gwneud i lwybrau arfaethedig (llwybrau'r dyfodol) yn sgil yr ymgynghoriad:

- Fairways Crescent: Mae'r llwybr cerdded lleol arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map
- Rhodfa Beechley: Mae'r llwybr cerdded arfaethedig wedi'i ddiwygio i lwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig
- Gorse Place: Ychwanegwyd y llwybr cerdded a beicio cynradd arfaethedig at y map
- Heol Sain Ffagan a Heol Caerdydd: Diwygiwyd y llwybr cerdded arfaethedig i lwybr cerdded a beicio arfaethedig, sydd wedi'i estyn i ymuno â'r llwybr cerdded a beicio arfaethedig ar Heol Waun-Gron

## Gabalfa

**Nifer yr ymatebion a gafwyd:** 44 (Commonplace)

**Crynodeb o'r ymatebion**

Dyma'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiynau ymgynghori ar lwybrau'r dyfodol:

Ydych chi'n cytuno â'r llwybrau newydd arfaethedig ar gyfer cerdded?

- Ydw: 22 (65%)
- Yn rhannol: 9 (26%)
- Nac ydw: 3 (9%)

Ydych chi'n cytuno â'r llwybrau newydd arfaethedig ar gyfer cerdded a beicio?

- Ydw: 23 (56%)
- Yn rhannol: 13 (32%)
- Nac ydw: 5 (12%)

Dyma'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiynau ymgynghori ar lwybrau presennol:

Ydych chi'n cytuno bod y llwybrau beicio presennol a ddangosir yn addas ar gyfer beicio ar hyn o bryd?

- Ydw: 19 (50%)
- Yn rhannol: 13 (34%)
- Nac ydw: 6 (16%)

**Materion Penodol**

Mae'r ymatebion sy'n codi materion ynglŷn â llwybrau arfaethedig (llwybrau'r dyfodol) y gallai fod angen newidiadau i'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol ar eu cyfer wedi cael eu crynhoi isod gydag ymateb y Cyngor.

- Mater 1: Angen gwelliannau i'r palmant ar Gerddi Affrica (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded lleol arfaethedig wedi'i ychwanegu at Gerddi Affrica a Newfoundland Road.

- Mater 2: Dylai Clodien Avenue fod yn llwybr cerdded (derbyniwyd 1 sylw). Mae lefelau'r traffig yn achosi problemau i deithio llesol ar Clodien Avenue (derbyniwyd 2 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded lleol arfaethedig wedi'i ychwanegu at Clodien Avenue.

- Mater 3: Dylai pob tanffordd yng Nghyfnewidfa Gabalfa fod yn llwybrau cerdded (derbyniwyd 1 sylw).

Canlyniad: Er eglurder, mae pob llwybr oddi ar y ffordd trwy Gyfnewidfa Gabalfa yn cael ei ddangos bellach fel llwybr cerdded a beicio arfaethedig, oherwydd bod angen hwyluso llwybrau teithio llesol i bob cyfeiriad trwy'r gyfnewidfa.

- Mater 4: Mae angen croesfan feicio i fynd i Bwll y Maendy ar y gyffordd â Stryd Herbert (derbyniwyd 1 sylw)

  Canlyniad: Dim newidiadau. Nid oes angen llwybr ar Stryd Herbert i gyfrannu at ddwysedd rhwyll 250m. Bydd gwelliannau croesi ar Heol y Gogledd yn cael eu hystyried yn ystod y broses ddylunio ar gyfer y llwybr cerdded a beicio arfaethedig ar Heol y Gogledd.

- Mater 5: Nid yw llwybr beicio ar Stryd Llanisien yn cael ei gefnogi (derbyniwyd 2 sylw).

  Canlyniad: Dim newidiadau. Mae'r llwybr yn cyfrannu at ddwysedd rhwyll 250m. Byddai manylion unrhyw newidiadau sydd eu hangen i hwyluso llwybr beicio ar Stryd Llanisien yn destun ymgynghoriad fel rhan o'r broses ddylunio.

- Mater 6: Dylai'r llwybr ar Flaxland Avenue a'r bont teithio llesol bresennol dros yr A48 i Ysbyty Athrofaol Cymru gael eu dangos ar y map ynghyd â llwybr ar hyd y lôn rhwng Flaxland Avenue a Stryd Llanisien (derbyniwyd 6 sylw). Dylid dangos llwybr o'r bont teithio llesol yn Flaxland Avenue i Heathfield Place (derbyniwyd 1 sylw). Dylid dangos y lonydd ar ochr ddwyreiniol Heol yr Eglwys Newydd fel llwybr teithio llesol (derbyniwyd 2 sylw). Dylai'r llwybr cerdded a beicio arfaethedig ar Heol yr Eglwys Newydd ymestyn o leiaf mor bell â Heathfield Place (derbyniwyd 1 sylw). Dylai hyd cyfan Heol yr Eglwys Newydd fod yn llwybr beicio (derbyniwyd 2 sylw). Dylai hyd cyfan Heol yr Eglwys Newydd fod yn llwybr cerdded (derbyniwyd 4 sylw).

  Canlyniad: Mae'r llwybr cerdded a beicio arfaethedig ym mhen deheuol Heol yr Eglwys Newydd wedi cael ei estyn i'r bont dros yr A48 ac i Gyfnewidfa Gabalfa, gan ddisodli'r llwybr cerdded arfaethedig ar ran o Heol yr Eglwys Newydd. Hwn yw'r llwybr mwyaf uniongyrchol i Gyfnewidfa Gabalfa ac Ysbyty Athrofaol Cymru, ond gellid ystyried defnyddio'r lonydd i'r dwyrain o Heol yr Eglwys Newydd fel rhan o broses ddylunio'r cynllun pe na bai gwelliannau i Heol yr Eglwys Newydd yn ymarferol.

- Mater 7: Dylai Heol y Mynachdy fod yn llwybr teithio llesol i ddarparu llwybr i siopau a gorsaf Metro posibl yn y dyfodol (derbyniwyd 5 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map ar Heol y Mynachdy, gan gysylltu â Chyfnewidfa Gabalfa a'r gyffordd â Heol Excelsior.

- Mater 8: Mae angen gwelliannau i arwyneb y droedffordd ar Dan yr Heol (derbyniwyd 1 sylw).

Canlyniad: Dim newidiadau.  Nid yw llwybr yn darparu cysylltiadau ymlaen i gyrchfannau na'r rhwydwaith teithio llesol ehangach ac nid yw'n ofynnol iddo gyfrannu at ddwysedd rhwyll 250m.

Mae’r ymatebion sy'n codi materion ynglŷn â llwybrau presennol y gallai fod angen newidiadau i'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol ar eu cyfer wedi cael eu crynhoi isod gydag ymateb y Cyngor.

- Mater 1: Mae angen lledu Taith Taf (derbyniwyd 2 sylw); mae angen goleuadau ar hyd Taith Taf (derbyniwyd 1 sylw). Mae angen gwell mynediad i Rhodfa’r Gorllewin o Daith Taf oherwydd y camau sydd eisoes yn bodoli (derbyniwyd 3 sylw).

  Canlyniad: Mae archwiliadau'r llwybrau ar gyfer Taith Taf rhwng Rhodfa'r Gorllewin a Phont Heol Clarence wedi'u hadolygu. Mae'n pasio fel llwybr cerdded. Fel llwybr beicio, mae'n pasio ond mae angen datganiad, sydd wedi'i ychwanegu at yr MRhTLl i roi mwy o wybodaeth am gyfyngiadau'r llwybr. Mae Taith Taf hefyd ar yr MRhTLl fel llwybr cerdded a beicio i’r dyfodol, gydag angen manylion am welliannau pellach.

**Crynodeb o’r newidiadau**

Mae'r newidiadau canlynol wedi cael eu gwneud i lwybrau arfaethedig (llwybrau'r dyfodol) yn sgil yr ymgynghoriad:

- Gerddi Affrica a Newfoundland Road: Mae’r llwybr cerdded lleol arfaethedig wedi’i ychwanegu at y map
- Clodien Avenue a Banastre Avenue: Mae’r llwybr cerdded lleol arfaethedig wedi’i ychwanegu at y map
- Cyfnewidfa Gabalfa Mae llwybrau cerdded a beicio arfaethedig bellach wedi’i halinio â'r holl lwybrau presennol oddi ar y ffordd trwy'r Gyfnewidfa
- Heol yr Eglwys Newydd a Flaxland Avenue: Mae'r llwybr cerdded a beicio arfaethedig wedi cael ei estyn i gwmpasu hyd cyfan Heol yr Eglwys Newydd, Flaxland Avenue a'r bont i Ysbyty Athrofaol Cymru
- Heol y Mynachdy: Mae llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig wedi cael ei ychwanegu at y map

Mae'r newidiadau canlynol wedi cael eu gwneud i’r llwybrau presennol yn sgil yr ymgynghoriad:

- Taith Taf: Ychwanegwyd datganiad ar gyfer y llwybr beicio presennol. Ychwanegwyd y llwybr cerdded a beicio arfaethedig i’r dyfodol at y map

## Grangetown

**Nifer yr ymatebion a gafwyd:** 66 (Commonplace), 1 (e-bost)

**Crynodeb o'r ymatebion**

Dyma'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiynau ymgynghori ar lwybrau'r dyfodol:

Ydych chi'n cytuno â'r llwybrau newydd arfaethedig ar gyfer cerdded?

- Ydw: 41 (65%)
- Yn rhannol: 12 (19%)
- Nac ydw: 10 (16%)

Ydych chi'n cytuno â'r llwybrau newydd arfaethedig ar gyfer cerdded a beicio?

- Ydw: 41 (66%)
- Yn rhannol: 12 (19%)
- Nac ydw: 9 (15%)

Dyma'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiynau ymgynghori ar lwybrau presennol:

Ydych chi'n cytuno bod y llwybrau cerdded presennol a ddangosir yn addas ar gyfer cerdded ar hyn o bryd?

- Ydw: 46 (72%)
- Yn rhannol: 11 (17%)
- Nac ydw: 7 (11%)

Ydych chi'n cytuno bod y llwybrau beicio presennol a ddangosir yn addas ar gyfer beicio ar hyn o bryd?

- Ydw: 24 (38%)
- Yn rhannol: 18 (29%)
- Nac ydw: 21 (33%)

**Materion Penodol**

Mae'r ymatebion sy'n codi materion ynglŷn â llwybrau arfaethedig (llwybrau'r dyfodol) y gallai fod angen newidiadau i'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol ar eu cyfer wedi cael eu crynhoi isod gydag ymateb y Cyngor.

- Mater 1: Dylai Stryd Paget fod yn llwybr beicio (derbyniwyd 1 sylw). Mae angen croesfannau yn Stryd Paget i wella mynediad i Daith Taf o Penhevad Street, Stockland Street a Pentrebane Street (derbyniwyd 1 sylw). Mae angen llwybr beicio ar Holmesdale Street i gysylltu â Thaith Taf ar hyd Bargoed Street (derbyniwyd 2 sylw). Byddai Bargoed Street yn fwy addas nag Aber Street ar gyfer llwybr cerdded gan ei bod yn dawelach (derbyniwyd 1 sylw).

Canlyniad: Mae llwybr cerdded a beicio arfaethedig wedi cael ei ychwanegu at Stryd Paget, Holmesdale Street a Bargoed Street. Mae hyn yn ychwanegol at y llwybr cerdded presennol ar Stryd Paget ac mae'n disodli'r llwybr cerdded arfaethedig ar Holmesdale Street ac Aber Street. Mae newid y llwybr o Aber Street i Bargoed Street yn alinio'n well â'r groesfan sebra bresennol ar Heol y Gorfforaeth i gysylltu â Thaith Taf.

- Mater 2: Dylai Heol Clare fod yn llwybr beicio (derbyniwyd 4 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded a beicio arfaethedig wedi'i ychwanegu at Heol Clare, yn ogystal â'r llwybr cerdded presennol ar Heol Clare.

- Mater 3: Dylai Heol y Gorfforaeth fod yn llwybr beicio (derbyniwyd 2 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Mae Heol y Gorfforaeth yn agos iawn at y llwybr presennol ar Daith Taf sydd eisoes yn darparu ar gyfer teithiau tebyg.

- Mater 4: Dylai Heol Avondale fod yn llwybr beicio (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae'r llwybr cerdded a beicio arfaethedig wedi'i estyn ar hyd Heol Avondale i gysylltu â'r llwybr cerdded a beicio arfaethedig ar Bont Heol Clarence.

- Mater 5: Gellid gwella Clive Lane i greu llwybr cerdded a beicio (derbyniwyd 4 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Mae'r llwybr cerdded a beicio arfaethedig ar Stryd Clive yn cynnig yr aliniad mwyaf uniongyrchol ar gyfer teithiau rhwng y gogledd a'r de yn yr ardal hon.

- Mater 6: Dylai Court Road fod yn llwybr cerdded a beicio (derbyniwyd 1 sylw). Dylai Court Road fod yn llwybr beicio (derbyniwyd 1 sylw). Dylai Pendyris Street fod yn llwybr beicio (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Mae'r llwybr cerdded a beicio arfaethedig ar Cornwall Street a Gerddi Merches yn agos ac mae'n alinio'n fwy uniongyrchol â'r bont teithio llesol arfaethedig ar draws Afon Taf.

- Mater 7: Mae'r llwybr troed ar lan Afon Elái sy'n cysylltu Watkiss Way a Rhodfa Dunleavy yn cael ei rwystro ar hyn o bryd gan ffens yn Llys Grangemoor (derbyniwyd 2 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Mae'r llwybr mwyaf uniongyrchol ar gyfer teithio llesol yn dilyn y llwybr presennol ar Rhodfa Dunleavy.

- Mater 8: Dylai Gogledd Stryd Clive fod yn llwybr cerdded am hyd cyfan y ffordd (derbyniwyd 2 sylw). Mae angen llwybr cerdded i gysylltu gogledd Grangetown â siopau Heol y Fferi (derbyniwyd 1 sylw). Mae angen llwybr cerdded o ogledd Grangetown i'r Marl (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae'r llwybr cerdded arfaethedig ar Ogledd Stryd Clive wedi cael ei estyn i hyd cyfan y ffordd.

- Mater 9: Dylid dangos y bont teithio llesol arfaethedig o Trem y Môr i Barc Hamadryad ar y map (derbyniwyd 6 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded a beicio arfaethedig wedi cael ei ychwanegu at y map i gynnwys y bont newydd arfaethedig o Trem y Môr i Barc Hamadryad.

- Mater 10: Dylid dangos llwybr beicio o'r Marl i'r safle datblygu strategol yn Heol y Fferi (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded a beicio arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map gydag aliniad bras i ddangos y llwybr a ddymunir rhwng Y Marl a'r safle datblygu yn Heol y Fferi.

- Mater 11: Dylid dangos llwybr cerdded o Warwick Street i Ysgol Gynradd Padrig Sant (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Mae angen ymchwilio ymhellach i ddichonoldeb a pherchnogaeth tir er mwyn dynodi llwybr teithio llesol yma.

- Mater 12: Dylid dangos y llwybr cerdded wrth ymyl adeilad Watermark ar y glannau ar y map (derbyniwyd 2 sylw). Mae'r decin ar lwybr y glannau mewn cyflwr gwael (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Mae'r llwybr teithio llesol arfaethedig ar Rhodfa Olympaidd yn fwy uniongyrchol ar hyn o bryd.

Mae’r ymatebion sy'n codi materion ynglŷn â llwybrau presennol y gallai fod angen newidiadau i'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol ar eu cyfer wedi cael eu crynhoi isod gydag ymateb y Cyngor.

- Mater 1: Mae angen gwella arwyneb y llwybr cyd-ddefnyddio ar hyd yr A4232 (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Mae archwiliad y llwybr wedi'i adolygu ac mae'r llwybr wedi pasio'r archwiliad, er gwaethaf problemau ynglŷn â'r arwyneb. Mae gwaith cynnal a chadw wedi’i gynllunio i atgyweirio’r arwyneb yn 2022.

- Mater 2: Mae aliniad Llwybr y Bae ger Rhodfa Jim Driscoll yn anghywir (derbyniwyd 2 sylw). Mae angen gwelliannau goleuo yn Y Marl (derbyniwyd 1 sylw). Mae angen lledu’r llwybr cyd-ddefnyddio i'r de o Bont Heol Clarence, gwella’r arwyneb a thorri’r llystyfiant yn ôl (derbyniwyd 3 sylw). Nid yw dargyfeiriad y llwybr yn Prospect Place yn addas ac mae wedi bod ar waith yn rhy hir (derbyniwyd 13 sylw).

  Canlyniad: Mae aliniad y llwybr presennol wedi'i ddiwygio i ddangos aliniad cywir y llwybr cyd-ddefnyddio trwy Y Marl. Mae Llwybr y Bae yn Prospect Place yn parhau ar y map oherwydd bod cau'r llwybr yn gam dros dro ac mae dargyfeiriad addas ag arwyddion yn ei le. Mae archwiliadau’r llwybr wedi cael eu hadolygu ar gyfer y rhan

hon o Lwybr y Bae ac mae'r llwybr yn pasio'r archwiliad, felly nid oes angen newidiadau pellach.

- Mater 3: Mae'r croesfannau presennol ar Heol Clare yn beryglus oherwydd cyflymder cerbydau a'r cyffyrdd (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Mae archwiliad y llwybr cerdded ar gyfer Heol Clare wedi'i adolygu ac mae'r llwybr wedi pasio'r archwiliad.

- Mater 4: Mae angen mynediad gwell i Bont y Werin o Rhodfa Dunleavy (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Mae archwiliadau llwybrau Dunleavy Drive a Pont y Werin wedi'u hadolygu ac mae'r llwybr yn pasio'r archwiliad.

- Mater 5: Mae angen gwelliannau i'r wyneb ar Lwybr Elái (derbyniwyd 1 sylw). Mae angen gwell mynediad i Lwybr Elái yn Grangemoor Park; mae angen symud rhwystrau (derbyniwyd 2 sylw). Mae angen gwelliannau goleuo ar Lwybr Elâi (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Adolygwyd archwiliadau'r llwybr ar gyfer y rhan hon o Lwybr Elái ac mae'r llwybr wedi pasio'r archwiliad.

- Mater 6: Mae angen llwybr beicio ar wahân ar Heol Penarth (derbyniwyd 3 sylw). Mae angen gwella'r llwybr presennol ar Heol Penarth gan ei fod yn llwybr cyd-ddefnyddio cul ac mae gwrthdaro gyda cherbydau wrth ffyrdd ochr a mynediad i fusnesau (4 sylw a dderbyniwyd). Mae angen gwella croesfannau i gerddwyr ar Heol Penarth (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae archwiliadau'r llwybr wedi eu hadolygu ar gyfer Heol Penarth. Mae'n pasio fel llwybr cerdded. Mae'n pasio fel llwybr beicio ond mae angen datganiad arno. Mae'r datganiad yn cynnwys gwybodaeth am led y llwybr cyd-ddefnyddio a'r ffyrdd ochr. Mae Heol Penarth hefyd ar yr MRhTLl fel llwybr cerdded a beicio i'r dyfodol, gydag angen manylion am welliannau pellach.

- Mater 7: Mae angen rhoi arwyneb newydd ar Daith Taf ar Arglawdd Dôl Afon Taf (derbyniwyd 1 sylw). Mae'r llwybr oddi ar y ffordd ar Arglawdd Dôl Afon Taf yn rhy orlawn (derbyniwyd 1 sylw). Mae angen gwella Taith Taf ar Arglawdd Dôl Afon Taf (derbyniwyd 1 sylw). Mae angen arwyddion cliriach ar y llwybr beicio ar Arglawdd Taf (derbyniwyd 1 sylw). Mae angen lledu'r llwybr trwy'r danffordd o dan Stryd Wood (derbyniwyd 1 sylw). Llwybr presennol da yw Taith Taf (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae archwiliadau'r llwybrau ar gyfer Taith Taf rhwng Rhodfa'r Gorllewin a Phont Heol Clarence wedi'u hadolygu. Mae'n pasio fel llwybr cerdded. Fel llwybr beicio, mae'n pasio ond mae angen datganiad, sydd wedi'i ychwanegu at yr MRhTLl i roi mwy o wybodaeth am gyfyngiadau'r llwybr. Mae Taith Taf hefyd ar yr MRhTLl fel llwybr cerdded a beicio i'r dyfodol, gydag angen manylion am welliannau pellach.

**Crynodeb o'r newidiadau**

Mae'r newidiadau canlynol wedi cael eu gwneud i lwybrau arfaethedig (llwybrau'r dyfodol) yn sgil yr ymgynghoriad:

- Stryd Paget, Holmesdale Street a Bargoed Street: Mae'r llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map, gan ddisodli'r llwybr cerdded lleol arfaethedig ar Aber Street
- Heol Clare:  Mae'r llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map
- Heol Avondale: Mae'r llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map
- Gogledd Stryd Clive Mae'r llwybr cerdded arfaethedig ar Ogledd Stryd Clive wedi cael ei estyn i hyd cyfan y ffordd.
- Parc Hamadryad i Trem y Môr: Mae'r llwybr cerdded a beicio arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map, gan gynnwys cynigion am bont teithio llesol newydd
- Y Marl i Heol y Fferi: Mae llwybr cerdded a beicio arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map ar aliniad bras i ddangos y llwybr a ddymunir rhwng Y Marl a'r safle datblygu yn Heol y Fferi.

Mae'r newidiadau canlynol wedi cael eu gwneud i'r llwybrau presennol yn sgil yr ymgynghoriad:

- Y Marl:  Mae'r aliniad i'r llwybr presennol wedi'i gywiro
- Heol Penarth: Ychwanegwyd datganiad ar gyfer y llwybr beicio presennol
- Taith Taf: Ychwanegwyd datganiad ar gyfer y llwybr beicio presennol

## Y Mynydd Bychan

**Nifer yr ymatebion a gafwyd:** 93 (Commonplace), 1 (e-bost)

**Crynodeb o'r ymatebion**

Dyma'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiynau ymgynghori ar lwybrau'r dyfodol:

Ydych chi'n cytuno â'r llwybrau newydd arfaethedig ar gyfer cerdded?

- Ydw: 42 (53%)
- Yn rhannol: 12 (15%)
- Nac ydw: 25 (32%)

Ydych chi'n cytuno â'r llwybrau newydd arfaethedig ar gyfer cerdded a beicio?

- Ydw: 25 (29%)
- Yn rhannol: 16 (18%)
- Nac ydw: 46 (53%)

**Materion Penodol**

Mae'r ymatebion sy'n codi materion ynglŷn â llwybrau arfaethedig (llwybrau'r dyfodol) y gallai fod angen newidiadau i'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol ar eu cyfer wedi cael eu crynhoi isod gydag ymateb y Cyngor.

- Mater 1: Dylai fod llwybr beicio ar hyd cyfan Heol Allensbank (derbyniwyd 2 sylw). Dylai fod llwybr beicio ar Rhodfa Parc y Mynydd Bychan (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Mae gwaith dylunio a wnaed hyd yma wedi asesu bod Dwyrain Rhodfa'r Brenin Siôr V yn opsiwn mwy ymarferol ar gyfer llwybr beicio sy'n darparu ar gyfer teithiau rhwng y gogledd a'r de yn y lleoliad hwn.

- Mater 2: Mae angen cysylltiad â phont Flaxland Avenue o'r gogledd o Ysbyty Athrofaol Cymru (derbyniwyd 1 sylw). Dylai Heath Park Lane o Ysbyty Athrofaol Cymru i swyddfeydd yr AGPh fod yn llwybr beicio yn ogystal â llwybr cerdded (derbyniwyd 3 sylw). Mae angen torri llystyfiant yn ôl ar Heath Park Lane (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae'r llwybr cerdded arfaethedig ar Heath Park Lane wedi'i ddiwygio i lwybr cerdded a beicio arfaethedig, sydd wedi'i estyn ar hyd y llwybr mabwysiedig wrth ymyl yr ysbyty deintyddol i gysylltu â'r bont i Flaxland Avenue.

- Mater 3: Pryder am wrthdaro rhwng beicwyr a phobl sy'n mynd â chŵn am dro (derbyniwyd 2 sylw). Dylid newid y llwybr ym Mharc y Mynydd Bychan i ddilyn y ffordd o amgylch y parc (derbyniwyd 1 sylw).

Canlyniad: Dim angen newidiadau. Mae'r llwybrau beicio trwy Barc y Mynydd Bychan wedi hen ennill eu plwyf erbyn hyn. Gellid gwneud gwelliannau dylunio trwy weithredu'r MRhTLl i fynd i'r afael â rhai materion gwrthdaro rhwng gwahanol ddefnyddwyr y parc.

- Mater 4: Mae angen llwybr cerdded a beicio ar Heol Pant-bach i Ysgol Llwynbedw.

  Canlyniad: Mae'r llwybr cerdded a beicio arfaethedig ar Heol Pant-bach wedi'i estyn i Heol Llwynbedw i ddarparu llwybr uniongyrchol i Ysgol Llwynbedw.

- Mater 5: Mae Ton yr Ywen Avenue yn rhy gul ar gyfer lonydd beicio (derbyniwyd 6 sylw). Nid yw'n cefnogi llwybr beicio ar Ton yr Ywen Avenue (derbyniwyd 1 sylw). Dylai'r llwybr beicio arfaethedig ar Ton yr Ywen Avenue gael ei ailgyfeirio i Ffordd y Mynydd Bychan oherwydd nad yw Ton yr Ywen Avenue yn addas (derbyniwyd 17 o sylwadau). Mae angen trac beicio ar wahân ar Ton yr Ywen Avenue (derbyniwyd 2 sylw). Mae angen croesfannau ar Ffordd y Mynydd Bychan a Ton yr Ywen Avenue (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau i'r llwybr arfaethedig. Ton yr Ywen Avenue yw'r llwybr mwyaf uniongyrchol ar gyfer cysylltiadau ymlaen gan gynnwys St Ambrose Road i'r de a Summerfield Place i'r gorllewin. Bydd y llwybr beicio ar Ton yr Ywen Avenue ar y ffordd (sy'n cael ei rannu â cherbydau modur) ac felly ni fydd angen trac beicio ar wahân. Felly, mae'r disgrifiad o'r gwaith wedi'i ddiwygio i adlewyrchu maint cyfyngedig y newidiadau y mae'n debyg y bydd angen eu gwneud, sef terfyn 20mya, mesurau arafu traffig cysylltiedig a gwell cyfleusterau croesi yng nghyffordd Heol Heathwood. Bydd y terfyn 20mya yn cael ei weithredu fel rhan o Brosiect 20mya Canol Gogledd Caerdydd. Bydd maint unrhyw fesurau arafu traffig sydd ei angen yn destun ymchwiliad pellach, gan ddibynnu ar effaith y terfyn 20mya.

- Mater 6: Mae Heol Pedair Erw a Summerfield Place yn rhy brysur i fod yn llwybr teithio llesol (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Bydd y llwybr arfaethedig yn cynnig cyswllt defnyddiol rhwng y dwyrain a'r gorllewin ar strydoedd tawelach.

**Crynodeb o'r newidiadau**

Mae'r newidiadau canlynol wedi cael eu gwneud i lwybrau arfaethedig (llwybrau'r dyfodol) yn sgil yr ymgynghoriad:

- Heath Park Lane: Mae'r llwybr cerdded arfaethedig wedi'i ddiwygio i lwybr cerdded a beicio arfaethedig a'i estyn i gysylltu â'r bont i Flaxland Avenue
- Heol Pant-bach: Mae'r llwybr cerdded a beicio arfaethedig wedi'i estyn i gysylltu â Heol Llwynbedw

- Ton yr Ywen Avenue: Mae’r disgrifiad o'r gwaith ar gyfer llwybr cerdded a beicio arfaethedig wedi'i ddiwygio ar gyfer cywirdeb i "derfyn 20mya a mesurau arafu traffig cysylltiedig, a gwell cyfleusterau croesi yng nghyffordd Heol Heathwood"

## Llys-faen

**Nifer yr ymatebion a gafwyd:** 28 (Commonplace), 1 (e-bost)

**Crynodeb o'r ymatebion**

Dyma'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiynau ymgynghori ar lwybrau'r dyfodol:

Ydych chi'n cytuno â'r llwybrau newydd arfaethedig ar gyfer cerdded?

- Ydw: 12 (44%)
- Yn rhannol: 10 (37%)
- Nac ydw: 5 (19%)

Ydych chi'n cytuno â'r llwybrau newydd arfaethedig ar gyfer cerdded a beicio?

- Ydw: 13 (48%)
- Yn rhannol: 8 (30%)
- Nac ydw: 6 (22%)

**Materion Penodol**

Mae'r ymatebion sy'n codi materion ynglŷn â llwybrau arfaethedig (llwybrau'r dyfodol) y gallai fod angen newidiadau i'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol ar eu cyfer wedi cael eu crynhoi isod gydag ymateb y Cyngor.

- Mater 1: Mae Heol Cefn Onn yn llwybr amgen gwell i Cherry Orchard Road (derbyniwyd 1 sylw). Nid oes palmentydd ar un ochr i Heol y Berllan Geirios (derbyniwyd 2 sylw). Dylid ailgyfeirio'r llwybr arfaethedig ar Heol y Berllan Geirios i hen Heol y Berllan Geirios (derbyniwyd 1 sylw). Mae angen llwybr beicio ar Heol y Berllan Geirios.

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Mae'r llwybr cerdded arfaethedig yn darparu cyswllt defnyddiol ac uniongyrchol â gorsaf Llys-faen. Mae angen rhagor o waith i archwilio dichonoldeb creu rhwydwaith llwybrau beicio yn y rhan hon o Lys-faen, gan gynnwys cysylltiadau ymlaen â'r rhwydwaith teithio llesol. Felly bydd gwelliannau cerdded i gyrchfannau lleol yn cael eu blaenoriaethu yma yn y tymor byr.

- Mater 2: Mae angen cyfleusterau croesi yng nghyffordd Heol y Berllan Geirios/Llwyn y Pia Road (derbyniwyd 1 sylw). Dylid estyn y llwybr cerdded o Heol y Berllan Geirios i fyny Llwyn y Pia Road (derbyniwyd 1 sylw). Dylai Llwyn y Pia Road fod yn llwybr cerdded; mae angen gwelliannau ar gyfer cadeiriau gwthio (derbyniwyd 1 sylw). Dylai Llwyn y Pia Road fod yn llwybr beicio (derbyniwyd 3 sylw).

  Canlyniad: Mae'r llwybr cerdded arfaethedig o Heol y Berllan Geirios wedi cael ei estyn i Llwyn y Pia Road. Mae angen rhagor o waith i archwilio dichonoldeb creu rhwydwaith llwybrau beicio yn y rhan hon o Lys-faen, gan gynnwys cysylltiadau

ymlaen â'r rhwydwaith teithio llesol. Felly bydd gwelliannau cerdded i gyrchfannau lleol yn cael eu blaenoriaethu yma yn y tymor byr.

- Mater 3: Dylid dangos llwybrau cerdded trwy safle datblygu Churchlands (derbyniwyd 1 sylw). Nid yw Heol Llaneirwg yn ddiogel ar gyfer beicio; mae angen llwybr diogel i Bontprennau (derbyniwyd 3 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Mae'r map yn dangos llwybrau cerdded a beicio sy'n gysylltiedig â'r safle datblygu, ond bydd aliniad llwybrau trwy'r safle yn dibynnu ar gynlluniau safle sydd wedi'u cymeradwyo.

- Mater 4: Dylid dangos llwybrau cerdded trwy Goed y Felin fel llwybrau cerdded (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Rhaid ystyried ymhellach pa mor addas yw'r llwybrau hyn fel llwybrau teithio llesol, yn hytrach na llwybrau hamdden.

- Mater 5: Mae angen llwybr beicio ar Heol Cefn Onn (derbyniwyd 1 sylw). Mae angen llwybr cerdded ar Heol Cefn Onn (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map ar Heol Cefn Onn. Mae angen rhagor o waith i archwilio dichonoldeb creu rhwydwaith llwybrau beicio yn y rhan hon o Lys-faen, gan gynnwys cysylltiadau ymlaen â'r rhwydwaith teithio llesol. Felly bydd gwelliannau cerdded i gyrchfannau lleol yn cael eu blaenoriaethu yma yn y tymor byr.

- Mater 6: Mae angen croesfan ger y feithrinfa ar Heol y Delyn (derbyniwyd 1 sylw). Mae angen llwybr beicio ar Heol y Delyn (derbyniwyd 2 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map ar Heol y Delyn. Mae angen rhagor o waith i archwilio dichonoldeb creu rhwydwaith llwybrau beicio yn y rhan hon o Lys-faen, gan gynnwys cysylltiadau ymlaen â'r rhwydwaith teithio llesol. Felly bydd gwelliannau cerdded i gyrchfannau lleol yn cael eu blaenoriaethu yma yn y tymor byr.

- Mater 7: Dylid dangos y llwybr troed presennol o Heol y Delyn i Chartwell Drive ar y map (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded arfaethedig wedi cael ei ychwanegu at y map o Heol y Delyn i Heol Llys-faen gan gynnwys y llwybr troed hwn.

- Mater 8: Mae Heol Llys-faen yn gul ac yn brysur. Byddai Heol y Delyn yn aliniad gwell ar gyfer llwybr beicio (derbyniwyd 1 sylw). Mae Heol Llys-faen yn rhy gul ar gyfer llwybr beicio (derbyniwyd 3 sylw). Yn cefnogi llwybr beicio ar Heol Llys-faen (derbyniwyd 6 sylw). Yn cefnogi llwybr cerdded ar Heol Llys-faen gan fod diffyg troedffordd mewn rhannau yn beryglus i gerddwyr (derbyniwyd 2 sylw). Mae Heol Llys-faen yn ffordd gul gyda thraffig trwm. Byddai angen newidiadau sylweddol i gynllun y ffordd neu aliniad llwybr beicio amgen (derbyniwyd 1 sylw).

Canlyniad: Dim angen newidiadau. Mae'r llwybr arfaethedig ar Heol Llys-faen yn gyswllt pwysig o safle datblygu Gogledd-ddwyrain Caerdydd i Orsaf Llanisien. Bydd angen rhagor o waith dylunio er mwyn dod o hyd i'r ffordd orau o hwyluso cerdded a beicio ar y llwybr hwn.

- Mater 9: Cefnogir gwelliannau i Ffordd y Felin oherwydd nad yw'n ddiogel, bod diffyg troedffyrdd a bod angen croesfan yn Larch Grove (derbyniwyd 10 sylw). Byddai Hen Ffordd y Felin yn llwybr cerdded amgen gwell i Ffordd y Felin (derbyniwyd 5 sylw). Mae Ffordd y Felin yn rhy gul ar gyfer llwybr beicio (derbyniwyd 1 sylw). Dylai Ffordd y Felin fod yn llwybr beicio (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae'r llwybr cerdded arfaethedig ar Ffordd y Felin wedi'i estyn i gynnwys aliniad dewisol ar Hen Ffordd y Felin, a allai ddarparu llwybr mwy uniongyrchol. Mae angen rhagor o waith i archwilio dichonoldeb creu rhwydwaith llwybrau beicio yn y rhan hon o Lys-faen, gan gynnwys cysylltiadau ymlaen â'r rhwydwaith teithio llesol. Felly bydd gwelliannau cerdded i gyrchfannau lleol yn cael eu blaenoriaethu yma yn y tymor byr.

- Mater 10: Dylid dangos llwybr cerdded ar y lôn sy'n cysylltu Hen Ffordd y Felin â Choed y Felin (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Nid oes angen llwybr ar yr aliniad hwn oherwydd agosrwydd y llwybr arfaethedig ar Ffordd y Felin.

- Mater 11: Mae angen llwybr beicio ar Rudry Road (derbyniwyd 1 sylw). Mae angen llwybr troed ar Rudry Road (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Mae angen ymchwilio ymhellach a chydgysylltu â Cyngor Caerffili er mwyn sefydlu aliniadau priodol ar gyfer llwybrau teithio llesol i greu cysylltiadau addas i leoedd dros y ffin.

**Crynodeb o'r newidiadau**

Mae'r newidiadau canlynol wedi cael eu gwneud i lwybrau arfaethedig (llwybrau'r dyfodol) yn sgil yr ymgynghoriad:

- Llwyn y Pia Road: Mae'r llwybr cerdded lleol arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map
- Heol Cefn Onn: Mae'r llwybr cerdded lleol arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map
- Heol y Delyn Mae'r llwybr cerdded lleol arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map
- Llwybr troed o Heol y Delyn i Chartwell Drive a Chartwell Drive: Mae'r llwybr cerdded lleol arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map
- Hen Ffordd y Felin: Mae'r llwybr cerdded lleol arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map fel opsiwn ar gyfer llwybr Ffordd y Felin

## Llandaf

**Nifer yr ymatebion a gafwyd:** 43 (Commonplace)

**Crynodeb o'r ymatebion**

Dyma'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiynau ymgynghori ar lwybrau'r dyfodol:

Ydych chi'n cytuno â'r llwybrau newydd arfaethedig ar gyfer cerdded?

- Ydw: 19 (51%)
- Yn rhannol: 10 (27%)
- Nac ydw: 8 (22%)

Ydych chi'n cytuno â'r llwybrau newydd arfaethedig ar gyfer cerdded a beicio?

- Ydw: 21 (53%)
- Yn rhannol: 11 (28%)
- Nac ydw: 8 (20%)

**Materion Penodol**

Mae'r ymatebion sy'n codi materion ynglŷn â llwybrau arfaethedig (llwybrau'r dyfodol) y gallai fod angen newidiadau i'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol ar eu cyfer wedi cael eu crynhoi isod gydag ymateb y Cyngor.

- Mater 1: Cafwyd nifer o sylwadau ynglŷn â'r llwybr cerdded a beicio arfaethedig o Rhodfa'r Gorllewin i Heol Llantrisant trwy Cathedral Close a Stryd y Bont. Mae'r rhain yn cynnwys peidio â chefnogi llwybr beicio trwy Bentref Llandaf (derbyniwyd 1 sylw), nid yw Stryd y Bont yn addas ar gyfer beicio oherwydd gwrthdaro â pharcio (derbyniwyd 2 sylw), peidio â chefnogi llwybr beicio ar Stryd y Bont (derbyniwyd 1 sylw), cefnogi llwybr cerdded a beicio ar Stryd y Bont (derbyniwyd 1 sylw), nid yw Heol Caerdydd yn ddiogel ar gyfer beicio (derbyniwyd 1 sylw), nid yw Heol Caerdydd yn addas ar gyfer cerdded a beicio gan ei bod yn rhy gul (derbyniwyd 1 sylw), mae angen llwybr beicio ar Heol Caerdydd i gysylltu â Heol y Gadeirlan (derbyniwyd 1 sylw), mae'r lôn o Rhodfa'r Gorllewin i Eglwys Gadeiriol Llandaf yn rhy gul ar gyfer beicio (derbyniwyd 1 sylw) a dylai'r lôn o Rhodfa'r Gorllewin i Eglwys Gadeiriol Llandaf fod yn ffordd gerdded ar-lein (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Mae Pentref Llandaf yn gyrchfan leol bwysig ac felly mae angen llwybrau teithio llesol i gysylltu â Phentref Llandaf yn unol â gofynion y Ddeddf Teithio Llesol. Mae'r llwybr arfaethedig trwy Bentref Llandaf hefyd yn ddewis addas arall i Heol Caerdydd, y mae'n annhebygol y bydd yn ymarferol fel llwybr beicio ar gyfer teithiau i ganol y ddinas. Bydd gwaith dylunio unrhyw seilwaith sydd ei angen i hwyluso'r llwybr hwn yn destun ymgynghoriad pellach.

- Mater 2: Dylid dangos llwybr cerdded o Buckley Close a Herbert March Close ar draws y cae i gysylltu â Heol Isaf (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Ymchwiliad pellach i berchnogaeth tir sydd ei angen ar gyfer llwybr posib o Herbert March Close. Mae Buckley Close yn agos i'r llwybr cerdded a beicio arfaethedig i'r de o Ysgol Gyfun Radur ac felly nid oes angen llwybr cerdded ychwanegol yn y lleoliad hwn.

- Mater 3: Mae angen llwybr beicio o Dreganna i Ysgol Uwchradd Cantonian (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded a beicio uwchradd arfaethedig wedi'i ychwanegu at Fairwater Grove West i gwblhau cysylltiad o lwybrau teithio llesol yn Nhreganna ag Ysgol Uwchradd Cantonian.

- Mater 4: Dylid dangos llwybr cerdded dros y bont reilffordd o Rhodfa Danescourt i Radyr Court Road (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae'r llwybr cerdded arfaethedig ar Rhodfa Danescourt wedi cael ei estyn i Heol Radyr Court dros y bont reilffordd ger gorsaf Danescourt.

- Mater 5: Mae angen llwybr cerdded o Ely Road i Bentref Llandaf (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded lleol arfaethedig wedi'i ychwanegu at Ely Road a Stryd Fawr Llandaf

- Mater 6: Mae gan Heol y Tyllgoed gyfleusterau beicio eisoes, felly nid oes angen newidiadau pellach a dylid dynodi'r llwybr yn llwybr presennol (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Nid yw'r cyfleusterau beicio ar Heol y Tyllgoed yn bodloni'r safonau dylunio teithio llesol cyfredol a bydd angen eu huwchraddio.

- Mater 7: Mae angen gwelliannau ar y llwybr troed sy'n cysylltu Heol Llantrisant â Heol y Tyllgoed (derbyniwyd 2 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded lleol arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map ar hyd y llwybr troed hwn.

- Mater 8: Mae Lôn y Felin yn llwybr byr defnyddiol y mae angen ei wella ar gyfer cerdded a beicio (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Nid yw Lôn y Felin yn cysylltu'n dda â llwybrau teithio llesol eraill. Darperir ar gyfer teithiau rhwng y dwyrain a'r gorllewin gan aliniad y llwybr arfaethedig ar yr A48.

- Mater 9: Dylid dangos y llwybr sy'n cysylltu Radyr Court Road â Highfields fel llwybr cerdded a beicio (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim newidiadau. Mae'n annhebygol y bydd yn ymarferol gwneud rhagor o welliannau i'r cyswllt hwn er mwyn iddo fodloni'r safonau a nodir yn y Canllawiau Dylunio Teithio Llesol.

- Mater 10: Dylai'r llwybr arfaethedig i Ysgol Pencae ar Gillian Road fod ar gyfer beicio yn ogystal â cherddded (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae'r llwybr cerdded lleol arfaethedig ar Gillian Road wedi'i ddiwygio i lwybr cerdded a beicio arfaethedig.

- Mater 11: Dylid dangos y llwybr ar hyd ymyl Coed Radur ar y map fel llwybr cerdded (derbyniwyd 2 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Mae'n annhebygol y bydd y llwybr yn bodloni gofynion llwybr teithio llesol ac mae'n debygol o gael ei ddosbarthu fel llwybr hamdden.

**Crynodeb o'r newidiadau**

Mae'r newidiadau canlynol wedi cael eu gwneud i lwybrau arfaethedig (llwybrau'r dyfodol) yn sgil yr ymgynghoriad:

- Fairwater Grove West: Ychwanegwyd y llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig
- Rhodfa Danescourt a'r llwyubr troed i Radyr Court: Ychwanegwyd y llwybr cerdded lleol arfaethedig
- Ely Road a Stryd Fawr Llandaf: Ychwanegwyd y llwybr cerdded lleol arfaethedig
- Llwybr troed o Heol Llantrisant i Heol y Tyllgoed: Ychwanegwyd y llwybr cerdded lleol arfaethedig
- Gillian Road: Mae'r llwybr cerdded arfaethedig wedi'i ddiwygio i lwybr cerdded a beicio arfaethedig

## Ystum Taf

**Nifer yr ymatebion a gafwyd:** 36 (Commonplace), 1 (e-bost)

**Crynodeb o'r ymatebion**

Dyma'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiynau ymgynghori ar lwybrau'r dyfodol:

Ydych chi'n cytuno â'r llwybrau newydd arfaethedig ar gyfer cerdded?

- Ydw: 10 (40%)
- Yn rhannol: 4 (16%)
- Nac ydw: 11 (44%)

Ydych chi'n cytuno â'r llwybrau newydd arfaethedig ar gyfer cerdded a beicio?

- Ydw: 19 (56%)
- Yn rhannol: 8 (24%)
- Nac ydw: 7 (21%)

Dyma'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiynau ymgynghori ar lwybrau presennol:

Ydych chi'n cytuno bod y llwybrau beicio presennol a ddangosir yn addas ar gyfer beicio ar hyn o bryd?

- Ydw: 10 (31%)
- Yn rhannol: 10 (31%)
- Nac ydw: 12 (38%)

**Materion Penodol**

Mae'r ymatebion sy'n codi materion ynglŷn â llwybrau arfaethedig (llwybrau'r dyfodol) y gallai fod angen newidiadau i'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol ar eu cyfer wedi cael eu crynhoi isod gydag ymateb y Cyngor.

- Mater 1: Dylid dangos llwybr cerdded o Colwinstone Close ar y llwybr presennol trwy'r maes hamdden i'r groesfan lefel (1 sylwadau a dderbyniwyd).

  Canlyniad: Dim newidiadau.  Mae angen ymchwilio ymhellach i ddichonoldeb a pherchnogaeth tir er mwyn dynodi llwybr teithio llesol yma.

- Mater 2: Dylai'r llwybr beicio arfaethedig ar Rhodfa Gabalfa barhau am hyd cyfan y ffordd (derbyniwyd 6 sylw).

  Canlyniad: Mae'r llwybr cerdded a beicio arfaethedig wedi cael ei estyn i gwmpasu hyd cyfan Rhodfa Gabalfa.

- Mater 3: Mae Aberporth Road yn llwybr beicio defnyddiol arall i Rhodfa Gabalfa (derbyniwyd 1 sylw).

Canlyniad: Mae llwybr cerdded a beicio arfaethedig wedi cael ei ychwanegu at Heol Aberporth yn ogystal â'r llwybr arfaethedig ar Rhodfa Gabalfa, gan y bydd hyn yn cyfrannu at sicrhau dwysedd rhwyll rhwydwaith 250m.

- Mater 4: Dylai'r llwybr y tu ôl i Andrew's Road a Hazelhurst Road i Barc Hailey fod yn llwybr cerdded (derbyniwyd 1 sylw) a llwybr beicio (derbyniwyd 3 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Mae'r llwybr yn agos iawn at y llwybr cerdded a beicio arfaethedig trwy Barc Hailey, y llwybr cerdded presennol trwy Barc Hailey a'r llwybr cerdded a beicio arfaethedig ar Heol yr Orsaf.

- Mater 5: Dylai Radyr Road fod yn llwybr beicio i gysylltu â Thaith Taf (derbyniwyd 1 sylw). Dylai West Road fod yn llwybr beicio a cherdded i gysylltu â Thaith Taf (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded a beicio arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map ar Ffordd Radyr Road i gysylltu â Thaith Taf. Nid oes angen llwybr ar West Road yn ogystal â'r llwybrau arfaethedig ar Radyr Road a Heol Tŷ Mawr.

- Mater 6: Dylid dangos llwybr cerdded a beicio ar y llwybr presennol ar ymyl ddeheuol Parc Lydstep (derbyniwyd 1 sylw). Cyswllt o Daith Taf â'r llwybr arfaethedig ar River View a Heol Colwill (derbyniwyd 1 sylw). Mae angen gwella'r cyswllt â Thaith Taf ar River View ger Rhodfa'r Gorllewin (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae'r llwybr trwy Barc Lydstep yn cyd-fynd yn agos â Thaith Taf, felly nid oes angen llwybr teithio llesol ychwanegol ar yr aliniad hwn, ond mae angen gwelliannau mynediad i Daith Taf. Mae gwybodaeth ychwanegol wedi'i hychwanegu at y disgrifiad o'r gwaith ar gyfer Taith Taf i adlewyrchu hyn. Mae cangen wedi'i hychwanegu at Daith Taf er mwyn dangos y cysylltiad posib rhwng Taith Taf a'r llwybr arfaethedig ar Heol Colwill.

- Mater 7: Mae angen pont teithio llesol newydd ger Cored Llandaf (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Mae Cored Llandaf yn agos iawn i'r llwybr cerdded a beicio arfaethedig yn Heol y Bont ac felly nid oes angen pont ychwanegol yn y lleoliad hwn ar hyn o bryd.

- Mater 8: Dylid ailgyfeirio'r llwybr beicio arfaethedig ar Rhodfa'r Gorllewin i Ogledd Rhodfa'r Gorllewin i leihau effaith llygredd (derbyniwyd 1 sylw). Dylai Western Drive fod yn llwybr beicio (derbyniwyd 1 sylw). Mae angen dolen o Rhodfa Gabalfa i Daith Taf, naill ai trwy Western Drive neu Ogledd Rhodfa'r Gorllewin (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Mae Western Drive yn agos at y llwybr arfaethedig ar hyd Rhodfa'r Gorllewin. Mae angen gwaith dylunio pellach ar gyfer y llwybr hwn, a fydd yn ystyried a fyddai union leoliad cyfleusterau beicio mewn lleoliad gwell ar Rhodfa'r Gorllewin ei hun neu ar Ogledd Rhodfa'r Gorllewin. Gellir darparu cyswllt o Rhodfa Gabalfa â Thaith Taf trwy'r llwybr hwn.

- Mater 9: Dylid adeiladu trac beicio wrth ymyl y rheilffordd i ganol y ddinas (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Mae angen ymchwilio ymhellach i ddichonoldeb a pherchnogaeth tir er mwyn ystyried dynodi llwybr teithio llesol wrth ymyl y rheilffordd.

Mae’r ymatebion sy'n codi materion ynglŷn â llwybrau presennol y gallai fod angen newidiadau i'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol ar eu cyfer wedi cael eu crynhoi isod gydag ymateb y Cyngor.

- Mater 1: Codwyd nifer o faterion ynglŷn â Thaith Taf. Mae'r llwybr presennol trwy Barc Hailey a ger Ysgol Glantaf yn rhy gul (derbyniwyd 14 sylw). Nid yw'r cynllun arfaethedig trwy Barc Hailey yn cael ei gefnogi (derbyniwyd 3 sylw). Nid yw'r cynllun arfaethedig trwy Barc Hailey yn cael ei gefnogi (derbyniwyd 3 sylw). Dylid ailalinio'r llwybr trwy Barc Hailey i gyd-fynd yn well â llwybrau a ddymunir (derbyniwyd 1 sylw). Ni ddylai'r llwybr fod yn rhy agos i'r ardal chwarae (derbyniwyd 2 sylw). Mae gwrthdaro rhwng cerddwyr a beicwyr ym Mharc Hailey (derbyniwyd 2 sylw). Mae gwrthdaro rhwng cerddwyr a beicwyr ar hyd cyfan Taith Taf (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae archwiliadau’r llwybr wedi’u hadolygu ar gyfer y rhan o Daith Taf rhwng yr A48 a Fferm y Fforest. Mae'r archwiliad beicio yn fethiant difrifol oherwydd y lled is-safonol trwy'r rhan fwyaf o'r llwybr. Mae'r archwiliad cerdded yn pasio gyda datganiad, yn bennaf oherwydd materion cysur i gerddwyr oherwydd lled is-safonol y llwybr. Mae'r llwybr wedi'i dynnu o fap y llwybrau presennol fel llwybr beicio ond mae'n parhau ar fap y llwybrau presennol fel llwybr cerdded gyda datganiad. Mae llwybr cerdded a beicio arfaethedig ar gyfer Taith Taf wedi’i ychwanegu at y map, gan gynnwys gwybodaeth yn y disgrifiad o’r gwaith am sut y gellir gwella'r llwybr.

**Crynodeb o’r newidiadau**

Mae'r newidiadau canlynol wedi cael eu gwneud i lwybrau arfaethedig (llwybrau'r dyfodol) yn sgil yr ymgynghoriad:

- Rhodfa Gabalfa: Mae’r llwybr cerdded a beicio arfaethedig wedi’i estyn ar hyd cyfan y ffordd
- Aberporth Road: Mae’r llwybr cerdded a beicio arfaethedig wedi’i ychwanegu at y map
- Radyr Road: Mae’r llwybr cerdded a beicio arfaethedig wedi’i ychwanegu at y map
- Cyswllt Taith Taf â Heol Colwill: Ychwanegwyd cangen at y llwybr cerdded a beicio arfaethedig i gysylltu dau lwybr

Mae'r newidiadau canlynol wedi cael eu gwneud i lwybrau presennol yn sgil yr ymgynghoriad:

- Taith Taf: Mae'r llwybr beicio wedi'i dynnu o fap y llwybrau presennol. Mae'r llwybr cerdded wedi'i ychwanegu at fap y llwybrau presennol gyda datganiad. Mae’r llwybr cerdded a beicio arfaethedig wedi’i ychwanegu at y map

## Llanisien

**Nifer yr ymatebion a gafwyd:** 35 (Commonplace), 2 (e-bost)

**Crynodeb o'r ymatebion**

Dyma'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiynau ymgynghori ar lwybrau'r dyfodol:

Ydych chi'n cytuno â'r llwybrau newydd arfaethedig ar gyfer cerdded?

- Ydw: 21 (62%)
- Yn rhannol: 8 (24%)
- Nac ydw: 5 (15%)

Ydych chi'n cytuno â'r llwybrau newydd arfaethedig ar gyfer cerdded a beicio?

- Ydw: 18 (53%)
- Yn rhannol: 6 (18%)
- Nac ydw: 10 (29%)

Dyma'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiynau ymgynghori ar lwybrau presennol:

Ydych chi'n cytuno bod y llwybrau cerdded presennol a ddangosir yn addas ar gyfer cerdded ar hyn o bryd?

- Ydw: 20 (61%)
- Yn rhannol: 11 (33%)
- Nac ydw: 2 (6%)

Ydych chi'n cytuno bod y llwybrau beicio presennol a ddangosir yn addas ar gyfer beicio ar hyn o bryd?

- Ydw: 23 (70%)
- Yn rhannol: 6 (18%)
- Nac ydw: 4 (12%)

**Materion Penodol**

Mae'r ymatebion sy'n codi materion ynglŷn â llwybrau arfaethedig (llwybrau'r dyfodol) y gallai fod angen newidiadau i'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol ar eu cyfer wedi cael eu crynhoi isod gydag ymateb y Cyngor.

- Mater 1: Dylid agor pen y ffordd yn Coed Glas Road at ddefnydd cerddwyr a beicwyr (derbyniwyd 2 sylw). Mae White Barn Road yn llwybr beicio addas oherwydd yr hidlydd dulliau teithio presennol (derbyniwyd 2 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded a beicio arfaethedig wedi cael ei ychwanegu at y map ar gyfer White Barn Road. Nid oes angen unrhyw newidiadau i Coed Glas Road gan ei bod yn agos i'r llwybr arfaethedig ar White Barn Road.

- Mater 2: Dylai Ffordd Caledfwlch fod yn llwybr beicio (derbyniwyd 3 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded a beicio arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map ar gyfer hyd cyfan Ffordd Caledfwlch, gan ddisodli'r llwybr cerdded arfaethedig ar ran o Ffordd Caledfwlch.

- Mater 3: Dylai'r llwybr oddi ar y ffordd o Heol y Fid-las i Orsaf Llanisien fod yn llwybr cerdded (derbyniwyd 1 sylw) ac yn llwybr beicio (derbyniwyd 3 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded a beicio arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map ar Walker Mews a'r llwybr oddi ar y ffordd o Walker Mews i Heol yr Orsaf.

- Mater 4: Dylai hyd cyfan Ffordd Abergwaun fod yn llwybr beicio (derbyniwyd 1 sylw). Dylai'r llwybr oddi ar y ffordd o Kimberley Terrace i Glyn Crisial fod yn llwybr cerdded (derbyniwyd 1 sylw) ac yn llwybr beicio (derbyniwyd 2 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded a beicio arfaethedig wedi'i ychwanegu at y llwybr oddi ar y ffordd o Kimberley Terrace i Glyn Crisial. Gan fod hyn yn agos at Ffordd Abergwaun, nid oes angen llwybr beicio ychwanegol ar Ffordd Abergwaun.

- Mater 5: Dylai Heol Hir rhwng Llanon Road a Rhodfa Templeton hefyd fod yn llwybr cerdded a beicio (derbyniwyd 6 sylw).

  Canlyniad: Mae'r llwybr cerdded a beicio arfaethedig ar Heol Hir wedi cael ei estyn i gynnwys y rhan rhwng Llanon Road a Rhodfa Templeton.

- Mater 6: Dylai Heol Llangrannog fod yn llwybr beicio (derbyniwyd 1 sylw). Dylai Clodien Avenue fod yn llwybr beicio (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae'r llwybr cerdded arfaethedig ar Heol Llangrannog a Rhodfa Templeton wedi'i ddiwygio i lwybr cerdded a beicio arfaethedig.

- Mater 7: Dylid cynnwys llwybrau cerdded trwy Barc Llanisien ar y map (derbyniwyd 3 sylw)

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded lleol arfaethedig wedi cael ei ychwanegu at y map ar lwybrau presennol ym Mharc Llanisien sy'n cysylltu Heol White Barn a Heol Tŷ Glas ag Ysgol y Wern ar Heol Llangrannog.

- Mater 8: Mae breichiau deheuol a dwyreiniol Parc Tŷ Glas yn fwy diogel i feicwyr sy’n teithio i’r dwyrain na'r llwybr arfaethedig ar Barc Tŷ Glas a Rhodfa Tŷ Glas (derbyniwyd 2 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Disgwylir y bydd angen gwelliannau i'r llwybr arfaethedig a ddylai fodloni pryderon am ddiogelwch.

- Mater 9: Dylid dangos llwybr cerdded o amgylch y gronfa ddŵr gyfan (derbyniwyd 2 sylw). Dylid dangos llwybr cerdded a beicio i'r gogledd o'r gronfa ddŵr (derbyniwyd 1 sylw).

Canlyniad: Dim newidiadau.  Darperir eisoes ar gyfer llwybrau i'r de o'r gronfa ddŵr ar yr MRhTLl. Mae angen ymchwilio ymhellach i ddichonoldeb ar gyfer llwybrau i'r gogledd o'r gronfa ddŵr.

- Mater 10: Yn cefnogi gwneud llwybr beicio o Rheidol Close i South Rise (derbyniwyd 1 sylw). Nid yw'n cefnogi gwneud llwybr beicio o Rheidol Close i South Rise gan ei fod yn rhy serth a chul (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Nodwyd y llwybr arfaethedig trwy Astudiaeth Rhwydwaith Teithio Llesol Gogledd-ddwyrain Caerdydd, a sefydlodd rwydwaith llwybrau i hwyluso teithiau i ysgolion lleol.

- Mater 11: Dylid dangos llwybr cerdded gan ddefnyddio llwybrau presennol oddi ar y ffordd o Rhodfa Templeton i Ffordd Caledfwlch trwy Gilwern Crescent a Llanon Road (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded lleol arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map sy'n cysylltu Rhodfa Templeton â Llwybr Cymunedol Gogledd Caerdydd trwy Gilwern Crescent a llwybrau presennol oddi ar y ffordd.

- Mater 12: Dylid dangos llwybr cerdded a beicio yn croesi'r rheilffordd yng Ngorsaf Tŷ Glas (derbyniwyd 2 sylw).

  Canlyniad: Dim newidiadau.  Mae angen ymchwilio ymhellach i ddichonoldeb a pherchnogaeth tir.

Mae'r ymatebion sy'n codi materion ynglŷn â llwybrau presennol y gallai fod angen newidiadau i'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol ar eu cyfer wedi cael eu crynhoi isod gydag ymateb y Cyngor.

- Mater 1: Nid yw Llwybr Cymunedol Gogledd Caerdydd yn addas fel llwybr presennol am ei fod yn llwybr cyd-ddefnyddio ynysig a chul ac mae ganddo gysylltiadau gwael ymlaen (derbyniwyd 6 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Mae archwiliadau'r llwybrau wedi eu hadolygu ac mae Llwybr Cymunedol Gogledd Caerdydd yn pasio ar gyfer cerdded a beicio.

**Crynodeb o'r newidiadau**

Mae'r newidiadau canlynol wedi cael eu gwneud i lwybrau arfaethedig (llwybrau'r dyfodol) yn sgil yr ymgynghoriad:

- White Barn Road: Mae'r llwybr cerdded a beicio arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map
- Excalibur Road: Mae'r llwybr cerdded a beicio arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map

- Walker Mews a llwybr oddi ar y ffordd i Heol yr Orsaf: Mae’r llwybr cerdded a beicio arfaethedig wedi’i ychwanegu at y map
- Llwybr oddi ar y ffordd o Kimberley Terrace i Glyn Crisial: Mae’r llwybr cerdded a beicio arfaethedig wedi’i ychwanegu at y map
- Heol Hir: Mae’r llwybr cerdded a beicio arfaethedig wedi’i ychwanegu at y map rhwng Llanon Road a Rhodfa Templeton
- Heol Llangrannog: Mae’r llwybr cerdded arfaethedig wedi'i ddiwygio i lwybr cerdded a beicio arfaethedig
- Rhodfa Templeton: Mae’r llwybr cerdded arfaethedig wedi'i ddiwygio i lwybr cerdded a beicio arfaethedig
- Parc Llanisien: Mae’r llwybr cerdded arfaethedig wedi’i ychwanegu at lwybrau presennol sy'n cysylltu White Barn Road a Heol Tŷ Glas â Heol Llangrannog
- Gilwern Crescent a llwybrau oddi ar y ffordd i Lwybr Cymunedol Gogledd Caerdydd: Mae’r llwybr cerdded lleol arfaethedig wedi’i ychwanegu at y map

## Llanrhymni

**Nifer yr ymatebion a gafwyd:** 17 (Commonplace)

**Crynodeb o'r ymatebion**

Dyma'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiynau ymgynghori ar lwybrau'r dyfodol:

Ydych chi'n cytuno â'r llwybrau newydd arfaethedig ar gyfer cerdded?

- Ydw: 9 (64%)
- Yn rhannol: 3 (21%)
- Nac ydw: 2 (14%)

Ydych chi'n cytuno â'r llwybrau newydd arfaethedig ar gyfer cerdded a beicio?

- Ydw: 7 (41%)
- Yn rhannol: 5 (29%)
- Nac ydw: 5 (29%)

Dyma'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiynau ymgynghori ar lwybrau presennol:

Ydych chi'n cytuno bod y llwybrau cerdded presennol a ddangosir yn addas ar gyfer cerdded ar hyn o bryd?

- Ydw: 9 (56%)
- Yn rhannol: 5 (31%)
- Nac ydw: 2 (13%)

**Materion Penodol**

Mae'r ymatebion sy'n codi materion ynglŷn â llwybrau arfaethedig (llwybrau'r dyfodol) y gallai fod angen newidiadau i'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol ar eu cyfer wedi cael eu crynhoi isod gydag ymateb y Cyngor.

- Mater 1: Dylid dangos llwybr beicio ar Heol Ball Road a Rhodfa Burnham gan gysylltu â Phentref Llaneirwg (derbyniwyd 1 sylw). Mae angen llwybr beicio ar Rhodfa Countisbury i Rhodfa Burnham (derbyniwyd 1 sylw). Mae angen croesfan sebra ar gyffordd Rhodfa Countisbury ac Elgar Crescent (derbyniwyd 1 sylw). Mae angen llwybr beicio ar wahân ar Rhodfa Llanrhymni (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig wedi'i ychwanegu at Rhodfa Llanrhymni, Rhodfa Countisbury, Rhodfa Burnham a Heol Ball i greu llwybr cylchol trwy Lanrhymni sy'n cysylltu ardaloedd preswyl, cyrchfannau lleol a llwybrau teithio llesol â chyrchfannau eraill yn y ddinas. Bydd angen rhagor o waith o ran dichonoldeb llwybr i Bentref Llaneirwg.

- Mater 2: Dylid dangos llwybr cerdded ar draws y parc o Rhodfa Countisbury i Sedgemoor Road (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Nid yw'n ymddangos bod y llwybr hwn yn cysylltu ag unrhyw gyrchfannau na gweddill y rhwydwaith teithio llesol.

- Mater 3: Dylid darparu llwybr cerdded a beicio o Hartland Road drwodd i Heol Casnewydd ar waelod Bryn Tredelerch, a fyddai'n cynnig llwybr i ganol y ddinas gan osgoi graddiant serth Bryn Tredelerch (derbyniwyd 2 sylw).

  Canlyniad: Dim newidiadau. Mae angen ymchwilio ymhellach i berchnogaeth tir a dichonoldeb datblygu pen gorllewinol y llwybr.

- Mater 4: Dylid gwella'r llwybr a'r bont o Lôn y Felin i Heol yr Eglwys ar gyfer cerdded a beicio (derbyniwyd 2 sylw).

  Canlyniad: Dim newidiadau. Mae angen ymchwilio ymhellach i ddichonoldeb darparu llwybr gyda chysylltiadau priodol â'r rhwydwaith teithio llesol ehangach.

- Mater 5: Dylai'r llwybr trwy'r parc o Heol Casnewydd i Ganolfan Hamdden y Dwyrain fod yn llwybr beicio (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map sy'n cysylltu Heol Casnewydd â Chanolfan Hamdden y Dwyrain trwy'r parc.

Mae'r ymatebion sy'n codi materion ynglŷn â llwybrau presennol y gallai fod angen newidiadau i'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol ar eu cyfer wedi cael eu crynhoi isod gydag ymateb y Cyngor.

- Mater 1: Mae parcio ar y palmant yn broblem ar bob llwybr presennol (derbyniwyd 1 sylw). Mae angen hidlydd dulliau teithio ar Worle Avenue ar y gyffordd â Heol Ball i leihau lefel y traffig (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae archwiliad y llwybrau ar gyfer y rhwydwaith llwybrau cerdded wedi'i adolygu ac mae'r llwybrau wedi cael eu dosbarthu fel rhai sy'n pasio gyda datganiad. Mae datganiad wedi'i ychwanegu at fap y llwybrau presennol yn amlinellu diffygion y llwybr, gan gynnwys y problemau a nodwyd gyda pharcio ar y palmant. Mae'r llwybr cerdded arfaethedig ym mhen gorllewinol Worle Avenue hefyd wedi'i estyn i sicrhau bod Worle Avenue i gyd naill ai'n llwybr cerdded presennol neu arfaethedig.

**Crynodeb o'r newidiadau**

Mae'r newidiadau canlynol wedi cael eu gwneud i lwybrau arfaethedig (llwybrau'r dyfodol) yn sgil yr ymgynghoriad:

- Rhodfa Llanrhymni, Rhodfa Countisbury, Rhodfa Burnham a Heol Ball: Mae'r llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map

- Llwybr trwy'r parc o Heol Casnewydd i Ganolfan Hamdden y Dwyrain: Ychwanegwyd y llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig
- Worle Avenue: Mae'r llwybr cerdded arfaethedig ym mhen gorllewinol Worle Avenue wedi'i estyn i gwrdd â'r llwybr cerdded presennol yn y pen dwyreiniol

Mae'r newidiadau canlynol wedi cael eu gwneud i lwybrau presennol yn sgil yr ymgynghoriad:

- Pob llwybr cerdded presennol yn Llanrhymni: ychwanegwyd datganiad at fap y llwybrau presennol

Pentwyn

**Nifer yr ymatebion a gafwyd:** 29 (Commonplace)

**Crynodeb o'r ymatebion**

Dyma'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiynau ymgynghori ar lwybrau'r dyfodol:

Ydych chi'n cytuno â'r llwybrau newydd arfaethedig ar gyfer cerdded?

- Ydw: 11 (42%)
- Yn rhannol: 10 (38%)
- Nac ydw: 5 (19%)

Ydych chi'n cytuno â'r llwybrau newydd arfaethedig ar gyfer cerdded a beicio?

- Ydw: 14 (54%)
- Yn rhannol: 6 (23%)
- Nac ydw: 6 (23%)

**Materion Penodol**

Mae'r ymatebion sy'n codi materion ynglŷn â llwybrau arfaethedig (llwybrau'r dyfodol) y gallai fod angen newidiadau i'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol ar eu cyfer wedi cael eu crynhoi isod gydag ymateb y Cyngor.

- Mater 1: Mae angen llwybr cerdded a beicio ar draws yr A4232 i gyrraedd Heol Casnewydd trwy Warchodfa Natur Howardian (derbyniwyd 2 sylw).

  Canlyniad: Dim newidiadau. Mae angen ymchwilio ymhellach i ddichonoldeb darparu llwybr o dan y ffordd gyswllt.

- Mater 2: Dylid dangos llwybr yn defnyddio'r isffordd dan yr A48 o Lanedern (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Ni fyddai llwybr yma yn cysylltu'n dda â gweddill y rhwydwaith teithio llesol.

- Mater 3: Dylid darparu llwybr cerdded yr holl ffordd o amgylch Ffordd Gylchol, a fyddai'n cysylltu nifer o ysgolion (derbyniwyd 4 sylw). Mae angen llwybr beicio i Met Caerdydd o Ffordd Gylchol (derbyniwydd 2 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded a beicio arfaethedig wedi'i ychwanegu at hyd cyfan Ffordd Gylchol, gan gysylltu ysgolion a'r brifysgol.

- Mater 4: Mae angen troedffordd a goleuadau ar y ffordd yn Glenwood (derbyniwyd 2 sylw).

Canlyniad: Dim angen newidiadau. Mae llwybrau yn y cyffiniau wedi'u diffinio trwy Astudiaeth Rhwydwaith Teithio Llesol Gogledd-ddwyrain Caerdydd, yn bennaf gan ddefnyddio'r llwybrau oddi ar y ffordd sy'n darparu cysylltiadau â chyrchfannau lleol, yn enwedig ysgolion.

- Mater 5: Mae angen troedffordd wrth ymyl y ffordd ar Pennsylvania (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Mae llwybrau yn y cyffiniau wedi'u diffinio trwy Astudiaeth Rhwydwaith Teithio Llesol Gogledd-ddwyrain Caerdydd, yn bennaf gan ddefnyddio'r llwybrau oddi ar y ffordd sy'n darparu cysylltiadau â chyrchfannau lleol, yn enwedig ysgolion.

- Mater 6: Mae angen llwybr o Rhodfa Pentwyn i Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Mae llwybrau i'r ysgol yng nghyffiniau Rhodfa Pentwyn wedi'u nodi trwy Astudiaeth Rhwydwaith Teithio Llesol Gogledd-ddwyrain Caerdydd.

- Mater 7: Mae angen gwell cysylltiadau â Llwybr Tredelerch (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded a beicio i Lwybr Tredelerch o Heol Pentwyn trwy'r isffordd o dan yr A48 wedi'i ychwanegu at y map.

- Mater 8: Dylid adfer y llwybr cerdded o ben deheuol Wyncliffe Gardens i'r ysgolion (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim newidiadau.  Mae angen ymchwilio ymhellach i berchnogaeth tir er mwyn dynodi llwybr teithio llesol yma.

**Crynodeb o'r newidiadau**

Mae'r newidiadau canlynol wedi cael eu gwneud i lwybrau arfaethedig (llwybrau'r dyfodol) yn sgil yr ymgynghoriad:

- Ffordd Gylchol: Mae'r llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map
- Llwybr o Heol Pentwyn i Lwybr Tredelerch o dan yr A48: Mae'r llwybr cerdded a beicio arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map

Pentyrch

**Nifer yr ymatebion a gafwyd:** 45 (Commonplace), 1 (e-bost)

**Crynodeb o'r ymatebion**

Dyma'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiynau ymgynghori ar lwybrau'r dyfodol:

Ydych chi'n cytuno â'r llwybrau newydd arfaethedig ar gyfer cerdded?

- Ydw: 17 (41%)
- Yn rhannol: 9 (22%)
- Nac ydw: 15 (37%)

Ydych chi'n cytuno â'r llwybrau newydd arfaethedig ar gyfer cerdded a beicio?

- Ydw: 16 (38%)
- Yn rhannol: 16 (38%)
- Nac ydw: 10 (24%)

**Materion Penodol**

Mae'r ymatebion sy'n codi materion ynglŷn â llwybrau arfaethedig (llwybrau'r dyfodol) y gallai fod angen newidiadau i'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol ar eu cyfer wedi cael eu crynhoi isod gydag ymateb y Cyngor.

- Mater 1: Mae angen llwybr cerdded a beicio ar Heol yr Eglwys i Rydlafar (derbyniwyd 10 sylw). Mae angen llwybr cerdded a beicio o Bentyrch i Rydlafar i gael mynediad i feddygfa (derbyniwyd 9 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig wedi cael ei ychwanegu at Heol y Pentre a Heol yr Eglwys i gysylltu Pentyrch â Rhydlafar.

- Mater 2: Mae angen llwybr cerdded a beicio ar Heol y Parc a Star Lane (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Mae'n annhebygol y bydd angen llwybr ar hyd yr aliniad hwn yn ychwanegol at y llwybr arfaethedig i Rydlafar.

- Mater 3: Mae angen llwybr beicio o Greigiau i Rydlafar (derbyniwyd 10 sylw). Mae angen llwybr cerdded a beicio ar Heol Pant y Gored (derbyniwyd 2 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig wedi cael ei ychwanegu at y map ar Heol yr Orsaf a Heol Pant y Gored. Bydd angen ymchwilio ymhellach i gadarnhau aliniad mwyaf addas y llwybr fel rhan o broses ddylunio'r cynllun.

  Mater 4: Dylid dangos llwybrau cerdded presennol ar Fynydd y Garth ar y map (derbyniwyd 1 sylw).

Canlyniad: Nid oes angen newidiadau. Mae'n annhebygol y bydd y llwybrau hyn yn darparu ar gyfer teithio llesol ac mae mwy na thebyg yn well iddynt gael eu dosbarthu fel llwybrau hamdden.

- Mater 5: Mae Heol Berry a School Lane yn cynnig llwybr cerdded mwy diogel i Waelod y Garth na'r Heol Fawr (derbyniwyd 2 sylw). Mae angen troedffordd wrth ymyl y ffordd ar yr Heol Fawr (derbyniwyd 1 sylw). Gellid creu llwybr oddi ar y ffordd ar lan yr afon gan osgoi'r ystâd ddiwydiannol a chysylltu â School Lane (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded arfaethedig wedi'i ychwanegu at School Lane a Heol Berry, yn ogystal â'r llwybr ar yr Heol Fawr sy'n dal i roi mynediad i'r maes hamdden. Bydd angen ymchwilio ymhellach i ddichonoldeb parhau â llwybr ar lan yr afon.

- Mater 6: Dylid darparu llwybr cerdded a beicio o Bentyrch i Radur ar ôl Pant Tawel Lane a Lôn Caerau (derbyniwyd 4 sylw). Mae angen llwybr teithio llesol i Radur o Bentyrch (derbyniwyd 5 sylw). Mae angen llwybr cerdded i Radur o Bentyrch (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig wedi cael ei ychwanegu i gysylltu Pentyrch a Radur trwy Pant Tawel Lane a Lôn Caerau.

**Crynodeb o'r newidiadau**

Mae'r newidiadau canlynol wedi cael eu gwneud i lwybrau arfaethedig (llwybrau'r dyfodol) yn sgil yr ymgynghoriad:

- Heol y Pentre a Heol yr Eglwys: Mae'r llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map
- Heol yr Orsaf a Heol Pant y Gored: Mae'r llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map
- School Lane a Heol Berry: Mae llwybr cerdded lleol arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map
- Pant Tawel Lane a Lôn Caerau: Mae llwybr cerdded a beicio eilaidd wedi'i ychwanegu at y map.

## Pen-y-lan

**Nifer yr ymatebion a gafwyd:** 45 (Commonplace), 1 (e-bost)

**Crynodeb o’r ymatebion**

Dyma'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiynau ymgynghori ar lwybrau'r dyfodol:

Ydych chi'n cytuno â'r llwybrau newydd arfaethedig ar gyfer cerdded?

- Ydw: 25 (58%)
- Yn rhannol: 13 (30%)
- Nac ydw: 5 (12%)

Ydych chi'n cytuno â'r llwybrau newydd arfaethedig ar gyfer cerdded a beicio?

- Ydw: 25 (58%)
- Yn rhannol: 12 (28%)
- Nac ydw: 6 (14%)

Dyma'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiynau ymgynghori ar lwybrau presennol:

Ydych chi'n cytuno bod y llwybrau cerdded presennol a ddangosir yn addas ar gyfer cerdded ar hyn o bryd?

- Ydw: 13 (30%)
- Yn rhannol: 12 (28%)
- Nac ydw: 18 (42%)

**Materion Penodol**

Mae’r ymatebion sy'n codi materion ynglŷn â llwybrau arfaethedig (llwybrau'r dyfodol) y gallai fod angen newidiadau i'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol ar eu cyfer wedi cael eu crynhoi isod gydag ymateb y Cyngor.

- Mater 1: Dylai Bangor Street fod yn llwybr beicio (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Mae Bangor Street yn agos i'r llwybr cerdded a beicio arfaethedig ar Heol Wellfield.

- Mater 2: Mae angen gwelliannau croesfannau wrth y cyffyrdd ar Heol Blenheim (derbyniwyd 1 sylw). Dylai Stryd Blenheim fod yn llwybr beicio, gan ddarparu dolen gyswllt drwodd i Glenroy Street ym Mhlasnewydd (derbyniwyd 3 sylw).

  Canlyniad: Mae'r llwybr cerdded a beicio arfaethedig ym mhen deheuol Heol Blenheim wedi cael ei estyn ar hyd cyfan Heol Blenheim.

- Mater 3: Dylai Brandreth Road i Maryport Road fod yn llwybr cerdded. Mae angen gwell mynediad i gadeiriau olwyn (derbyniwyd 1 sylw). Byddai llwybr beicio o Ffordd

Bodlyn, trwy Sovereign Chase, i Brandreth Road yn agor llwybr i Barc y Rhath ac yn osgoi Heol Tŷ Gwyn (derbyniwyd 1 sylw).

Canlyniad: Mae llwybr cerdded a beicio arfaethedig wedi cael ei ychwanegu at y map trwy Ffordd Bodlyn, Sovereign Chase, Ffordd Cwellyn, Brandreth Road a Maryport Road.

- Mater 4: Mae angen llwybr beicio ar gyfer hyd cyfan Rhodfa Colchester (derbyniwyd 7 sylw). Mae Melrose Avenue yn llwybr amgen tawelach i Rhodfa Colchester (derbyniwyd 1 sylw). Dylai Melrose Avenue fod yn llwybr beicio (derbyniwyd 3 sylw). Dylai Melrose Avenue fod yn llwybr cerdded (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae'r llwybr cerdded a beicio arfaethedig ar Rhodfa Colchester wedi cael ei estyn ar hyd cyfan Rhodfa Colchester. Mae hyn yn darparu'r llwybr mwyaf uniongyrchol i Heol Casnewydd o'i gymharu â Melrose Avenue. Nid oes angen llwybr ar Melrose Avenue yn ogystal â Rhodfa Colchester gan fod y ddau yn agos at ei gilydd.

- Mater 5: Dylid darparu llwybr trwy Warchodfa Natur Howardian i gysylltu â Llanedern a Llwybr Tredelerch (derbyniwyd 2 sylw).

  Canlyniad: Dim newidiadau.  Mae angen ymchwilio ymhellach i ddichonoldeb darparu llwybr o dan y ffordd gyswllt.

- Mater 6: Dylai Ipswich Road fod yn llwybr cerdded a beicio (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded a beicio arfaethedig wedi cael ei ychwanegu at Ipswich Road.

- Mater 7: Mae angen gwelliannau cerdded ar Kimberley Road (derbyniwyd 3 sylw). Mae angen llwybr beicio ar Kimberley Road (derbyniwyd 3 sylw). Dylai Westville Road fod yn llwybr beicio (derbyniwyd 1 sylw). Dylai Westville Road fod yn llwybr cerdded (derbyniwyd 1 sylw). Dylai Sandringham Road fod yn llwybr beicio (derbyniwyd 1 sylw). Dylai Sandringham Road fod yn llwybr cerdded (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded a beicio arfaethedig wedi'i ychwanegu at Kimberley Road, sy'n cynnig y cysylltiad mwyaf uniongyrchol ymlaen i Heol Tŷ Draw. Nid oes angen llwybrau ar Westville Road a Sandringham Road yn ogystal â'r llwybrau arfaethedig ar Heol Marlborough a Kimberley Road oherwydd bod y rhain i gyd yn agos at ei gilydd.

- Mater 8: Mae angen mynediad i gerddwyr a beicwyr i barc manwerthu Heol Casnewydd o Ford Nowell, The Sandies a Minster Road. Mae angen llwybr hefyd o’r Minsters i Melrose Avenue (derbyniwyd 2 sylw).

  Canlyniad: Dim newidiadau.  Mae angen ymchwilio ymhellach i berchnogaeth tir a dichonoldeb llwybr, yn enwedig ar gyfer cysylltiad drwodd i Heol Casnewydd.

- Mater 9: Mae angen llwybr beicio ar Heol Llanedern i gysylltu ag Ysgol Teilo Sant (derbyniwyd 2 sylw) ac Ysgol y Berllan Deg (derbyniwyd 2 sylw).

  Canlyniad: Mae'r llwybr cerdded lleol arfaethedig ar Heol Llanedern wedi'i ddiwygio i lwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig.

- Mater 10: Dylid darparu llwybr beicio ar Clos Derwen, Boleyn Walk a'r lonydd sy'n cysylltu Heol Tŷ Draw â Gerddi Waterloo (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Mae llwybr o Heol Tŷ Draw i Erddi Waterloo yn cael y llwybrau cerdded a beicio arfaethedig ar Heol Tŷ Draw, Kimberley Road a Heol Waterloo.

- Mater 11: Dylai'r lôn sy'n rhedeg o Heol Wellfield i Heol Shirley fod yn llwybr beicio (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Darperir llwybr o Heol Wellfield i Heol Shirley fel rhan o'r llwybr arfaethedig ar Heol Ninian.

Mae'r ymatebion sy'n codi materion ynglŷn â llwybrau presennol y gallai fod angen newidiadau i'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol ar eu cyfer wedi cael eu crynhoi isod gydag ymateb y Cyngor.

- Mater 1: Dylid rhoi troedffyrdd parhaus ar y ffyrdd ochr ar Heol Albany (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Mae archwiliad y llwybr ar gyfer Heol Albany wedi'i adolygu ac mae'r llwybr yn pasio fel llwybr cerdded.

**Crynodeb o'r newidiadau**

Mae'r newidiadau canlynol wedi cael eu gwneud i lwybrau arfaethedig (llwybrau'r dyfodol) yn sgil yr ymgynghoriad:

- Heol Blenheim: Mae'r llwybr cerdded a beicio arfaethedig wedi'i estyn ar hyd cyfan Heol Blenheim
- Ffordd Bodlyn, Sovereign Chase, Ffordd Cwellyn, Brandreth Road a Maryport Road: Mae'r llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map
- Rhodfa Colchester: Mae'r llwybr cerdded a beicio arfaethedig wedi'i estyn ar hyd cyfan Rhodfa Colchester
- Ipswich Road: Mae'r llwybr cerdded a beicio arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map
- Kimberley Road: Mae'r llwybr cerdded a beicio arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map
- Heol Llanedern: Mae'r llwybr cerdded lleol arfaethedig wedi'i ddiwygio i lwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig.

## Plasnewydd

**Nifer yr ymatebion a gafwyd:** 57 (Commonplace)

**Crynodeb o’r ymatebion**

Dyma'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiynau ymgynghori ar lwybrau'r dyfodol:

Ydych chi'n cytuno â'r llwybrau newydd arfaethedig ar gyfer cerdded?

- Ydw: 16 (31%)
- Yn rhannol: 19 (37%)
- Nac ydw: 16 (31%)

Ydych chi'n cytuno â'r llwybrau newydd arfaethedig ar gyfer cerdded a beicio?

- Ydw: 25 (58%)
- Yn rhannol: 12 (28%)
- Nac ydw: 6 (14%)

Dyma'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiynau ymgynghori ar lwybrau presennol:

Ydych chi'n cytuno bod y llwybrau cerdded presennol a ddangosir yn addas ar gyfer cerdded ar hyn o bryd?

- Ydw: 20 (37%)
- Yn rhannol: 17 (31%)
- Nac ydw: 17 (31%)

**Materion Penodol**

Mae’r ymatebion sy'n codi materion ynglŷn â llwybrau arfaethedig (llwybrau'r dyfodol) y gallai fod angen newidiadau i'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol ar eu cyfer wedi cael eu crynhoi isod gydag ymateb y Cyngor.

- Mater 1: Dylai Plas Mackintosh fod yn llwybr cerdded a beicio (derbyniwyd 2 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Er bod Plas Mackintosh yn cynnig y llwybr mwyaf uniongyrchol ar gyfer beicio, mae'n annhebygol iawn y bydd yn ymarferol darparu llwybr beicio yma. Mae Inverness Place yn cynnig aliniad mwy ymarferol gyda dim ond dargyfeiriad bach.

- Mater 2: Dylai Arran Place a Roath Court Road fod yn llwybr beicio (derbyniwyd 2 sylw). Mae angen gwelliannau i'r droedffordd ar Claude Road (derbyniwyd 1 sylw). Dylai Claude Road fod yn llwybr beicio (derbyniwyd 1 sylw). Dylai Stryd Oakfield fod yn llwybr beicio (derbyniwyd 3 sylw). Dylai’r lôn sy'n cysylltu Elm Street, Partridge Road, Stryd Oakfield a Roath Court Road fod yn llwybr beicio fel dewis amgen i Heol Casnewydd (derbyniwyd 2 sylw).

Canlyniad:  Mae llwybr cerdded a beicio arfaethedig wedi cael ei ychwanegu at Arran Place sy'n cysylltu â Heol Albany trwy ben y ffordd yn Roath Court Road. Mae llwybr cysylltu wedi'i ychwanegu at ben deheuol Claude Road i Oakfield Street a thrwy'r lôn i Elm Street, i ddarparu cysylltiad ymlaen â'r feicffordd arfaethedig ar Heol Casnewydd.

- Mater 3: Mae angen gwelliannau i'r droedffordd ar Claude Road (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Nid oes angen llwybr ar Connaught Road yn ychwanegol at y llwybr cyfochrog ar Claude Road.

- Mater 4: Dylai Heol y Plwca fod yn llwybr cerdded a beicio ar hyd cyfan y ffordd (derbyniwyd 7 sylw). Dylai Heol y Plwca fod yn llwybr cerdded ar hyd cyfan y ffordd (derbyniwyd 5 sylw). Byddai lôn feicio ar Heol y Plwca yn amharu ar fusnesau (derbyniwyd 1 sylw). Dylai Northcote Lane, Bedford Street a Penlline Street fod yn llwybr beicio i gynnig dewis arall i Heol y Plwca (derbyniwyd 1 sylw). Nid yw Northcote Lane yn ddiogel yn y nos (derbyniwyd 1 sylw). Mae angen troedffyrdd lletach ar Heol y Plwca (derbyniwyd 1 sylw). Mae angen llwybr i gysylltu Heol y Plwca â Heol Glossop (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae'r llwybr cerdded arfaethedig ar Heol y Plwca wedi cael ei estyn ar hyd cyfan y ffordd, er mwyn sicrhau mynediad i fusnesau ar gyfer cerddwyr a chysylltiadau ymlaen â Heol Glossop. Mae'r llwybr cerdded a beicio arfaethedig sy'n rhedeg yn gyfochrog â Heol y Plwca ar Heol Richmond yn darparu ar gyfer beicio.

- Mater 5: Mae'r llwybr arfaethedig ar Cottrell Road, Arran Street a Plasnewydd Road yn rhy anuniongyrchol ac rhy gul gyda gormod o gyffyrdd (derbyniwyd 2 sylw). Yn cefnogi'r llwybr arfaethedig ar Cottrell Road, Arran Street a Plasnewydd Road (derbyniwyd 1 sylw). Mae Arran Street yn rhy gul ar gyfer llwybr beicio (derbyniwyd 1 sylw). Nid yw'r lôn o Cottrell Road i Claude Road yn ddiogel yn y nos (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Cynllun y stryd sy'n gyfrifol am ei natur anuniongyrchol. Gellid gwneud gwelliannau i'r gyffordd fel rhan o'r gwelliannau sydd eu hangen i greu'r llwybr. Mae'n debygol mai llwybr ar y ffordd sydd fwyaf addas oherwydd llif is y traffig ac felly nid oes angen rhagor o le ar gyfer lôn feicio neu drac beicio. Mae'r llwybr arfaethedig yn darparu cyswllt rhwng y dwyrain a'r gorllewin defnyddiol ar gyfer rhan ddeheuol Plasnewydd gan gynnwys cysylltiadau ymlaen â chanol y ddinas.

- Mater 6: Dylid dangos llwybr cerdded ar draws y rheilffordd, sy'n cysylltu Heol Richmond â Rhymney Street (derbyniwyd 2 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded lleol arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map ar Fitzroy Street sy'n cysylltu Heol Richmond â Rhymney Street gyda chysylltiadau ymlaen â llwybrau teithio llesol yn Cathays.

- Mater 7: Dylid dangos llwybrau cerdded trwy Faes Hamdden y Rhath (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Nid yw'r llwybrau sefydledig o fewn Maes Hamdden y Rhath yn fwy uniongyrchol na'r llwybrau teithio llesol arfaethedig o amgylch y perimedr.

Mae’r ymatebion sy'n codi materion ynglŷn â llwybrau presennol y gallai fod angen newidiadau i'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol ar eu cyfer wedi cael eu crynhoi isod gydag ymateb y Cyngor.

- Mater 1: Dylid dangos Heol Wellfield ar y map fel llwybr presennol (derbyniwyd 3 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Cafodd y llwybr beicio "untro" ar Heol Wellfield ei gyflwyno fel mesur dros dro yn ystod y pandemig. Bydd y llwybr yn cael ei archwilio a'i ystyried i'w gynnwys ar fap y llwybrau presennol unwaith y bydd cynllun parhaol wedi'i roi ar waith yma.

- Mater 2: Dylid dangos Moy Road ar y map fel llwybr presennol (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Mae diffyg cysylltiadau presennol ymlaen ar gyfer llwybr ar Moy Road.

Mae’r ymatebion sy'n codi materion ynglŷn â llwybrau presennol a llwybrau arfaethedig y gallai fod angen newidiadau i'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol ar eu cyfer wedi cael eu crynhoi isod gydag ymateb y Cyngor.

- Mater 1: Mae angen llwybr beicio ar wahân ar Heol Albany (derbyniwyd 6 sylw). Dylai Heol Albany fod yn llwybr beicio ar hyd cyfan y ffordd (derbyniwyd 3 sylw). Nid yw'n cefnogi llwybr beicio (derbyniwyd 1 sylw). Nid yw'r llwybr presennol ar Heol Albany yn addas oherwydd annibendod, troedffyrdd gorlawn a pharcio ar y palmant (derbyniwyd 1 sylw). Mae pyllau dŵr yn ffurfio ger cyffyrdd ar y llwybr cerdded presennol (derbyniwyd 1 sylw). Mae angen mwy o le i gerddwyr ar Heol Albany (derbyniwyd 2 sylw). Mae cyflymder cerbydau ar Heol Albany yn rhy uchel (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Cafodd archwiliad y llwybr ar gyfer pen dwyreiniol Heol Albany ei adolygu ac mae'r llwybr yn pasio fel llwybr cerdded, felly bydd yn aros ar y map fel llwybr cerdded presennol. Mae'r llwybr cerdded a beicio arfaethedig ym mhen gorllewinol Heol Albany wedi cael ei estyn ar hyd cyfan Heol Albany

- Mater 2: Mae'r llwybr cerdded presennol ar Heol y Gwernydd yn anwastad ac yn anniogel i'w chroesi (derbyniwyd 2 sylw). Nid yw'r llwybr cerdded presennol ar Kelvin Road yn addas oherwydd diffyg cyrbau isel (derbyniwyd 2 sylw). Mae angen cyrbau

isel wrth gyffyrdd ar y llwybr presennol ar Arabella Street (derbyniwyd 5 sylw). Mae'r palmentydd ar Arabella Street yn rhy gul (derbyniwyd 3 sylw). Mae ansawdd y llwybrau troed ar Arabella Street a Kelvin Road yn wael gyda chroesfannau gwael (derbyniwyd 1 sylw). Pryder y bydd gan Angus Street a Diana Street lif cerbydau uwch os yw pob stryd gyfochrog arall yn llwybrau teithio llesol (derbyniwyd 1 sylw). Mae Donald Street yn llwybr cerdded mwy addas nag Arabella Street gan fod ganddi hidlydd dulliau teithio eisoes ar y gyffordd â Heol Albany (derbyniwyd 4 sylw). Dylai Donald Street fod yn llwybr beicio (derbyniwyd 1 sylw). Dylid darparu llwybr beicio ar y llwybr trwy Elm Street, Plasnewydd Road, Donald Street a Hendy Street (derbyniwyd 4 sylw). Mae angen llwybr beicio o ganol Plasnewydd i Stryd Clifton (derbyniwyd 3 sylw). Dylai Elm Street fod yn llwybr beicio (derbyniwyd 3 sylw).

Canlyniad: Cafodd archwiliad y llwybr cerdded ar gyfer Arabella Street, Kelvin Road ac Alder Road ei adolygu ac oherwydd diffyg cyrbau isel, mae'n methu'r archwiliad ac mae wedi'i dynnu o fap y llwybrau presennol. Mae aliniad llwybrau teithio llesol trwy'r ardal wedi'i adolygu ac mae llwybr cerdded a beicio arfaethedig wedi'i ychwanegu at Donald Street gan fod hwn yn llwybr mwy uniongyrchol i'r de, gan fanteisio ar yr hidlydd dulliau teithio presennol a chroesi'n uniongyrchol i Plasnewydd Road. Oherwydd agosrwydd y llwybrau arfaethedig ar Donald Street ac Inverness Place i Arabella Street, nid yw llwybr cerdded arfaethedig wedi'i ychwanegu at Arabella Street i gymryd lle'r llwybr cerdded presennol. Mae llwybr cerdded arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map i gymryd lle'r llwybr presennol ar Kelvin Road a Heol y Gwernydd. Mae llwybr cerdded a beicio arfaethedig wedi'i ychwanegu at Clive Place ac Elm Street i estyn y llwybr rhywng y gogledd a’r de o Donald Street i lawr i Stryd Clifton.

**Crynodeb o’r newidiadau**

Mae'r newidiadau canlynol wedi cael eu gwneud i lwybrau arfaethedig (llwybrau'r dyfodol) yn sgil yr ymgynghoriad:

- Arran Place a Roath Court Road: Mae’r llwybr cerdded a beicio arfaethedig wedi’i ychwanegu at y map
- Claude Road, Stryd Oakfield a'r lôn i Elm Street: Mae’r llwybr cerdded a beicio arfaethedig wedi’i ychwanegu at y map
- Heol y Plwca: Mae’r llwybr cerdded a beicio arfaethedig ar Heol y Plwca wedi’i estyn ar hyd cyfan Heol y Plwca
- Fitzroy Street: Mae’r llwybr cerdded lleol arfaethedig wedi’i ychwanegu at y map
- Heol Albany: Mae’r llwybr cerdded a beicio arfaethedig wedi’i estyn ar hyd cyfan Heol Albany
- Donald Street: Mae’r llwybr cerdded a beicio arfaethedig wedi’i ychwanegu at y map
- Clive Place ac Elm Street: Mae’r llwybr cerdded a beicio arfaethedig wedi’i ychwanegu at y map

Mae'r newidiadau canlynol wedi cael eu gwneud i lwybrau presennol yn sgil yr ymgynghoriad:

- Arabella Street: Mae’r llwybr cerdded wedi'i dynnu o fap y llwybrau presennol a'r llwybr arfaethedig newydd wedi'i ailalinio i Donald Street
- Kelvin Road a Heol y Gwernydd Mae’r llwybr cerdded wedi'i dynnu o fap y llwybrau presennol a'r llwybr arfaethedig newydd wedi'i roi yn ei le

## Pontprennau a Phentref Llaneirwg

**Nifer yr ymatebion a gafwyd:** 19 (Commonplace)

**Crynodeb o'r ymatebion**

Dyma'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiynau ymgynghori ar lwybrau'r dyfodol:

Ydych chi'n cytuno â'r llwybrau newydd arfaethedig ar gyfer cerdded?

- Ydw: 5 (33%)
- Yn rhannol: 2 (13%)
- Nac ydw: 8 (53%)

Ydych chi'n cytuno â'r llwybrau newydd arfaethedig ar gyfer cerdded a beicio?

- Ydw: 9 (56%)
- Yn rhannol: 5 (31%)
- Nac ydw: 2 (13%)

**Materion Penodol**

Mae'r ymatebion sy'n codi materion ynglŷn â llwybrau arfaethedig (llwybrau'r dyfodol) y gallai fod angen newidiadau i'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol ar eu cyfer wedi cael eu crynhoi isod gydag ymateb y Cyngor.

- Mater 1: Mae angen mynediad diogel i Barc Manwerthu Porth Caerdydd ar gyfer beicwyr (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded a beicio arfaethedig wedi cael ei ychwanegu i Heol Pontprennau, gan gysylltu Parc Manwerthu Porth Caerdydd â llwybrau arfaethedig eraill yn y rhwydwaith.

- Mater 2: Mae angen llwybr cerdded o Bentref Llaneirwg i Lanrhymni trwy Rhodfa Burnham (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim newidiadau. Mae angen gwaith pellach i ystyried dichonoldeb darparu llwybr o Rhodfa Burnham i Bentref Llaneirwg.

- Mater 3: Mae angen llwybr beicio o'r datblygiad newydd yn Heol y Bont i gysylltu â Heol Casnewydd ar hyd Ty'r Winch Road neu Wern Fawr Lane (derbyniwyd 2 sylw).

  Canlyniad: Mae'r llwybr cerdded a beicio arfaethedig ar Heol Llaneirwg wedi cael ei estyn i Heol Casnewydd, ar hyd Heol y Bont, Ty'r Winch Road a Wern Fawr Lane.

**Crynodeb o'r newidiadau**

Mae'r newidiadau canlynol wedi cael eu gwneud i lwybrau arfaethedig (llwybrau'r dyfodol) yn sgil yr ymgynghoriad:

- Heol Pontprennau:  Mae’r llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig wedi’i ychwanegu at y map
- Heol y Bont, Ty'r Winch Road a Wern Fawr Lane: Mae’r llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig wedi’i ychwanegu at y map

## Radur a Phentre-poeth

**Nifer yr ymatebion a gafwyd:** 41 (Commonplace)

**Crynodeb o'r ymatebion**

Dyma'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiynau ymgynghori ar lwybrau'r dyfodol:

Ydych chi'n cytuno â'r llwybrau newydd arfaethedig ar gyfer cerdded?

- Ydw: 16 (48%)
- Yn rhannol: 9 (27%)
- Nac ydw: 8 (24%)

Ydych chi'n cytuno â'r llwybrau newydd arfaethedig ar gyfer cerdded a beicio?

- Ydw: 12 (33%)
- Yn rhannol: 15 (42%)
- Nac ydw: 9 (25%)

**Materion Penodol**

Mae'r ymatebion sy'n codi materion ynglŷn â llwybrau arfaethedig (llwybrau'r dyfodol) y gallai fod angen newidiadau i'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol ar eu cyfer wedi cael eu crynhoi isod gydag ymateb y Cyngor.

- Mater 1: Dylai Bryn Derwen fod yn llwybr cerdded a beicio (derbyniwyd 3 sylw). Dylid darparu llwybr cerdded a beicio o Bryn Derwen i Bentre-poeth (derbyniwyd 1 sylw). Dylai Drysgol Road fod yn llwybr beicio (derbyniwyd 1 sylw). Dylai Drysgol Road fod yn llwybr cerdded a beicio (derbyniwyd 2 sylw). Dylid darparu llwybr cerdded a beicio i'r Ganolfan Arddio o Bryn Derwen i Barc Pentre-poeth (derbyniwyd 2 sylw). Mae angen llwybrau teithio llesol ym Mhentre-poeth (derbyniwyd 2 sylw). Mae'r bont dros yr M4 i Bentre-poeth yn ynysig ac yn anniogel (derbyniwyd 1 sylw). Dylai'r llwybr ar draws y bont dros yr M4 gael ei wneud yn llwybr beicio a'i estyn i Bentre-poeth (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded lleol arfaethedig wedi cael ei ychwanegu at Bryn Derwen, Drysgol Road a Heol Windsor, gyda chysylltiad ar draws y bont droed dros yr M4, i ddarparu llwybr trwy Bentre-poeth i Ty-Nant Road.  Mae angen mwy o waith i nodi dichonoldeb cysylltiadau â'r rhwydwaith beicio ehangach cyn diffinio llwybr beicio arfaethedig yn yr ardal hon.

- Mater 2: Dylid darparu llwybr cerdded trwy Goed Dan-y-Bryn (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Mae llwybr yma'n debygol o ddarparu ar gyfer teithiau cerdded hamdden yn hytrach na theithio llesol.

- Mater 3: Dylai'r llwybr trwy Fferm Gelynis i Daith Taf fod yn llwybr cerdded a beicio (derbyniwyd 5 sylw).

  Canlyniad: Dim newidiadau. Mae angen ymchwilio ymhellach i ddichonoldeb a pherchnogaeth tir er mwyn dynodi llwybr teithio llesol yma.

- Mater 4: Dylai hyd cyfan Heol Isaf fod yn llwybr cerdded a beicio, gan ymestyn i Bentre-poeth (derbyniwyd 8 sylw). Mae angen llwybrau cerdded lletach ar Heol Isaf (derbyniwyd 1 sylw). Nid yw Heol Isaf yn ddiogel ar gyfer beicio (derbyniwyd 1 sylw). Mae angen llwybrau teithio llesol i Ysgol Gyfun Radur (derbyniwyd 1 sylw). Mae angen gwella cyffordd Radyr Farm Road a Heol Isaf ar gyfer beicio (derbyniwyd 2 sylw). Nid yw cyffordd Heol Isaf a Heol Llantrisant yn ddiogel (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae'r llwybr cerdded arfaethedig ar Heol Isaf wedi cael ei estyn, i ymuno â'r gyffordd â Heol Llantrisant yn y de ac i'r gogledd o Bentre-poeth yn y gogledd. Nid yw llwybr beicio ar Heol Isaf yn debygol o fod yn ymarferol oherwydd llif y traffig, diffyg lle ar gyfer cyfleusterau ar wahân, a diffyg aliniadau amgen posibl ar gyfer teithiau rhwng y gogledd a'r de.

- Mater 5: Dylid darparu llwybr cerdded i Ysgol Gynradd Bryn Deri gan ddefnyddio'r ffordd drwodd rhwng Maes yr Awl, Pentwyn, Parc Pentwyn, Windsor Close a Windsor Avenue (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim newidiadau. Mae perchnogaeth tir nifer o'r llwybrau byr hyn yn ansicr; mae angen ymchwilio ymhellach cyn y gellir diffinio llwybr teithio llesol yma.

- Mater 6: Dylid creu llwybr cerdded o Min y Coed i Bentwyn (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim newidiadau. Oherwydd cynllun y stryd yn yr ardal hon, nid oes llwybr uniongyrchol o Min y Coed i Bentwyn.

- Mater 7: Dylid gwella'r llwybr i Bentyrch ar Pant Tawel Lane (derbyniwyd 1 sylw). Mae angen llwybr beicio i Bentyrch ar Pant Tawel Lane (derbyniwyd 2 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig wedi cael ei ychwanegu i gysylltu Pentyrch a Radur trwy Pant Tawel Lane

- Mater 8: Mae angen llwybrau teithio llesol o Radyr Sidings i gyrraedd ysgolion (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded lleol arfaethedig wedi'i ychwanegu o Goetre Fawr i Heol y Brenin.

- Mater 9: Dylai'r llwybr ar lan yr afon o Radyr Court Road barhau i Radur (derbyniwyd 5 sylw).

  Canlyniad: Dim newidiadau. Mae angen ymchwilio ymhellach i berchnogaeth tir a dichonoldeb er mwyn dynodi llwybr teithio llesol yma.

- Mater 10: Mae angen palmentydd lletach ar Heol yr Orsaf (derbyniwyd 3 sylw). Dylai Heol yr Orsaf gael ei throi'n ardal i gerddwyr yn unig (derbyniwyd 1 sylw). Byddai Heol y Brenin yn well aliniad ar gyfer llwybr beicio oherwydd y graddiannau ar Heol yr Orsaf (derbyniwyd 3 sylw). Nid yw Heol yr Orsaf yn addas ar gyfer beicio gan ei fod yn rhy gul (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae'r llwybr cerdded a beicio arfaethedig ar Heol yr Orsaf wedi cael ei ailainio i Heol y Brenin i ddarparu mynediad i Orsaf Radur. Mae wedi cael ei ddisodli gan lwybr cerdded arfaethedig ar hyd cyfan Heol yr Orsaf i ddarparu cysylltedd ar gyfer cerddwyr rhwng yr orsaf reilffordd a busnesau ar Heol yr Orsaf.

**Crynodeb o'r newidiadau**

Mae'r newidiadau canlynol wedi cael eu gwneud i lwybrau arfaethedig (llwybrau'r dyfodol) yn sgil yr ymgynghoriad:

- Bryn Derwen, Drysgol Road a Heol Windsor: Mae'r llwybr cerdded lleol arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map
- Maes y Fioled, Parc Pentre-poeth a Chapel Road: Mae'r llwybr cerdded lleol arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map
- Heol Isaf a Ty-Nant Road: Mae'r llwybr cerdded leol arfaethedig wedi'i estyn o'r gyffordd â Heol Llantrisant i ogledd Pentre-poeth
- Pant Tawel Lane: Mae'r llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map i gysylltu â Phentyrch
- Goetre Fawr, Arudur Hen a De Clare Drive: Mae'r llwybr cerdded lleol arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map
- Heol y Brenin: Mae'r llwybr cerdded a beicio arfaethedig wedi'i symud o Heol yr Orsaf
- Heol yr Orsaf: Mae'r llwybr cerdded lleol arfaethedig wedi'i estyn i orsaf reilffordd Radur

Rhiwbeina

**Nifer yr ymatebion a gafwyd:** 30 (Commonplace), 2 (e-bost)

**Crynodeb o'r ymatebion**

Dyma'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiynau ymgynghori ar lwybrau'r dyfodol:

Ydych chi'n cytuno â'r llwybrau newydd arfaethedig ar gyfer cerdded?

- Ydw: 11 (39%)
- Yn rhannol: 12 (43%)
- Nac ydw: 5 (18%)

Ydych chi'n cytuno â'r llwybrau newydd arfaethedig ar gyfer cerdded a beicio?

- Ydw: 11 (37%)
- Yn rhannol: 10 (33%)
- Nac ydw: 9 (30%)

**Materion Penodol**

Mae'r ymatebion sy'n codi materion ynglŷn â llwybrau arfaethedig (llwybrau'r dyfodol) y gallai fod angen newidiadau i'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol ar eu cyfer wedi cael eu crynhoi isod gydag ymateb y Cyngor.

- Mater 1: Dylid dangos y llwybr troed o Heol Beulah i Heol Tŷ Wern trwy Barc Hill Snook fel llwybr cerdded (derbyniwyd 2 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded lleol arfaethedig wedi cael ei ychwanegu at y llwybr troed o Heol Beulah i Heol Tŷ Wern.

- Mater 2: Dylid dangos y llwybr troed trwy Caedelyn o Heol Pant-bach i Ffordd y Faenor fel llwybr cerdded (derbyniwyd 2 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Darperir ar gyfer teithiau yn yr ardal hon gan y llwybr teithio llesol arfaethedig ar Pen y Dre sy'n cydredeg â'r llwybr hwn.

- Mater 3: Dylai'r llwybr troed ar lan y nant o Heol Briwnant i Maes y Deri gael ei ddangos fel llwybr cerdded (derbyniwyd 3 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded lleol arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map o Maes y Deri i Heol Llanisien Fach. Mae angen ymchwiliad ymhellach i berchnogaeth tir ac addasrwydd y llwybr ar gyfer teithio llesol yn y rhan rhwng Heol Llanisien Fach a Heol Briwnant.

- Mater 4: Dylai Heol y Bont a Heol Waun y Groes Road fod yn llwybr beicio (derbyniwyd 1 sylw).

Canlyniad: Mae llwybr cerdded a beicio arfaethedig wedi cael ei ychwanegu at y map gyda chysylltiad trwy Ffordd Morgraig i Orsaf Tŷ Glas.

- Mater 5: Dylai Heol Llanisien Fach fod yn llwybr beicio ar hyd cyfan y ffordd (derbyniwyd 5 sylw).

  Canlyniad: Dim newidiadau. Nid oes unrhyw gysylltiadau â llwybrau na chyrchfannau i'r gorllewin o Lanisien Fach, felly byddai estyn y llwybr beicio arfaethedig yma o fudd cyfyngedig.

- Mater 6: Mae angen llwybr beicio ar Heol Pant-mawr (derbyniwyd 2 sylw). Mae angen llwybr beicio ar Heol y Deri (derbyniwyd 3 sylw). Dylai'r llwybr cerdded arfaethedig ar Heol y Deri gynnwys y rhan rhwng Heol y Coed a Lôn Ucha (derbyniwyd 1 sylw). Mae angen llwybr beicio ar Bryn Rhiwbeina (derbyniwyd 3 sylw). Mae angen llwybr cerdded ar Bryn Rhiwbeina (derbyniwyd 1 sylw). Mae angen llwybr cerdded ar Heol y Wenallt (derbyniwyd 4 sylw). Mae angen llwybr beicio ar Heol y Wenallt (derbyniwyd 2 sylw).

  Canlyniad: Mae'n annhebygol y bydd llwybrau beicio ar hyd y ffyrdd hyn yn ymarferol oherwydd llif y llif traffig a diffyg lle i gyfleusterau beicio ar wahân. Bydd angen ymchwilio ymhellach i ba mor addas yw aliniadau llwybrau amgen. Byddai'r llwybrau hyn yn cynnig llwybrau teithio llesol defnyddiol ar gyfer cyrchfannau lleol, gan gynnwys ysgolion, ac felly maent wedi'u hychwanegu at y map fel llwybrau cerdded lleol arfaethedig.

- Mater 7: Mae mynedfa'r ysgol ar gau yng nghefn Ysgol Gynradd Llanisien Fach, felly nid oes angen y llwybr cerdded arfaethedig yma (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim newidiadau. Mae angen y llwybr o hyd er mwyn cyrraedd mynedfa'r ysgol ar gyfer rhai teithiau o'r gogledd.

- Mater 8: Dylai'r llwybr sy'n cysylltu Heol Wen a Heol y Coed fod yn llwybr beicio (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim newidiadau. Nid yw'r llwybr hwn yn cysylltu'n uniongyrchol â chyrchfannau nac i'r rhwydwaith beicio ehangach.

- Mater 9: Mae angen llwybr beicio o dan yr A470 i gyrraedd Gorsaf Rhiwbeina (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim newidiadau. Byddai angen ymchwilio ymhellach i ddichonoldeb llwybr o dan yr A470.

- Mater 10: Dylai Ty'n y Cae Grove fod yn llwybr beicio (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim newidiadau. Nid yw'r llwybr hwn yn cysylltu â chyrchfannau nac i'r rhwydwaith beicio ehangach.

**Crynodeb o'r newidiadau**

Mae'r newidiadau canlynol wedi cael eu gwneud i lwybrau arfaethedig (llwybrau'r dyfodol) yn sgil yr ymgynghoriad:

- Llwybr troed o Heol Beulah i Heol Tŷ Wern: Mae'r llwybr cerdded lleol arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map
- Llwybr troed o Maes y Deri i Heol Llanisien Fach: Mae'r llwybr cerdded lleol arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map
- Heol y Bont a Waun y Groes Road: Mae'r llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map
- Heol Pant-mawr Mae'r llwybr cerdded lleol arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map
- Heol y Deri, o Heol y Coed a Lôn Ucha: Mae'r llwybr cerdded lleol arfaethedig ar Heol y Deri wedi'i estyn i gynnwys y rhan hon
- Bryn Rhiwbeina: Mae'r llwybr cerdded lleol arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map
- Heol y Wenallt: Mae'r llwybr cerdded lleol arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map

## Glan-yr-afon

**Nifer yr ymatebion a gafwyd:** 47 (Commonplace), 1 (e-bost)

**Crynodeb o'r ymatebion**

Dyma'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiynau ymgynghori ar lwybrau'r dyfodol:

Ydych chi'n cytuno â'r llwybrau newydd arfaethedig ar gyfer cerdded?

- Ydw: 24 (55%)
- Yn rhannol: 10 (23%)
- Nac ydw: 10 (23%)

Ydych chi'n cytuno â'r llwybrau newydd arfaethedig ar gyfer cerdded a beicio?

- Ydw: 20 (44%)
- Yn rhannol: 10 (22%)
- Nac ydw: 15 (33%)

Dyma'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiynau ymgynghori ar lwybrau presennol:

Ydych chi'n cytuno bod y llwybrau beicio presennol a ddangosir yn addas ar gyfer beicio ar hyn o bryd?

- Ydw: 31 (67%)
- Yn rhannol: 7 (15%)
- Nac ydw: 8 (17%)

**Materion Penodol**

Mae'r ymatebion sy'n codi materion ynglŷn â llwybrau arfaethedig (llwybrau'r dyfodol) y gallai fod angen newidiadau i'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol ar eu cyfer wedi cael eu crynhoi isod gydag ymateb y Cyngor.

- Mater 1: Dylai Beauchamp Street, Stryd Despenser, Plantagenet Street a Machen Place fod yn llwybr cerdded (derbyniwyd 1 sylw). Dylai Wyndham Place, Wyndham Street, Machen Place, Gerddi Clare a Despenser Place fod yn llwybr cerdded a beicio (derbyniwyd 1 sylw). Dylid darparu llwybr beicio ar Wyndham Street i Heol Ddwyreiniol y Bont-faen (derbyniwyd 1 sylw). Mae angen llwybr beicio uniongyrchol i Daith Taf o Gerddi Clare (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded a beicio arfaethedig wedi'i ychwanegu at Wyndham Place, Wyndham Street, Machen Place, Neville Place a Stryd Despenser. Nid yw llwybrau wedi'u hychwanegu at Beauchamp Street a Plantagenet Street gan y darperir eisoes ar gyfer teithiau rhwng y gogledd a'r de gan y llwybr arfaethedig cyfochrog ar Stryd Clare a'r llwybrau presennol ac arfaethedig ar Arglawdd Fitzhamon.

- Mater 2: Ni ddylai Heol y Gadeirlan fod yn flaenoriaeth ar gyfer llwybr beicio gan fod llwybrau eraill yn bodoli (derbyniwyd 2 sylw). Mae angen gwell croesfannau i gerddwyr ar Heol y Gadeirlan (derbyniwyd 1 sylw). Yn cefnogi llwybr beicio ar Heol y Gadeirlan (derbyniwyd 3 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Mae nifer o gyrchfannau ar Heol y Gadeirlan y byddai llwybrau teithio llesol yma yn cysylltu â nhw, gan gynnwys siopau a busnesau lleol. Caiff cynlluniau eu blaenoriaethu cyn llunio'r MRhTLl terfynol.

- Mater 3: Mae angen llwybrau cerdded i gysylltu Heol Ddwyreiniol y Bont-faen a Stryd Wellington (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded lleol arfaethedig wedi'i ychwanegu at Picton Walk i gysylltu Heol Ddwyreiniol y Bont-faen a Stryd Wellington.

- Mater 4: Mae angen croesfan i gerddwyr ar Heol Llandaf ger Glynne Street (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded lleol arfaethedig wedi'i ychwanegu at hyd cyfan Heol Llandaf.

- Mater 5: Nid yw'n cefnogi llwybr cerdded na llwybr beicio ar Heol y Brenin (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Ceir nifer o gyrchfannau ar Heol y Brenin, gan gynnwys siopau lleol ac addoldai, a fyddai'n cael eu cysylltu gan lwybr teithio llesol yma.

- Mater 6: Mae angen mwy o lwybrau i gysylltu â'r llwybr trwy Gaeau Pontcanna o Heol y Gadeirlan (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae'r llwybr cerdded arfaethedig ar Fields Park Road wedi'i ddiwygio i lwybr cerdded a beicio arfaethedig ac mae aliniad y llwybr wedi'i addasu i gysylltu'n uniongyrchol â Beicffordd 4 trwy Gaeau Pontcanna.

- Mater 7: Dylid estyn y llwybr beicio ar Sneyd Street i'r gyffordd â Heol y Gadeirlan (derbyniwyd 3 sylw).

  Canlyniad: Mae'r llwybr cerdded a beicio arfaethedig ar Sneyd Street wedi'i estyn i'r gyffordd â Heol y Gadeirlan.

- Mater 8: Dylid dangos llwybr beicio ar Talbot Street (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded a beicio arfaethedig wedi'i ychwanegu at Talbot Street.

- Mater 9: Mae angen llwybr beicio o Cilgant Wyndham i Heol Romilly (derbyniwyd 1 sylw). Mae angen llwybr beicio o Cilgant Wyndham i Gaeau Llandaf (derbyniwyd 1 sylw).

Canlyniad: Mae'r llwybrau cerdded arfaethedig ar Cilgant Wyndham, Severn Grove a phen gogleddol Heol Conwy wedi'i ddiwygio i lwybr cerdded a beicio arfaethedig ac mae llwybr cerdded a beicio wedi'i ychwanegu at ran o Mortimer Road i gysylltu â Chaeau Llandaf.

Mae'r ymatebion sy'n codi materion ynglŷn â llwybrau presennol y gallai fod angen newidiadau i'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol ar eu cyfer wedi cael eu crynhoi isod gydag ymateb y Cyngor.

- Mater 1: Mae angen lledu'r man cyfyng ar Daith Taf rhwng Teras Coldstream ac Arglawdd Fitzhamon a gosod arwyddion gwell i lwybr amgen ar y ffordd (derbyniwyd 3 sylw). Mae Taith Taf yn rhy gul at ddiben cyd-ddefnyddio (derbyniwyd 3 sylw). Mae angen lledu Taith Taf (derbyniwyd 2 sylw). Mae Taith Taf yn gweithio fel llwybr cyd-ddefnyddio (derbyniwyd 1 sylw). Ni ddylai Pont y Gored Ddu fod yn llwybr presennol; mae'n rhy gul (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae archwiliadau'r llwybrau ar gyfer Taith Taf rhwng Rhodfa'r Gorllewin a Phont Heol Clarence wedi'u hadolygu. Mae'n pasio fel llwybr cerdded. Fel llwybr beicio, mae'n pasio ond mae angen datganiad, sydd wedi'i ychwanegu at yr MRhTLl i roi mwy o wybodaeth am gyfyngiadau'r llwybr. Mae Taith Taf hefyd ar yr MRhTLl fel llwybr cerdded a beicio i'r dyfodol, gydag angen manylion am welliannau pellach.

- Mater 2: Dylid dangos y llwybr beicio newydd trwy Erddi Sophia ar y map fel llwybr presennol (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae'r rhan newydd o'r llwybr rhwng Pont Caerdydd a Clos Sophia wedi'i archwilio a'i ychwanegu at y map fel llwybr presennol.

**Crynodeb o'r newidiadau**

Mae'r newidiadau canlynol wedi cael eu gwneud i lwybrau arfaethedig (llwybrau'r dyfodol) yn sgil yr ymgynghoriad:

- Wyndham Place, Wyndham Street, Machen Place, Neville Place a Stryd Despenser: Mae'r llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map
- Picton Walk: Mae'r llwybr cerdded lleol arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map
- Heol Llandaf: Mae'r llwybr cerdded lleol arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map
- Fields Park Road: Mae'r llwybr cerdded arfaethedig wedi'i ddiwygio i lwybr cerdded a beicio arfaethedig a'i ailosod wrth ymyl y maes parcio i gysylltu â Beicffordd 4
- Sneyd Street: Mae'r llwybr cerdded a beicio arfaethedig wedi'i estyn i'r gyffordd â Heol Caerdydd.
- Talbot Street: Mae'r llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map

- Cilgant Wyndham, Severn Grove, Mortimer Road, Heol Conway: Ychwanegodd y llwybr cerdded a beicio arfaethedig at y map, gan ddisodli llwybrau cerdded arfaethedig ar Cilgant Wyndham, Severn Grove a rhan o Heol Conwy

Mae'r newidiadau canlynol wedi cael eu gwneud i'r llwybrau presennol yn sgil yr ymgynghoriad:

- Taith Taf: Ychwanegwyd datganiad ar gyfer y llwybr beicio presennol
- Beicffordd 4.1 o Bont Caerdydd i Clos Sophia: Mae'r llwybr a gwblhawyd yn ddiweddar wedi'i ychwanegu at y map fel llwybr presennol

Tredelerch

**Nifer yr ymatebion a gafwyd:** 14 (Commonplace)

**Crynodeb o'r ymatebion**

Dyma'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiynau ymgynghori ar lwybrau'r dyfodol:

Ydych chi'n cytuno â'r llwybrau newydd arfaethedig ar gyfer cerdded?

- Ydw: 7 (58%)
- Yn rhannol: 3 (25%)
- Nac ydw: 2 (17%)

Ydych chi'n cytuno â'r llwybrau newydd arfaethedig ar gyfer cerdded a beicio?

- Ydw: 7 (50%)
- Yn rhannol: 4 (29%)
- Nac ydw: 3 (21%)

**Materion Penodol**

Mae'r ymatebion sy'n codi materion ynglŷn â llwybrau arfaethedig (llwybrau'r dyfodol) y gallai fod angen newidiadau i'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol ar eu cyfer wedi cael eu crynhoi isod gydag ymateb y Cyngor.

- Mater 1: Dylid estyn y llwybr cerdded arfaethedig ar Barmouth Road (derbyniwyd 1 sylw). Mae'r llwybr troed o Barmouth Road i Trelawney Avenue yn llwybr defnyddiol i'r ysgol (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim newidiadau. Mae angen ymchwilio ymhellach i berchnogaeth tir er mwyn dynodi llwybr teithio llesol yma.

- Mater 2: Nid oes angen y llwybr beicio arfaethedig ar Heol y Brachdy, Heol Newydd a Heol Caeglas, gan fod y llwybr arfaethedig ar Heol Casnewydd yn ddigonol (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Mae angen y llwybr i gysylltu â chyrchfannau lleol gan gynnwys ysgol gynradd a chanolfan iechyd.

- Mater 3: Mae'r llwybr troed o Heol yr Eglwys i Heol Gwynllŵg yn llwybr defnyddiol i'r ysgol (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim newidiadau. Mae angen ymchwilio ymhellach i berchnogaeth tir er mwyn dynodi llwybr teithio llesol yma.

- Mater 4: Mae'r llwybr arfaethedig trwy Katherine Gardens a Quarry Park yn rhy gul ar gyfer beicio a bydd yn gwrthdaro â'r ardal chwarae. Mae Uplands Road yn aliniad amgen mwy addas (derbyniwyd 3 sylw).

Canlyniad: Dim newidiadau.  Mae'r aliniad trwy'r parc yn cael ei ffafrio ar hyn o bryd oherwydd y graddiant ar Uplands Road. Er mwyn creu llwybr beicio trwy'r parc, byddai angen uwchraddio'r llwybr presennol i sicrhau ei fod yn cyrraedd y safonau ar gyfer llwybr cerdded a beicio. Bydd angen ymchwilio ymhellach i gadarnhau aliniad mwyaf addas y llwybr fel rhan o broses ddylunio'r cynllun.

- Mater 5: Dylai'r llwybr cerdded a beicio rhwng Heol Casnewydd a Caer Castle Place trwy'r datblygiad newydd arfaethedig gael ei ddangos ar y map (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded a beicio arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map gydag aliniad bras trwy'r safle datblygu ar sail cynlluniau sydd wedi'u cymeradwyo.

- Mater 6: Mae'r llwybr o amgylch Llyn Tredelerch yn mynd yn gorslyd pan fo'n wlyb (derbyniwyd 1 sylw). Dylai'r llwybr trwy Barc Tredelerch osgoi'r llwybr estyll, sy'n llithrig pan fo'n wlyb (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae aliniad arfaethedig y llwybr cerdded a beicio sy'n rhan o Lwybr Tredelerch trwy Barc Tredelerch wedi cael ei ddiwygio i osgoi'r llwybr estyll. Bydd angen rhagor o welliannau i sicrhau bod y llwybr yn cyrraedd y safon.

- Mater 7: Mae Whitehall Parade a Heol yr Eglwys yn darparu llwybr cerdded mwy addas i'r siopau na Heol Gwynllŵg (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map ar Whitehall Parade a Heol yr Eglwys er mwyn cysylltu â'r siopau ar Heol Casnewydd. Nid oes angen unrhyw newidiadau i'r llwybr arfaethedig ar Heol Gwynllŵg, gan fod nifer o gyrchfannau lleol ar y llwybr hwn hefyd.

- Mater 8: Dylid estyn y llwybr cerdded arfaethedig ar Heol Gwynllŵg (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae'r llwybr cerdded arfaethedig ar Heol Gwynllŵg wedi cael ei estyn i'r de i gysylltu â'r unedau diwydiannol yma

**Crynodeb o'r newidiadau**

Mae'r newidiadau canlynol wedi cael eu gwneud i lwybrau arfaethedig (llwybrau'r dyfodol) yn sgil yr ymgynghoriad:

- Llwybr o Heol Casnewydd i Caer Castle Place gan gynnwys safle datblygu: Mae'r llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map
- Parc Tredelerch: Llwybr cerdded a beicio arfaethedig wedi'i ailalinio i osgoi'r llwybr estyll
- Whitehall Parade a Heol yr Eglwys: Mae'r llwybr cerdded lleol arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map
- Heol Gwynllŵg:  Mae'r llwybr cerdded arfaethedig wedi'i estyn i gysylltu â'r unedau diwydiannol ym mhen deheuol Heol Gwynllŵg

Y Sblot

**Nifer yr ymatebion a gafwyd:** 52 (Commonplace)

**Crynodeb o’r ymatebion**

Dyma'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiynau ymgynghori ar lwybrau'r dyfodol:

Ydych chi'n cytuno â'r llwybrau newydd arfaethedig ar gyfer cerdded?

- Ydw: 25 (53%)
- Yn rhannol: 17 (36%)
- Nac ydw: 5 (11%)

Ydych chi'n cytuno â'r llwybrau newydd arfaethedig ar gyfer cerdded a beicio?

- Ydw: 21 (41%)
- Yn rhannol: 20 (39%)
- Nac ydw: 10 (20%)

**Materion Penodol**

Mae’r ymatebion sy'n codi materion ynglŷn â llwybrau arfaethedig (llwybrau'r dyfodol) y gallai fod angen newidiadau i'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol ar eu cyfer wedi cael eu crynhoi isod gydag ymateb y Cyngor.

- Mater 1: Derbyniwyd nifer o sylwadau ynglŷn ag aliniadau arfaethedig llwybrau o’r dwyrain i'r gorllewin rhwng Ordell Street a Moorland Road. Mae Carlisle Street yn rhy brysur ac mae Railway Street yn llwybr beicio amgen gwell (derbyniwyd 4 sylw). Dylid gwneud Carlisle Street yn stryd unffordd er mwyn hwyluso’r llwybr beicio (derbyniwyd 1 sylw). Dylai Carlisle Street gynnwys hidlwyr dulliau teithio er mwyn hwyluso’r llwybr beicio (derbyniwyd 1 sylw). Mae angen rhagor o groesfannau ar Carlisle Street (derbyniwyd 1 sylw). Nid oes angen llwybrau cyfochrog ar Carlisle Street and Habershon Street (derbyniwyd 1 sylw). Pryder am yr effaith ar draffig a pharcio ar Carlisle Street (derbyniwyd 1 sylw). Mae Habershon Street yn rhy brysur ac mae Railway Street yn llwybr beicio amgen gwell (derbyniwyd 3 sylw). Yn cefnogi llwybr beicio ar Habershon Street (derbyniwyd 1 sylw). Dylid gwneud Habershon Street yn stryd unffordd er mwyn hwyluso’r llwybr beicio (derbyniwyd 1 sylw). Dylai Habershon Street gynnwys hidlwyr dulliau teithio er mwyn hwyluso’r llwybr beicio (derbyniwyd 1 sylw). Pryder am yr effaith ar draffig a pharcio ar Carlisle Street (derbyniwyd 1 sylw). Byddai Railway Street yn llwybr beicio tawel defnyddiol (derbyniwyd 1 sylw). Pryder am yrwyr yn defnyddio Railway Street fel ffordd amgen i gyrraedd y gwaith ar adegau prysur (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae'r llwybr arfaethedig ar Carlisle Street wedi’i symud i Railway Street. Bydd y llwybr arfaethedig yn cael ei gadw ar Habershon Street gan fod hwn yn

cysylltu’n uniongyrchol â siopau ar Stryd Tyndall Ddwyreiniol a Pharc y Sblot ac mae'n cyfrannu at ddwysedd rhwyll rhwydwaith 250m.

- Mater 2: Dylai'r llwybr troed sy'n cysylltu Stryd Tyndall Ddwyreiniol â Stryd Sanqahar ger yr archfarchnad fod yn llwybr cerdded (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim newidiadau.  Mae angen ymchwilio ymhellach i berchnogaeth tir er mwyn dynodi llwybr teithio llesol.

- Mater 3: Dylai fod llwybr cerdded o Freshmoor Road trwy Barc y Morfa (derbyniwyd 1 sylw). Mae angen llwybr cerdded trwy Barc y Morfa (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded lleol arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map o Freshmoor Road trwy Barc y Morfa i'r llwybr cerdded arfaethedig ar Singleton Road.

- Mater 4: Mae angen llwybr cerdded a beicio trwy’r parc o Pengam Moors i’r Sblot (derbyniwyd 4 sylw). Mae angen llwybr cerdded a beicio ym Mharc Tremorfa (derbyniwyd 2 sylw). Mae angen llwybr trwy Barc Tremorfa o Kenyon Road i Ffordd Pengam (derbyniwyd 1 sylw). Mae angen llwybr beicio ar Ffordd Pengam (derbyniwyd 1 sylw) Mae angen llwybr cerdded a beicio i gysylltu Ffordd Rover a Ffordd Pengam (derbyniwyd 3 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded a beicio arfaethedig wedi’i ychwanegu at y map ar Ffordd Pengam gyda chysylltiad â Ffordd Rover a llwybr trwy Barc Tremorfa i Kenyon Road.

- Mater 5: Mae bwlch yn y rhwydwaith teithio llesol ar Seawall Road (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim newidiadau.  Nid yw Seawall Road yn darparu unrhyw gysylltiadau pwysig â chyrchfannau teithio llesol lleol na'r rhwydwaith teithio llesol ehangach.

- Mater 6: Mae angen lledu’r palmentydd ar Heol y Sblot (derbyniwyd 1 sylw). Mae angen gwelliannau cerdded ar Heol y Sblot (derbyniwyd 2 sylw). Dylai Heol y Sblot fod yn lwybr cerdded ar ei hyd cyfan i roi mynediad i’r feddygfa (derbyniwyd 3 sylw). Mae angen llwybr beicio ar wahân ar Heol y Sblot (derbyniwyd 1 sylw). Dylai Heol y Sblot fod yn llwybr beicio (derbyniwyd 7 sylw). Mae angen llwybr rhwng y gogledd a’r de o Heol y Sblot i Elm Street (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded a beicio arfaethedig wedi'i ychwanegu at Heol y Sblot ar ei hyd cyfan, gan ddisodli'r llwybr cerdded arfaethedig ar ran o Heol y Sblot. Mae hyn yn cysylltu â llwybr beicio arfaethedig a ychwanegwyd at y map yn dilyn ymgynghoriad sy’n mynd trwy Stryd Clifton i Plasnewydd Road.

- Mater 7: Dylai Heol y Sblot, Moorland Road a Courtenay Road fod yn llwybr beicio (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae'r llwybr cerdded a beicio arfaethedig ar Moorland Road wedi’i estyn i gysylltu â'r llwybr cerdded a beicio arfaethedig ym mhen deheuol Heol y Sblot. Nid

oes angen llwybr ar Courtenay Road yn ogystal â hyn gan ei fod yn agos at y llwybr arfaethedig ar Habershon Street.

- Mater 8: Mae angen llwybr beicio ar Heol Muirton (derbyniwyd 1 sylw). Mae angen llwybrau cerdded ym Mharc y Sblot (derbyniwyd 2 sylw).

  Canlyniad: Mae'r llwybr cerdded a beicio arfaethedig ar Heol Muirton wedi'i estyn i gysylltu â'r llwybr cerdded a beicio arfaethedig ym mhen deheuol Heol y Sblot. Nid oes angen llwybrau ychwanegol trwy'r parc oherwydd eu bod yn agos at y llwybr arfaethedig ar Heol Muirton.

- Mater 9: Mae bwlch yn y rhwydwaith teithio llesol ar Heol Windsor (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae'r llwybr cerdded a beicio arfaethedig ar Heol Windsor wedi'i estyn i groesi Pont Heol Windsor a chysylltu â llwybrau teithio llesol yn Adamsdown.

**Crynodeb o'r newidiadau**

Mae'r newidiadau canlynol wedi cael eu gwneud i lwybrau arfaethedig (llwybrau'r dyfodol) yn sgil yr ymgynghoriad:

- CarlisleStreet a Railway Street: Mae'r llwybr cerdded a beicio arfaethedig ar Carlisle Street wedi'i ailalinio i Railway Street
- Freshmoor Road a Pharc y Morfa: Mae'r llwybr cerdded lleol arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map
- Ffordd Pengam, Parc Tremorfa a Kenyon Road: Mae'r llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map
- Heol y Sblot: Mae llwybr cerdded a beicio arfaethedig ar Heol y Sblot wedi'i ddisodli gan lwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig ar hyd cyfan y ffordd
- Moorland Road: Mae'r llwybr cerdded a beicio arfaethedig wedi'i estyn i'r gyffordd â Heol y Sblot
- Heol Muirton a De Heol y Parc: Mae'r llwybr cerdded a beicio arfaethedig wedi'i estyn i'r gyffordd â Heol y Sblot
- Heol Windsor: Mae'r llwybr cerdded a beicio arfaethedig wedi'i estyn dros Bont Heol Windsor

## Trowbridge

**Nifer yr ymatebion a gafwyd:** 13 (Commonplace)

**Crynodeb o'r ymatebion**

Dyma'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiynau ymgynghori ar lwybrau'r dyfodol:

Ydych chi'n cytuno â'r llwybrau newydd arfaethedig ar gyfer cerdded?

- Ydw: 6 (46%)
- Yn rhannol: 6 (46%)
- Nac ydw: 1 (8%)

Ydych chi'n cytuno â'r llwybrau newydd arfaethedig ar gyfer cerdded a beicio?

- Ydw: 9 (69%)
- Yn rhannol: 3 (23%)
- Nac ydw: 1 (8%)

**Materion Penodol**

Mae'r ymatebion sy'n codi materion ynglŷn â llwybrau arfaethedig (llwybrau'r dyfodol) y gallai fod angen newidiadau i'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol ar eu cyfer wedi cael eu crynhoi isod gydag ymateb y Cyngor.

- Mater 1: Mae angen llwybr beicio ar Bethania Row i gysylltu Heol Greenway â Heol Casnewydd (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded a beicio arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map i gysylltu Heol Casnewydd a Heol Greenway trwy Bethania Row.

- Mater 2: Dylid adfer yr HTC o Rhodfa'r Gypreswydden i Heol Las er mwyn creu llwybr cerdded gyda phont dros Ffos Ddraenio Faendre (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Byddai llwybr yma yn cael ei gategoreiddio orau fel llwybr hamdden yn hytrach na llwybr teithio llesol.

- Mater 3: Dylid symud rhwystrau ar y llwybr presennol o Laneirwg i Hendre Lakes i greu llwybr beicio a gwella mynediad ar gyfer cadeiriau olwyn a chadeiriau gwthio (derbyniwyd 2 sylw). Mae angen llwybr beicio o Orsaf Parcffordd arfaethedig Caerdydd i Hendre Lakes (derbyniwyd 1 sylw). Mae angen gwell arwyneb i'r llwybr troed ger Hendre Lakes gan nad oes modd ei ddefnyddio pan fo'n bwrw glaw (derbyniwyd 1 sylw). Mae angen atgyweirio'r bont ger Llynnoedd Hendre (derbyniwyd 1 sylw). Dylid estyn y llwybr cerdded a beicio arfaethedig ar Rhodfa'r Gypreswydden i Hendre Lakes (derbyniwyd 2 sylw).

Canlyniad: Dim angen newidiadau. Mae'n debygol y bydd llwybrau o gwmpas Hendre Lakes yn dod o dan gategori llwybrau hamdden yn hytrach na llwybrau teithio llesol.

- Mater 4: Dylai'r llwybr presennol trwy Vaendre Lane a Pharc Treftadaeth ac o dan Rhodfa'r Gypreswydden fod yn llwybr beicio (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded a beicio arfaethedig wedi'i ychwanegu at Vaendre Lane sy'n darparu llwybr drwodd i Barc Busnes Llaneirwg.

- Mater 5: Dylai Wern Gethin Lane fod yn llwybr teithio llesol; mae eisoes yn lôn ddi-draffig (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim newidiadau. Nid yw'r llwybr yn cysylltu â chyrchfannau lleol na'r rhwydwaith teithio llesol ehangach.

- Mater 6: Dylai'r llwybr troed yng nghefn Wicken Close fod yn llwybr cerdded (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim newidiadau. Nid oes angen llwybr cerdded yma yn ogystal â'r llwybr cerdded arfaethedig ar Rhodfa Nant Helyg.

- Mater 7: Mae angen llwybrau cerdded amgen er mwyn osgoi isffyrdd ar Rhodfa Nant Helyg oherwydd pryderon am ymddygiad gwrthgymdeithasol (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Bydd angen rhagor o waith i ddylunio gwelliannau lle mae llwybrau'n croesi Rhodfa Nant Helyg fel rhan o ddatblygiad y llwybrau hyn.

- Mater 8: Mae angen llwybr beicio ar Rhodfa Nant Helyg (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim newidiadau. Mae angen gwaith pellach i nodi rhwydwaith o lwybrau beicio addas yn yr ardal o amgylch Rhodfa Nant Helyg, a fydd yn cael ei wneud ar gyfer fersiwn o'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol yn y dyfodol. Yn y tymor byr, bydd llwybrau cerdded i ysgolion o amgylch Rhodfa Nant Helyg yn cael eu blaenoriaethu.

**Crynodeb o'r newidiadau**

Mae'r newidiadau canlynol wedi cael eu gwneud i lwybrau arfaethedig (llwybrau'r dyfodol) yn sgil yr ymgynghoriad:

- Bethania Row a Chapel Row: Mae'r llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map
- Vaendre Lane: Mae'r llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map

## Yr Eglwys Newydd a Thongwynlais

**Nifer yr ymatebion a gafwyd:** 68 (Commonplace), 2 (e-bost)

**Crynodeb o'r ymatebion**

Dyma'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiynau ymgynghori ar lwybrau'r dyfodol:

Ydych chi'n cytuno â'r llwybrau newydd arfaethedig ar gyfer cerdded?

- Ydw: 31 (50%)
- Yn rhannol: 16 (26%)
- Nac ydw: 15 (24%)

Ydych chi'n cytuno â'r llwybrau newydd arfaethedig ar gyfer cerdded a beicio?

- Ydw: 33 (52%)
- Yn rhannol: 14 (22%)
- Nac ydw: 17 (27%)

Dyma'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiynau ymgynghori ar lwybrau presennol:

Ydych chi'n cytuno bod y llwybrau cerdded presennol a ddangosir yn addas ar gyfer cerdded ar hyn o bryd?

- Ydw: 29 (47%)
- Yn rhannol: 19 (31%)
- Nac ydw: 14 (23%)

Ydych chi'n cytuno bod y llwybrau beicio presennol a ddangosir yn addas ar gyfer beicio ar hyn o bryd?

- Ydw: 28 (46%)
- Yn rhannol: 16 (26%)
- Nac ydw: 17 (28%)

**Materion Penodol**

Mae'r ymatebion sy'n codi materion ynglŷn â llwybrau arfaethedig (llwybrau'r dyfodol) y gallai fod angen newidiadau i'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol ar eu cyfer wedi cael eu crynhoi isod gydag ymateb y Cyngor.

- Mater 1: Dylid creu llwybr beicio ar Heol y Gors, Heol Gabriel a Celtic Road i gysylltu'r Eglwys Newydd ag Ysbyty Athrofaol Cymru (derbyniwyd 3 sylw). Mae angen goleuo'r lôn ar y llwybr presennol yn Heol Coedcae (derbyniwyd 1 sylw). Dylai Heol Wauntreoda fod yn llwybr beicio, wedi'i chysylltu â Heol Gabriel (derbyniwyd 1 sylw). Dylid uwchraddio'r llwybr o Close Cornel i Heol y Coleg i'w wneud yn addas ar gyfer beiciau cargo (derbyniwyd 1 sylw). Mae angen llwybr cerdded gydag arwyneb caled a

goleuadau ar Waun Treoda i gyrraedd yr ysgol (derbyniwyd 1 sylw). Mae Coed Arian a Silver Birch Close yn llwybr tawel defnyddiol ar gyfer beicio rhwng Heol y Coleg a'r A470 (derbyniwyd 2 sylw). Mae angen llwybr cerdded ar Y Ffilog (derbyniwyd 3 sylw). Mae angen llwybr beicio ar Y Ffilog (derbyniwyd 4 sylw).

Canlyniad: Mae llwybrau cerdded a beicio wedi'u hychwanegu at y map i gysylltu Heol y Coleg â'r A470 a hwyluso teithiau ymlaen i Ysbyty Athrofaol Cymru ar Clos Cornel, Heol Coedcae, Heol y Gors a Celtic Road, ac ar Goed Arian a Silver Birch Close.

- Mater 2: Dylid creu llwybr cerdded a beicio wrth ymyl tiroedd yr ysgol i gysylltu Cefn Road â Silver Birch Close (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybrau cerdded a beicio arfaethedig wedi'u hychwanegu at Cefn Road a Silver Birch Close, ond mae angen ymchwilio ymhellach i berchnogaeth tir er mwyn dynodi llwybr sy'n cysylltu'r ddau.

- Mater 3: Mae angen gwell llwybrau cerdded a beicio ar draws Cyfnewidfa Coryton, gan gynnwys gwell croesfannau i gyrraedd yr archfarchnad o Dongwynlais (derbyniwyd 1 sylw). Mae angen lledu llwybrau Cyfnewidfa Coryton, gwelliannau i'r arwyneb, a goleuadau (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded ychwanegol wedi'i ychwanegu ar y llwybrau presennol trwy Gyfnewidfa Coryton i gyrraedd yr archfarchnad o Dongwynlais.

- Mater 4: Dylid dangos mwy o'r llwybrau cerdded presennol trwy Fferm y Fforest (derbyniwyd 3 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Llwybrau hamdden yw'r llwybrau hyn yn bennaf.

- Mater 5: Dylid dangos yr hawl tramwy cyhoeddus o Greenmeadow Drive i Bryn Rhiwbeina fel llwybr cerdded (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Mae'r llwybr hwn o ddefnydd cyfyngedig fel llwybr teithio llesol o ran cysylltiadau â chyrchfannau neu'r rhwydwaith teithio llesol ehangach, ac felly byddai'n cael ei gategoreiddio'n well fel llwybr hamdden.

- Mater 6: Dylid osgoi defnyddio Iron Bridge Road fel llwybr teithio llesol gan fod y droedffordd a'r ffordd yn rhy gul (derbyniwyd 2 sylw). Mae'r droedffordd ar Iron Bridge Road yn rhy gul ac mae'n rhaid i gerddwyr gerdded yn y ffordd (derbyniwyd 1 sylw). Mae angen gwelliannau i'r arwyneb ar Iron Bridge Road (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Mae Taith Taf ar Iron Bridge Road yn llwybr sefydledig. Nid yw'n cael ei ddangos ar fap y llwybrau presennol ac mae'n debygol y bydd angen gwelliannau arno er mwyn iddo gyrraedd y safon.

- Mater 7: Dylid creu llwybr beicio ar yr hen reilffordd o Longwood Drive i Daith Taf (derbyniwyd 1 sylw).

Canlyniad: Dim angen newidiadau. Ychydig o fudd ychwanegol sydd gan y llwybr ar yr hen reilffordd o’i gymharu â’r llwybr teithio llesol arfaethedig ar Daith Taf.

- Mater 8: Dylid blaenoriaethu llwybrau beicio ar ffyrdd tawel dros lwybrau cyd-ddefnyddio ar Ffordd y Faenor (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Penderfynir ar y math o seilwaith i’w ddarparu ar Ffordd y Faenor trwy broses ddylunio'r cynllun. Bydd llwybrau'n cael eu blaenoriaethu trwy broses ar wahân cyn cwblhau'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol.

- Mater 9: Dylid dangos llwybr cerdded o Olwyn Ddŵr Melingruffydd i Radur dros y bont reilffordd bresennol a thrwy safle Clwb Criced Radur (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim newidiadau.  Mae angen ymchwilio ymhellach i berchnogaeth tir a dichonoldeb er mwyn dynodi llwybr teithio llesol dros y bont bresennol. Mae'r llwybr arfaethedig ar Daith Taf yn cynnig llwybr amgen i Radur.

- Mater 10: Dylai'r llwybr beicio arfaethedig ar Heol Merthyr yn Nhongwynlais gael ei ailgyfeirio i ffwrdd o Dongwynlais, er enghraifft trwy greu llwybr ar lan yr afon, gan fod y ffordd yn rhy gul (derbyniwyd 2 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Mae angen llwybr teithio llesol i gysylltu â chyrchfannau o fewn Tongwynlais.

- Mater 11: Mae llwybr ar hyd Ffordd y Felin, Castle Road a Heol y Fforest eisoes yn cael ei ddefnyddio'n dda gan feicwyr ac felly dylai fod yn llwybr beicio (derbyniwyd 2 sylw). Mae angen gwelliannau beicio ar Ffordd y Felin, Castle Road a Heol y Fforest (derbyniwyd 1 sylw). Mae Bryn Rhiwbina Hill yn llwybr beicio pellter hir sefydledig (dderbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Nid yw'r llwybrau hyn yn cysylltu'n uniongyrchol â chyrchfannau lleol ac felly mae'n fwy priodol eu hystyried yn llwybrau hamdden.

- Mater 12: Mae angen llwybr gwell i Bentre-poeth o Dongwynlais (derbyniwyd 1 sylw). Mae angen pont well i groesi Afon Taf i'r gogledd o Radur (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim newidiadau.  Mae angen ymchwilio ymhellach i ddichonoldeb a pherchnogaeth tir er mwyn dynodi llwybr teithio llesol yma.

- Mater 13: Dylid dangos llwybrau cerdded trwy Ddolydd Llwyn Mallt (derbyniwyd 5 sylw). Dylai mwy o lwybrau cerdded presennol o amgylch Ysbyty'r Eglwys Newydd gael eu dangos (derbyniwyd 3 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Llwybrau hamdden yw'r llwybrau hyn yn bennaf.

- Mater 14: Dylid dangos llwybrau cerdded yn y Wenallt (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim angen newidiadau. Llwybrau hamdden yw'r llwybrau hyn yn bennaf.

- Mater 15: Dylai Ty'n-y-Pwll Road fod yn llwybr cerdded i'r ysgol (derbyniwyd 1 sylw).

Canlyniad: Mae llwybr cerdded lleol arfaethedig wedi’i ychwanegu at y map ar Ty’n-y-Pwll Road.

- Mater 16: Mae angen gwella'r llwybr presennol sy'n cysylltu Westbourne Road â Thŷ Mawr i alluogi beicwyr i gyrraedd Taith Taf (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae llwybr cerdded a beicio arfaethedig wedi'i ychwanegu at Westbourne Road a Westbourne Crescent sy'n cysylltu â Thaith Taf ar Heol Tŷ Mawr.

- Mater 17: Mae angen gwella'r arwyneb ar y llwybr troed o Castell Coch View i Heol Merthyr yn Nhongwynlais. Mae'n llwybr defnyddiol i'r ysgol a'r safleoedd bysus (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Dim newidiadau.  Mae angen ymchwilio ymhellach i berchnogaeth tir er mwyn dynodi llwybr teithio llesol yma.

Mae’r ymatebion sy'n codi materion ynglŷn â llwybrau presennol y gallai fod angen newidiadau i'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol ar eu cyfer wedi cael eu crynhoi isod gydag ymateb y Cyngor.

- Mater 1: Mae angen gwella croesfannau i gyrraedd Tynewydd o Bishops Road ar gyfer yr ysgol; mae cyflymder y traffig yn broblem (derbyniwyd 1 sylw). Maes Glas yw'r llwybr mwyaf uniongyrchol rhwng Heol Don a Heol y Coleg, felly dylai fod yn llwybr cerdded (derbyniwyd 1 sylw). Mae angen gwelliannau i'r arwyneb ar St David’s Road ac mae parcio ar y palmant yn broblem i gadeiriau gwthio (derbyniwyd 1 sylw). Mae angen gwelliannau i arwyneb y droedffordd ar Tynewydd (derbyniwyd 1 sylw). Mae angen torri llystyfiant yn ôl o Wingfield Road i Little Mill (derbyniwyd 1 sylw). Dylid uwchraddio mynediad o Wingfield Avenue i Erw Las er mwyn caniatáu ar gyfer beiciau cargo (derbyniwyd 1 sylw). Mae angen llwybr beicio o Wingfield Road i Ysgol Gynradd yr Eglwys Newydd (derbyniwyd 1 sylw).

  Canlyniad: Mae archwiliadau’r llwybrau ar gyfer y llwybrau cerdded presennol o amgylch Ysgol Gynradd yr Eglwys Newydd wedi cael eu hadolygu. Nid yw'r rhan fwyaf o'r llwybrau bellach yn pasio'r archwiliadau oherwydd diffyg cyrbau isel. Mae Wingfield Road yn pasio'r archwiliad ac yn parhau ar y map fel llwybr cerdded presennol. Mae Bishops Road hefyd yn pasio'r archwiliad ac wedi'i ychwanegu at y map fel llwybr cerdded presennol. Mae Wingfield Road ac Erw Las wedi cael eu hychwanegu at y map fel llwybr cerdded a beicio arfaethedig. Mae Tynewydd, St David’s Road, Bishops Place a Felin Fach bellach ar y map fel llwybrau cerdded arfaethedig.

- Mater 2: Mae angen gwaith cynnal a chadw a goleuo ar Daith Taf (derbyniwyd 1 sylw). Mae Taith Taf yn rhy gul i gael ei ddosbarthu fel llwybr presennol (derbyniwyd 3 sylw). Nid yw Taith Taf yn cyrraedd y safon fel llwybr presennol (derbyniwyd 3 sylw). Mae cyflymder beicwyr yn broblem ar Daith Taf (derbyniwyd 1 sylw). Mae

angen gwella Taith Taf ar Heol Tŷ Mawr, er enghraifft symud traffig drwodd a rhoi blaenoriaeth i'r trac beicio dros gyffyrdd (derbyniwyd 3 sylw).

Canlyniad: Mae archwiliadau'r llwybr wedi'u hadolygu ar gyfer y rhan o Daith Taf rhwng yr A48 a Fferm y Fforest. Mae'r archwiliad beicio yn fethiant difrifol oherwydd y lled is-safonol trwy'r rhan fwyaf o'r llwybr. Mae'r archwiliad cerdded yn pasio gyda datganiad, yn bennaf oherwydd materion cysur i gerddwyr oherwydd lled is-safonol y llwybr. Mae'r llwybr wedi'i dynnu o fap y llwybrau presennol fel llwybr beicio ond mae'n parhau ar fap y llwybrau presennol fel llwybr cerdded gyda datganiad. Mae llwybr cerdded a beicio arfaethedig ar gyfer Taith Taf wedi'i ychwanegu at y map, gan gynnwys gwybodaeth yn y disgrifiad o'r gwaith am sut y gellir gwella'r llwybr.

**Crynodeb o'r newidiadau**

Mae'r newidiadau canlynol wedi cael eu gwneud i lwybrau arfaethedig (llwybrau'r dyfodol) yn sgil yr ymgynghoriad:

- Clos Cornel, Heol Coedcae, Heol y Gors a Celtic Road: Mae'r llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map
- Coed Arian a Silver Birch Close: Mae'r llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map
- Cyfnewidfa Coryton a Longwood Drive: Llwybr cerdded lleol arfaethedig yn cael ei ychwanegu at y map trwy'r llwybrau presennol trwy Gyfnewidfa Coryton
- Ty'n-y-Pwll Road  Mae'r llwybr cerdded lleol arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map
- Heol Westbourne a Westbourne Crescent: Mae'r llwybr cerdded a beicio eilaidd arfaethedig wedi'i ychwanegu at y map

Mae'r newidiadau canlynol wedi cael eu gwneud i'r llwybrau presennol yn sgil yr ymgynghoriad:

- Tynewydd, St David's Road, Bishops Place a Felin Fach: Wedi'u tynnu o'r map fel llwybrau presennol a'u hychwanegu fel llwybrau cerdded lleol arfaethedig
- Bishops Road: Wedi'i dynnu o'r map fel llwybr arfaethedig a'i ychwanegu fel llwybr presennol
- Taith Taf o'r A48 i Fferm y Fforest: Wedi'i dynnu o'r map fel llwybr beicio presennol. Ychwanegwyd datganiad at y map ar gyfer llwybr cerdded presennol. Wedi'i ychwanegu ar y map fel llwybr cerdded a beicio arfaethedig